Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu
Independent Office for Police Conduct

# Adroddiad blynyddol a datganiad o gyfrifon 2019/20

HC511

# Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu Adroddiad blynyddol a datganiad o gyfrifon 2019/20

Adroddiad Blynyddol a gyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag Adran 11(5) o Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002

Cyfrifon a gyflwynwyd i'r Senedd yn unol â Pharagraff 17 o Atodlen 2 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002

Argraffwyd dan orchymyn Tŷ'r Cyffredin ar 22 Gorffennaf 2020

**HC 511**

OGL

© Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (2020)

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni bai lle nodir yn wahanol. I gael gweld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle'r ydym wedi adnabod unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn: www.gov.uk/official-documents.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau sy'n gysylltiedig â'r cyhoeddiad hwn at:

Independent Office for Police Conduct (IOPC)
10 South Colonnade
Canary Wharf
London
E14 4PU
Ffôn: 0300 020 0096
E-bost: enquiries@policeconduct.gov.uk

ISBN 978-1-5286-1815-1

CCS0320331450 07/20

Wedi'i argraffu ar bapur yn cynnwys lleiafswm cynnwys ffibr wedi'i ailgylchu o 75%.

Argraffwyd yn y Deyrnas Unedig ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi gan yr APS Group.

# Cynnwys


Adran 1: Adroddiad perfformiad 6

Trosolwg 6

Dadansoddiad o berfformiad 11

Adran 2: Adroddiad atebolrwydd 53

Adroddiad llywodraethu corfforaethol 53

Adroddiad cydnabyddiaeth a staff 76

Adroddiad atebolrwydd Seneddol 90

Tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol 92

Adran 3: Datganiadau ariannol 97

# Adran 1: Adroddiad perfformiad

## Trosolwg

### Amdanom ni – pwy ydym a'r hyn yr ydym yn ei wneud

Fel Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC), rydym yn goruchwylio system gwynion yr heddlu ac yn ymchwilio i'r digwyddiadau a chwynion mwyaf difrifol yn ymwneud â'r heddlu. Rydym yn defnyddio'r gwersi o'n gwaith i ddylanwadu ar newidiadau mewn plismona. Gwneir ein holl waith yn annibynnol oddi ar yr heddlu, llywodraeth a grwpiau buddiannau.

Heddluoedd sy'n ymdrin â mwyafrif y cwynion yn erbyn swyddogion yr heddlu a staff yr heddlu. Rhaid i heddluoedd atgyfeirio'r achosion mwyaf difrifol atom – p'un ai a yw rhywun wedi gwneud cwyn ai peidio.

Mae heddluoedd arbenigol megis y Weinyddiaeth Amddiffyn, Cwnstabliaeth Niwclear Sifil a Heddlu Trafnidiaeth Prydain, dan ein hawdurdodaeth hefyd. Rydym hefyd yn goruchwylio'r system gwynion ar gyfer rhai sefydliadau eraill, megis Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM), yr Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol (NCA), a'r Awdurdod Gangfeistri a Cham-drin Llafur (GLAA). Rydym yn ymchwilio i gwynion difrifol penodol a materion ymddygiad yn ymwneud â staff gan y sefydliadau hyn.

Yn ogystal â hyn, rydym yn ymchwilio i honiadau troseddol yn erbyn comisiynwyr yr heddlu a throseddau (CHTh) a'u dirprwyon a chontractwyr sy'n gweithio i'r heddlu.

### Ein cenhadaeth a'n gwerthoedd

Ein cenhadaeth yw gwella hyder y cyhoedd mewn plismona drwy sicrhau bod yr heddlu yn atebol am eu gweithredoedd a bod gwersi yn cael eu dysgu. Gall ein gwaith yn ymchwilio i gwynion a marwolaethau ac anafiadau difrifol gael effaith ehangach ar adnabod materion systematig. Gall hyn helpu i ffurfio a dylanwadu ar newidiadau nid yn unig i blismona, ond ar draws y system cyfiawnder troseddol a sectorau eraill.

Mae ein gwerthoedd, a ddatblygwyd mewn ymgynghoriad â'n staff a rhanddeiliaid allanol, yn cynnwys:

- chwilio am y gwir
- bod yn gynhwysol
- grymuso pobl
- bod yn ddygn
- gwneud gwahaniaeth

### Ein strwythur ac arweinyddiaeth

Cewch wybodaeth ynglŷn â sut mae ein sefydliad wedi'i strwythuro a darllen am ein huwch arweinwyr ar ein gwefan.

## Rhagair y Cyfarwyddwr Cyffredinol

Daw'r adroddiad hwn ar ddiwedd ein hail flwyddyn lle'r ydym wedi parhau i weithio'n galed i wella hyder yn system gwynion yr heddlu a phlismona yn ehangach.

Yn ystod y flwyddyn, lansiwyd cam olaf y diwygiadau cyfreithiol i system gwynion yr heddlu. Gweithiom gyda'r Swyddfa Gartref, Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu (NPCC), Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau (APCC) a nifer o rai eraill i sicrhau bod y diwygiadau a nodir yn *Neddf Plismona a Throsedd 2017* yn cael eu rhoi ar waith yn llyfn. Dylai'r diwygiadau hyn sicrhau bod system gwynion yr heddlu yn fwy effeithiol ac yn fwy addas at y diben.

Yn ogystal â'r uchod, bu i ni adolygu dros 4,000 o achosion a gyfeiriwyd atom gan heddluoedd a phennu sut dylid ymchwilio i'r rhain. Cwblhaom fwy na 700 o ymchwiliadau yn ystod y flwyddyn, gyda rhagor o welliannau mewn amseroldeb, hefyd. Dim ond 18 o'r 538 o ymchwiliadau a drosglwyddwyd drosodd gan Gomisiwn Annibynnol Cwynion yr Heddlu (IPCC) a oedd yn parhau i fod yn agored ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Fodd bynnag, dim ond un rhan o'r system ehangach yw ein gwaith, a pharhaom i **weithio gydag eraill i wella system gwynion yr heddlu** i sicrhau ei fod mor effeithiol â phosibl i'r rheiny sy'n dod i gysylltiad â hi.

Bu i'n ffocws ar **wella plismona drwy adnabod a rhannu dysg** arwain atom yn gwneud 105 o argymhellion dysgu i heddluoedd a chyrff eraill. Mae hyn wedi arwain at newidiadau i arferion yr heddlu mewn ystod o feysydd, o ymlid yn gysylltiedig â'r heddlu i warantau chwilio. Bydd ein Hadroddiad Effaith yn cael ei gyhoeddi maes o law a bydd hwn yn egluro rhai o'r gwelliannau yr ydym wedi'u gwneud ledled plismona. Mae dysg yn parhau i fod yn faes ffocws pwysig i ni wrth i ni symud ymlaen.

Yn hollbwysig i'n gwaith mae **gwella hyder yn atebolrwydd yr heddlu.** Yn ystod y flwyddyn, bu i'n hymwybyddiaeth gyhoeddus o'r IOPC gynyddu yn sylweddol, a dywedodd ein rhanddeiliaid plismona wrthym ein bod yn gwneud cynnydd da. Bu i'n Panel Ieuenctid, sydd bellach yn ei ail flwyddyn, ein helpu ni i ddeall yn well sut gallwn wella hyder ein pobl ifanc yn system gwynion yr heddlu, a bu iddynt rannu eu hadborth gydag ystod o randdeiliaid. Yn ôl ymchwil, mae cynnydd o 18% wedi bod yn y bobl ifanc sy'n hyderus bod cwynion yn cael eu trin yn deg gan yr heddlu.


Yn bwysicach fyth, roedd cynnydd o 16% yn y nifer o bobl o gefndir du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME) a ddywedodd eu bod yn ymwybodol o'r IOPC. Fodd bynnag, cydnabyddwn fod gennym waith i'w wneud i wella ymwybyddiaeth yn rhagor ond hefyd i barhau i wella hyder.

Rydym yn parhau i ganolbwyntio yn gadarn ar fod yn **sefydliad effeithlon ac effeithiol**, dan lywodraethiant a rheolaeth ariannol gref. Mae denu a datblygu pobl sydd â’r arbenigedd a’r profiad cywir i fodloni ein hanghenion sy’n esblygu yn rhan annatod o gyflawni ein diben a’n nodau strategol.

Yn ystod y flwyddyn, cynyddodd ein sgôr ymgysylltiad staff o 59% i 65%. Dangosodd 21 o’r 30 categori yn yr arolwg staff welliannau sylweddol yn ystadegol gyda nifer o feysydd bellach yn y categori perfformiad uchel. Er nad ydym yn fodlon, mae’n galonogol gweld ymgysylltiad staff mor gryf mewn sefydliad gweddol newydd.

Mae wedi bod yn flwyddyn lwyddiannus i’r IOPC. Hoffwn ddiolch i'n cyfarwyddwyr anweithredol am eu cefnogaeth a’u her adeiladol, a’m tîm rheoli a staff am eu hymroddiad, eu hymrwymiad a'u gwaith caled.

Edrychwn ymlaen at barhau i weithio gyda’n rhanddeiliaid a’r gymuned ehangach i sicrhau bod hyder y cyhoedd mewn plismona yn cryfhau eto.



Michael Lockwood
Cyfarwyddwr Cyffredinol

## Materion a risgiau allweddol

Mae ein gwaith wedi'i drefnu i bedair blaenoriaeth:

- gweithio gydag eraill i wella system gwynion yr heddlu
- gwella plismona drwy adnabod a rhannu dysg
- gwella hyder yn atebolrwydd yr heddlu
- bod yn sefydliad effeithlon ac effeithiol

Rydym yn adnabod y risgiau strategol sylweddol a allai ein hatal ni rhag cyflawni'r amcanion hyn, yn asesu'r rhain a'u rheoli drwy weithgareddau lliniaru a lleihau risg. Rydym yn cyflwyno diweddariadau cyson ar y risgiau strategol i'n Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (ARAC) a'n Bwrdd Unedol.

Rheolir risgiau lefel is o fewn cyfarwyddiaethau, rhaglenni a phrosiectau fel sy'n briodol. Ceir proses uwchgyfeirio ac isgyfeirio i sicrhau bod risgiau yn cael eu rheoli ar y lefel briodol.

Mae ein datganiad llywodraethu (gweler tudalen 61) yn manylu'r risgiau mawrion y gwnaethom eu hwynebu yn 2019/20 ac yn egluro'r mesurau lliniaru yr ydym wedi'u rhoi ar waith. Roedd y risgiau hyn yn cynnwys:

- cyflwyno newid deddfwriaethol
- cydymffurfio â'r Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)
- risg o brosesau sicrhau gwybodaeth aneffeithiol
- y risg na fyddwn yn gallu cyflawni ein strategaeth os caiff ein cyllid ei leihau'n sylweddol yn dilyn Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr
- y buddion cynlluniedig ddim yn cael eu gwireddu ar ôl newid o drefniant TGCh wedi'i allanoli gan un cyflenwr i un sy'n defnyddio sawl cyflenwr a chyflogeion IOPC

## Crynodeb o’n perfformiad yn ystod 2019/20

Cyhoeddasom ein Cynllun Strategol IOPC tair blynedd cyntaf ym mis Tachwedd 2018. Bob blwyddyn rydym yn cynhyrchu Cynllun Busnes sy’n nodi beth yr ydym yn bwriadu ei gyflawni a’r effaith yr ydym yn gobeithio ei chael bob blwyddyn wrth weithredu ein cynllun strategol. Mae’r adroddiad perfformiad hwn yn adlewyrchu ein darpariaeth o’r cynllun busnes blynyddol hwnnw. Yn yr adran hon ceir trosolwg o’n perfformiad yn erbyn ein blaenoriaethau yn ystod y flwyddyn dan adolygiad.

| Ein nodau | 2018/19 gwirioneddol | 2019/20 targed | 2019/20 gwirioneddol |
|---|---|---|---|
| **Gweithio gydag eraill i wella system gwynion yr heddlu** | | | |
| Penderfynu ar ddull ymchwilio i achosion wedi’u hatgyfeirio cyn pen 3 diwrnod gwaith | 83% | 80% | 82% |
| Cwblhau ymchwiliadau cyn pen 12 mis | 79% | 80% | 79% |
| Adolygu adroddiadau ymchwiliadau i farwolaethau neu anafiadau difrifol cyn pen 30 diwrnod gwaith ohonynt yn dod i law | AMH | 75% | 45% |
| Penderfynu ar apeliadau yn erbyn ymchwiliad yr heddlu neu ddatrysiad lleol i gŵyn cyn pen 35 diwrnod gwaith | 63% | 65% | 63% |
| Penderfynu ar apeliadau peidio â chofnodi a mathau eraill o apeliadau cyn pen 25 diwrnod gwaith | 77% | 80% | 58% |
| **Gwella plismona drwy adnabod a rhannu dysg o’n gwaith*** | | | |
| Rhanddeiliaid sy’n cytuno bod ein *cylchgrawn Dysgu’r Gwersi* yn adnodd defnyddiol i hybu newid ym mholisi’r heddlu | 80% | 95% | 91% |
| **Gwella hyder yn atebolrwydd yr heddlu** | | | |
| Pobl ifanc sy’n hyderus bod yr heddlu yn ymdrin â chwynion | 41% | AMH | 52% |
| Aelodau o’r cyhoedd o gefndir du, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig sy’n ymwybodol o’r IOPC | 32% | AMH | 48% |
| **Bod yn sefydliad effeithiol ac effeithlon** | | | |
| Sgôr ymgysylltiad staff cyffredinol o’n harolwg blynyddol | 59% | 63% | 65% |
| Ymchwilwyr sy’n cyflawni achrediad cyn pen 24 mis | 48% | 70% | 82% |
| Trosiant staff | 9.35% | 8-10% | 5.77% |
| Cyfradd absenoldeb salwch staff | 3.02% | <3.0% | 2.8% |

*Ymrwymasom hefyd i gyhoeddi adroddiad effaith blynyddol yn darparu tystiolaeth o’r gwahaniaeth yr ydym wedi’i wneud yn gwella plismona a system gwynion yr heddlu. Cyhoeddasom ein Hadroddiad Effaith cyntaf fis Awst 2019 ac rydym yn gweithio i gyhoeddi ein hadroddiad 2019/20 fis Awst 2020.

## Dadansoddiad o berfformiad

Cyhoeddasom ein Cynllun Strategol 2018-22 fis Tachwedd 2018, ac rydym yn cyhoeddi cynllun busnes bob blwyddyn. Mae'r adran ganlynol yn disgrifio ein cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau a nodwyd yn ein Cynllun Busnes 2019/20.

### Blaenoriaeth: gweithio gydag eraill i wella system gwynion yr heddlu

**YR HYN FYDDWN NI'N EI WNEUD**
Byddwn yn gweithio i wella pob rhan o'r system gwynion – ein gwaith ni ein hunain a'r hyn sy'n cael ei wneud gan eraill.

**YR HYN YR YDYM YN GOBEITHIO EI GYFLAWNI**
Bod system gwynion yr heddlu yn darparu deilliannau diduedd, teg ac ar sail tystiolaeth yn brydlon.

**SUT Y BYDDWN YN MESUR EIN CYNNYDD**
Byddwn yn anelu at:

- gwblhau 80% o ymchwiliadau cyn pen 12 mis
- penderfynu ar 80% o'r achosion a atgyfeirir atom ni cyn pen tri diwrnod gwaith
- adolygu 75% o'r marwolaethau neu anafiadau difrifol a gafodd eu hymchwilio'n lleol cyn pen 30 diwrnod gwaith
- penderfynu ar 65% o apeliadau yn erbyn ymchwiliad heddlu neu ddatrysiad lleol i gŵyn cyn pen 35 diwrnod
- penderfynu ar 80% o apeliadau yn erbyn penderfyniad heddlu i beidio â chofnodi cwyn cyn pen 25 diwrnod gwaith

Byddwn yn monitro ac yn ymateb i:

- y gyfran o apeliadau yr ydym yn eu cadarnhau pan fydd aelodau o'r cyhoedd yn anfodlon â sut mae heddluoedd wedi ymdrin â'u cwyn
- y gyfran o randdeiliaid plismona sy'n credu bod yr IOPC yn cael effaith ar wella'r ffordd mae'r heddlu yn ymdrin â chwynion

Er mwyn cael hyder yng ngwasanaeth yr heddlu, rhaid i'r cyhoedd ymddiried yn system gwynion yr heddlu. Pan fydd cwynion yn cael eu cyflwyno, dylai pobl fod yn sicr y byddant yn cael eu trin yn gadarn a theg. Rhaid i'r cyhoedd ddeall hefyd y bydd digwyddiadau difrifol a chwynion am ymddygiad swyddogion heddlu yn cael eu hymchwilio yn ddiduedd, y bydd swyddogion yn atebol am ymddygiad gwael, ac y bydd gwasanaeth yr heddlu yn dysgu a gwella.

Gan fod y system gwynion yn cydbwyso atebolrwydd unigolion am ymddygiad drwy adnabod a mynd i'r afael â materion systemig, mae ein gwaith yn canolbwyntio ar y materion sy'n peri pryder i'r cyhoedd a'r heddlu. Rydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid i gytuno ar feysydd canolbwyntio thematig lle gall ein hymchwiliadau ychwanegu'r gwerth mwyaf.

Wrth i ni oruchwylio a gosod safonau ar gyfer system gwynion yr heddlu, mae'n bwysig adolygu a gwella nid yn unig ein gwaith ein hunain yn barhaus, ond hefyd sut mae gwasanaeth yr heddlu yn ymdrin â'r cwynion sy'n dod i law gan y cyhoedd. Rhaid i'r rhai sydd am ddefnyddio'r system gwynion allu gwneud hynny heb ofni canlyniadau niweidiol.

Rhaid i'r system ddarparu deilliannau diduedd, teg ac ar sail tystiolaeth i'r achwynwyr a'r rhai sy'n destun y cwynion. Mae hyn yr un mor bwysig ar draws pob rhan o'r system gwynion, boed yn ymchwiliad annibynnol i farwolaeth yn y ddalfa neu gŵyn am y gwasanaeth heddlu sy'n cael ei thrin gan yr heddlu lleol. Rydym yn gwybod bod pawb sy'n ymwneud â chwynion ac ymchwiliadau yn dymuno cael penderfyniadau diduedd, teg ac ar sail tystiolaeth. Maent hefyd, yn hollol gywir, yn disgwyl i faterion gael eu trin yn brydlon.


Tra ein bod yn gweithio hyd eithaf ein gallu i ddylanwadu ar hyn, mae prydlondeb achosion troseddol a chamymddygiad, cwestau a'r amser a gymerir i drefnu gwrandawiadau y tu hwnt i'n rheolaeth. Mae hyn yn effeithio ar brydlondeb achosion o'r dechrau i'r diwedd, gan fod prosesau sy'n dilyn ein hymchwiliadau yn gallu ychwanegu amser sylweddol i'w casgliad. Mae angen i ni gyflymu'r momentwm ar gyfer newid, nid yn unig yn yr IOPC ond ar draws y system gyfan.

# Ein gwaith yn 2019/20


## Gwaith gweithredol

Gwnaethom barhau i weithio i ymchwilio'n annibynnol i'r digwyddiadau mwyaf difrifol mae'r heddlu yn ymwneud â nhw, gan gynnwys y rhai pan all Erthygl 2 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fod yn weithredol.

Bu i ni adolygu dros 4,000 o achosion a gyfeiriwyd atom gan heddluoedd a phennu sut dylid ymchwilio i'r rhain.




Yn ystod y flwyddyn, cwblhaom fwy na 700 o ymchwiliadau annibynnol.





Canolbwyntiasom ar gau achosion hŷn, hirsefydlog a chlirio hen achosion sy'n parhau'n agored. Dechreuasom y flwyddyn gyda llwyth achosion agored o 548 o ymchwiliadau ac roedd cyfnod cyfatebol yr achosion hyn yn fwy na deg mis. Roedd 96 wedi'u dechrau cyn i ni ddod yn IOPC fis Ionawr 2018.

Erbyn diwedd y flwyddyn, gwnaethom leihau'r llwyth achosion agored i 327 o ymchwiliadau a'r oedran cyfatebol i lai na naw mis. Dim ond 18 o'r ymchwiliadau a drosglwyddwyd drosodd gan Gomisiwn Annibynnol Cwynion yr Heddlu (IPCC) a oedd yn parhau i fod yn agored ar ddiwedd 2019/20.

**Cyfnod y llwyth achosion agored**

Newidiodd broffil cyfnod ein llwyth achosion agored hefyd, ac mae gennym lwyth achosion fwy diweddar yn 2020/21. Erbyn diwedd 2019/20, roedd dau draean o'r llwyth achos agored yn ddiweddarach na chwe mis oed; cynnydd o'r 50% y llynedd. I'r gwrthwyneb, mae'r gyfran o achosion sy'n agored am hirach na 12 mis wedi lleihau o 24% ar ddiwedd 2018/19 i 17%.




Yn 2019/20, dechreuasom 508 o ymchwiliadau mewn perthynas â 687 yn 2018/19. Rhagwelwyd y lleihad wrth i ni symud i ffwrdd oddi wrth gyfradd dechrau ymchwilio yn seiliedig ar dargedau i weithredu mewn camau dewis achosion yn ôl thema.

Rydym yn parhau i ymchwilio i achosion difrifol a sensitif nad ydynt yn berthnasol i'r meysydd thematig hyn, fodd bynnag drwy'r achosion thematig yr ydym yn ymgymryd â nhw, gallwn ganolbwyntio ar feysydd sy'n peri pryder i'r heddlu a'r cyhoedd.

Wrth ddewis yr achosion hyn, rydym yn ystyried a oes cyfleoedd ar gyfer dysgu, unrhyw bryderon sy'n benodol i heddluoedd, neu a oes potensial i adnabod arfer dda. Bellach mae gennym bedwar maes thematig y gallwn ganolbwyntio ein hymchwiliadau a'n dysg arnynt; iechyd meddwl, digwyddiadau traffig y ffyrdd, cam-drin domestig, a chamddefnyddio swydd at ddibenion rhywiol. Bydd dau faes

thematig arall, gwahaniaethu a digwyddiadau a fu bron a digwydd yn y ddalfa, yn cael eu lansio flwyddyn nesaf.

Yn 2019/20, roedd un ym mhob pedwar o'r ymchwiliadau y dechreuasom yn berthnasol i un o'r meysydd thematig hyn. Wrth i ni gynnal rhagor o ymchwiliadau annibynnol mewn perthynas â meysydd thematig, byddwn yn gallu edrych ar batrymau ehangach ac adnabod unrhyw ddysg ychwanegol.

Darparwyd ymchwiliadau â chefnogaeth arbenigol, gan gynnwys deallusrwydd ac arbenigedd gan swyddogion cyswllt goroeswyr, yn ogystal â chefnogaeth gan ein rhwydweithiau pwnc.

Gwnaethom barhau i gyflawni ymchwiliadau o bwysigrwydd cenedlaethol, gan gynnwys ein hymchwiliad i weithrediadau'r heddlu yn dilyn trychineb Hillsborough ac Ymgyrch Linden, edrych ar weithrediadau'r heddlu yn dilyn honiadau o gam-drin plant yn rhywiol yn Rotherham.

### Ymchwiliad Hillsborough

Dechreuodd ein hymchwiliad Hillsborough fis Hydref 2012 ac mae dwy elfen iddo. Y cyntaf yw goruchwylio ymchwiliad heddlu dan arweiniad y Swyddfa Gartref i achosion y drychineb ac ymateb yr heddlu yn syth ar ôl y digwyddiad, a arweiniodd at farwolaethau 96 o bobl. Yr ail agwedd yw ymchwiliad annibynnol gan yr IOPC i weithrediadau'r heddlu ar ôl y drychineb ac a wnaethpwyd unrhyw ymgais i wyro bai oddi wrth Heddlu De Swydd Efrog ai peidio.

Ddydd Mercher 3 Ebrill 2019, yn dilyn treial troseddol yn Llys y Goron Preston, ni lwyddodd rheithgor i gyrraedd rheithfarn unfrydol neu reithfarn fwyafrifol i gyhuddo dynladdiad drwy esgeulustod dybryd yn erbyn comander y gêm ar y diwrnod, cyn Brif Uwch-Arolygydd David Duckenfield.

Galwyd a rhoddwyd ail dreial i David Duckenfield gan Wasanaeth Erlyn y Goron (CPS), a ddechreuodd ar 7 Hydref 2019 ac a ddaeth i ben ar 28 Tachwedd 2019. Canfuwyd y rheithgor y Prif Uwch-Arolygydd Duckenfield yn ddi-euog o'r troseddau a gyhuddwyd.

Roedd disgwyl i dreial mewn perthynas â'n hymchwiliad i weithrediadau Heddlu De Swydd Efrog yn dilyn y drychineb ddechrau ar 20 Ebrill 2020. Mae Cyn-gyfreithiwr Heddlu De Swydd Efrog Peter Metcalf, Cyn-brif Uwcharolygwr Donald Denton, a Chyn-dditectif Prif Arolygydd Alan Foster i gyd wedi'u cyhuddo o wyrdroi cwrs cyfiawnder. Mae'r treial bellach wedi'i ohirio tan 13 Ionawr 2021.

Pan fydd yr holl dreialon troseddol wedi dod i ben, byddwn yn cyhoeddi adroddiad yn ymdrin â'r holl ymchwiliadau troseddol a chamymddygiad sy'n gysylltiedig â Hillsborough. Bydd yn cynnwys yr holl elfennau troseddol ac oddeutu 150 o ymchwiliadau unigol, gan helpu i ateb y nifer o gwestiynau sydd heb eu hateb ynglŷn â gweithredoedd yr heddlu cyn y drychineb, yn ystod y drychineb ac ar ei hôl.

Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi unwaith y bydd yr holl weithrediadau cyfiawnder troseddol wedi dod i ben a'n holl weithdrefnau cwyno wedi'u cwblhau.


**Ymgyrch Linden - Cam-drin plant yn rhywiol yn Rotherham**

Mae Ymgyrch Linden yn ymchwilio i ymateb Heddlu De Swydd Efrog i adroddiadau hanesyddol o gam-drin plant yn rhywiol yn Rotherham. Erbyn diwedd mis Mawrth 2020, roedd 90% o'r ymchwiliadau sy'n rhan o Ymgyrch Linden wedi'u cwblhau.

Mae'r dystiolaeth sy'n cael ei chasglu a'i hadolygu yn dyddio'n ôl cyn belled â'r 1990au cynnar. Hyd yn hyn, rydym wedi adolygu 21,661 eitem o ddeunydd, wedi cofnodi 1,401 o arddangosion a phrosesu 938 o ddatganiadau.

Rydym wedi cynnal dull gweithredu 'goroeswr yn gyntaf' ar draws ein gwaith ac rydym yn parhau i ddiweddaru'r bobl sy'n cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan ein hymchwiliadau. Blwyddyn nesaf byddwn yn cynhyrchu a chyhoeddi adroddiad cyhoeddus cyffredinol a fydd yn dwyn ynghyd canfyddiadau, canlyniadau a dysg ein hymchwiliad. Bydd yr adroddiad ar gael ar ein gwefan.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom ystyried cwta 3,000 apêl gan aelodau'r cyhoedd a oedd yn anfodlon gyda'r ffordd y mae'r heddlu wedi trin eu cwyn.



## Gwelliant gweithredol

Yn ystod y flwyddyn, canolbwyntiasom ar ailddatblygu ein prosesau cyflawni ymchwiliadau ac apeliadau, canolbwyntio ar leihau oedi a sicrhau ansawdd a chysondeb wrth wneud penderfyniadau.

**Gwella prydlondeb**

Gwnaethom fethu ein targed ymchwiliadau o 80% (79% yn wirioneddol) dros 12 mis. Mae camau gweithredu yr ydym wedi'u cymryd i wella prydlondeb ymchwiliadau yn cynnwys:

- cyflwyno proses ymchwilio newydd ar gyfer achosion â risg isel. Mae hyn wedi ein helpu ni i leihau'r amser cyfartalog a gymera i gwblhau ein hymchwiliadau
- gweithio'n fwy cydweithredol gydag Adrannau Safonau Proffesiynol i leihau oedi a chynyddu effeithiolrwydd. Drwy'r gwaith hwn, rydym wedi adnabod sawl cyfle i safoni a gwella ein prosesau a'n sianelau cyfathrebu
- ymgysylltu'n helaeth â Ffederasiwn yr Heddlu a chymdeithasau eraill staff, i ddatblygu perthynas barchus a chydweithrediad gwell. Rydym bellach yn ymgysylltu'n rheolaidd ag arweinwyr y Ffederasiwn ac arweinwyr ymddygiad lleol. Rydym wedi cynnal sesiynau trafodaeth rheolaidd ac ymrwymo i gamau gweithredu penodol i ymateb i'r pryderon a godwyd. O ganlyniad, rydym yn gweld manteision perthnasau gwell, gan gynnwys rhagor o enghreifftiau o gydweithio gyda'n hymchwiliadau a hwyluso datganiadau a chyfweliadau cynharach

Rydym eisoes wedi gweithio gydag eraill i adnabod gwelliannau ar draws y system. Hyd yn hyn, rydym wedi:

- cynnig i'r Bwrdd Gweinidogol ar Farwolaethau yn y Ddalfa ffyrdd o wella prydlondeb ar draws y prosesau dechrau i'r diwedd pan fo rhywun yn marw yn ystod neu yn dilyn cyswllt â'r heddlu. Roedd ein cynigion yn fan cychwyn, gyda'r Swyddfa Gartref yn trefnu gweithdai yn cynnwys mynychwyr o NPCC, Gwasanaeth Erlyn y Goron, Prif Grwner ac eraill, i ddatblygu ein syniadau
- a godwyd gydag arweinwyr NPCC ar gyfer Safonau Proffesiynol, yr angen am welliannau yn trefnu prosesau camymddygiad
- datblygu ffyrdd mwy effeithiol o weithio gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron, canolbwyntio ar gyngor cynnar a throsglwyddo achosion yn effeithiol i gefnogi gyda gwneud penderfyniadau mwy amserol
- datblygu memorandwm cyd-ddealltwriaeth gyda'r Prif Grwner i sicrhau dealltwriaeth well o'n cyfrifoldebau priodol a chynigion am ffordd fwy effeithiol o weithio

- gwneud newidiadau i’n dull cyfathrebu i adlewyrchu yn well y prosesau gwahanol sy’n effeithio ar brydlondeb cyffredinol fel bod rhanddeiliaid yn cael dealltwriaeth well o achosion yr oedi

Mae gwelliannau yn digwydd yn sgil y gwaith hwn ond mae angen i ni gyflymu’r momentwm, nid yn unig o fewn yr IOPC, ond ar draws y system gyfan.

Rydym wedi dechrau rhaglen uchelgeisiol i ailddylunio’r prosesau gweithredol yr etifeddasom, i wella prydlondeb ac ansawdd yr hyn yr ydym yn ei ddarparu. Bydd hyn yn arwain at ffordd newydd o weithio, sy’n fwy dynamig yn y dull ymchwilio - bod yn fwy cyfatebol i amgylchiadau a gwneud defnydd gwell o gyfleoedd tystiolaethol, megis gwella argaeledd fideo a wisgir ar y corff.

Bydd y dyluniad newydd yn cael ei arwain gan staff ac yn seiliedig ar arfer orau gan sefydliadau cyffelyb. Yn ogystal, bydd ein rhanddeiliaid yn cyfrannu ato, gan gynnwys y rheiny sydd wedi’u heffeithio’n uniongyrchol gan ein gwaith, fel eu bod yn hyderus yn y newidiadau hynny.

I wella ansawdd a chysondeb ein gwaith, creasom Rwydweithiau Pwnc (SMNs) yn y prif feysydd thematig[1]. Mae’r rhain yn rhwydweithiau o arbenigwyr o bob rhan o’n sefydliad sydd ag arbenigedd technegol. Mae aelodau wedi sicrhau amser i roi cyngor ac arweiniad i ymchwilwyr a dylanwadu’n gadarnhaol ar ein gwaith gweithredol.

Mae ein Rhwydweithiau Pwnc yn gweithio gydag arbenigwyr allanol i sicrhau bod ein gwaith yn seiliedig ar y meddwl, yr arfer a'r arweiniad diweddaraf yn y meysydd hyn. Mae’r rhwydweithiau hyn wedi hen sefydlu bellach ac wedi helpu i adeiladu arbenigedd yn fewnol a chredadwyedd yn allanol.

Gwaith yn mynd rhagddo i ddiffinio safonau ansawdd ar gyfer ein holl waith, ar sail adborth yr ydym wedi ei gasglu o brofiadau ein defnyddwyr gwasanaeth. Mae safonau ymchwiliadau gofynnol a fframwaith sicrhau ansawdd ar gyfer ymchwiliadau wedi’u cynllunio i’w cyflwyno haf 2020.

Roedd gwaith arall i wella ansawdd ein gwaith yn cynnwys sefydlu Panel Achos Tyngedfennol amlddisgyblaethol, a gadeirir gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol, sy’n goruchwylio achosion arbennig o gymhleth neu achosion sydd â risg uchel. Mae’r panel hwn yn sicrhau cefnogaeth a sicrwydd traws-sefydliadol bod gwaith yn cael

[1] Crëwyd SMNs yn y meysydd canlynol: gwahaniaethu, iechyd meddwl, cam-drin domestig, cam-drin swydd at ddibenion rhywiol, marwolaethau yn y ddalfa, defnyddio grym a phlismona’r ffyrdd. Yn ogystal, rydym wedi ychwanegu grwpiau ymarferwyr mewn perthynas â datgelu, ymchwiliadau digidol a chyfweld.

adnoddau addas a bod risgiau yn cael eu hadnabod a'u lliniaru. Caiff y model ei ailadrodd yn ein holl swyddfeydd rhanbarthol.

Rydym yn datblygu cynigion am Bwyllgor Ansawdd newydd yn 2020/21, a'n bwriad yw penodi Cadeirydd annibynnol i hwnnw. Rydym wedi ailddiffinio ein safonau ansawdd ar gyfer ymchwiliadau. Bydd y rhain yn cael eu lansio yn 2020/21 ac maent wedi'u seilio ar ofynion y cynllun a chyfarwyddyd statudol, safonau ein defnyddwyr gwasanaeth a dysg gan adolygiadau ansawdd blaenorol. Byddant yn gosod safonau ansawdd gofynnol ar gyfer ein holl ymchwiliadau i helpu i nodi pan fydd ymchwiliad mewn perygl o fethu â bodloni'r safonau hynny fel y gellir cymryd camau cyflym.

Drwy gydol y flwyddyn bu i ni hefyd barhau i wella ein Llawlyfr Gweithrediadau fel ei fod yn adlewyrchu ein safonau ansawdd a darparu cyfarwyddyd i staff gweithredol ynglŷn ag arfer orau.

## Goruchwylio system gwynion yr heddlu

Yn sgil ein gwaith goruchwylio, gwnaethom barhau i weithio'n agos â heddluoedd i hybu safonau ymdrin â chwynion yn unol â *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*, gweithio'n agos ag Adrannau Safonau Proffesiynol heddluoedd a monitro eu perfformiad mewn perthynas ag ymdrin â chwynion ac atgyfeiriadau.

Rydym wedi gweithio gyda sefydliadau, megis y Coleg Plismona (CoP) ac Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi, Gwasanaethau Tân ac Achub (HMICFRS) i rannu dysg a chydweithio ar feysydd a themâu allweddol sy'n codi o'n gwaith. Rydym yn cyfarfod bob chwarter i drafod prosiectau sylweddol a chynllunio busnes ar gyfer meysydd o fudd i'r ddwy ochr.

Yn ystod y flwyddyn, gweithiasom yn helaeth gyda swyddog yr heddlu a chymdeithasau staff, arweinwyr y Ffederasiwn ac arweinwyr ymddygiad lleol. Mae hyn wedi arwain at ragor o gydweithio, a hwyluso datganiadau a chyfweliadau cynharach. Yn ogystal, rydym wedi gweithio ar y cyd gydag Adrannau Safonau Proffesiynol yr heddlu i leihau oedi a gwella effeithiolrwydd.

Yn 2020/21 bydd gwaith yn parhau i ddatblygu ein rolau goruchwylio fel y gallwn hyrwyddo cysondeb, arferion effeithiol a rhannu dysg ar draws system gwynion yr heddlu.

Gwnaethom barhau i ymgysylltu â'n rhwydwaith o sefydliadau eiriolaeth anstatudol sy'n cynrychioli a chefnogi pobl sydd â'r hyder lleiaf yn system gwynion yr heddlu. Bu i ni wella'r ffordd yr ydym yn casglu ac ymateb i adborth gan ddefnyddwyr ein gwasanaeth, gan ddefnyddio hyn i helpu siapio a dylanwadu ar y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu.

Ffocws sylweddol ar ein gwaith eleni oedd cefnogi gyda gwaith gweithredu diwygiadau mawr y Llywodraeth yn system gwynion yr heddlu yng Nghymru a Lloegr. Gweithiasom yn agos â’r Swyddfa Gartref, yr NPCC, yr APCC, cymdeithasau staff ac eraill i ddarparu system fwy effeithiol i ymdrin â chamymddygiad gan yr heddlu a gwneud y broses ymchwilio yn fwy syml a chyflymach.

Daeth y diwygiadau hyn i rym ar 1 Chwefror 2020 a’n nod yw gwneud y system ddisgyblu yn fwy cymesurol, gan roi rhagor o bwyslais ar ddysgu drwy gamgymeriadau. Maent hefyd yn cynnwys gofyniad i ddarparu eglurhad lle mae ymchwiliadau yn cymryd yn hirach na 12 mis.

Mae’r diwygiadau deddfwriaethol yn cynnwys:

- trin cwynion yn rhesymol a chymesur gyda mwy o hyblygrwydd yn y ffordd yr ymdrinnir â nhw, a ffocws cryfach ar wasanaeth i achwynwyr. Mae gan y sawl sy’n ymdrin â chwynion fwy o opsiynau i ddatrys cwyn a rhaid iddynt ystyried beth sy’n rhesymol a chymesur ym mhob achos unigol
- pwerau newydd i’r IOPC ymchwilio heb atgyfeirio, pob honiad o gamymddygiad yn erbyn prif swyddogion, a chyflwyno ein hachosion ein hunain yng ngwrandawiadau camymddygiad yr heddlu
- canolbwyntio’r system ddisgyblu ffurfiol ar achosion o dorri safonau proffesiynol a fyddai’n arwain at gamau gweithredu disgyblu ffurfiol, galluogi rheolwyr llinell yr heddlu i ganolbwyntio ar wella dysg ac ymddygiad unigolion i ymateb i faterion ymddygiad lefel is - yn seiliedig ar broses fyfyriol adolygu arferion

Cynyrchiasom gyfarwyddyd ymarferol, megis ein cyhoeddiad *Focus*, a rhannu arfer dda drwy ein bwletin goruchwylio cyson i gefnogi heddluoedd wrth iddynt weithredu ein Cyfarwyddyd Statudol a gwella safonau. Yn ogystal, cymerasom gamau i hyrwyddo mynediad a symleiddio system gwynion a disgyblu’r heddlu a rhoi cyfarwyddyd i ymarferwyr.

Roedd y gwaith hwn yn cynnwys:

- cynnal cyfres o ddigwyddiadau lansio llwyddiannus ar gyfer y Comisiynydd Heddlu a Throseddu a staff yr heddlu i’w diweddaru â’r newidiadau deddfwriaethol
- gydag aelodau o’n Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Allanol blaenllaw, gweithdai blaenllaw ynglŷn â chategorïau cwynion a gofynion data i staff o Adrannau Safonau Proffesiynol yr heddlu, Cyrff Plismona Lleol, yr APCC, y Coleg Plismona a HMICFRS
- cefnogi cwynion a gweithgorau camymddygiad dan arweiniad yr NPCC cyn cyflwyno newidiadau i ystyried newidiadau ymarferol a diwylliannol sydd eu hangen i redeg y system newydd yn llwyddiannus

- cysylltu ag Adrannau Safonau Proffesiynol a Chyrff Plismona Lleol i ddeall meysydd allweddol lle'r oedd angen cefnogaeth
- helpu Cyrff Plismona Lleol i baratoi am fwy o gyfrifoldebau o ran trin ac adolygu cwynion, a fydd yn gweld Cyrff Plismona Lleol yn cynnal goruchwyliaeth o waith ymdrin â chwynion eu heddlu, tra ein bod yn cynnal rôl oruchwylio genedlaethol
- cyhoeddi Arweiniad Statudol wedi'i ddiweddaru ynglŷn â system gwynion yr heddlu ar ein gwefan
- cyhoeddi cyfres o'n cylchgrawn, *Focus*, sy'n ymdrin â gwahanol agweddau ar y diwygiadau i Adrannau Safonau Proffesiynol, rhoi arweiniad ymarferol ac enghreifftiau o sut i ymdrin â chwynion, materion ymddygiad ac achosion o farwolaeth neu anafiadau difrifol
- cynhyrchu gwybodaeth i'r cyhoedd mewn perthynas â newidiadau i systemau cwynion a disgyblu'r heddlu, gan gynnwys fideos, posteri a phamffledi

Rydym wrthi ar hyn o bryd yn ystyried cyfleoedd i weithio'n effeithiol gyda rhanddeiliaid yn ystod 2020/21 i ddysgu am arferion effeithiol a'u rhannu, ac adnabod meysydd lle mae angen rhagor o gefnogaeth ar y rheiny sy'n ymdrin â chwynion ac adolygiadau allanol.

Ym mis Hydref 2019 gwnaethom gyhoeddi ein hadroddiad ystadegau cwynion yr heddlu ar gyfer Cymru a Lloegr. Rydym yn cynnwys nifer o ddangosyddion drwy gydol yr adroddiad. Mae'r rhain yn ddefnyddiol i feirniadu'n wrthrychol pa mor dda mae cwynion yn cael eu trin a gall heddluoedd eu defnyddio i ystyried sut i wella'r ffordd maent yn ymdrin â chwynion. Gyda'i gilydd, mae'r data yn rhoi darlun o sut mae system gwynion yr heddlu yn perfformio. Yn ogystal, rydym wedi cyhoeddi data perfformiad fesul chwarter ar gyfer pob heddlu yng Nghymru a Lloegr.

## Rheoli gwybodaeth

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom ddatblygu a lansio strategaeth rheoli gwybodaeth newydd, sy'n disgrifio sut ydym yn gobeithio gwella'r system gwynion drwy wneud defnydd gwell o'n data, gwybodaeth a dealltwriaeth.

Rydym yn gweithio i wella ein systemau a'n prosesau datgelu gwybodaeth i gefnogi gweithdrefnau disgyblu, y crwner a throseddol. Ein nod yw cyflwyno proses effeithiol, safonol ar draws yr IOPC ynglŷn ag ymdrin â datgelu.

Yn ogystal, mae gwaith wedi dechrau i ddatblygu system rheoli achosion newydd ac i archwilio ein gallu casglu data, storio ac adrodd fel y gallwn wneud defnydd gwell o'r wybodaeth sydd gennym i gyflwyno gwelliannau yn ein gwaith ein hunain yn ogystal â gwelliannau i blismona o ganlyniad i ddysg gan ein gwaith.

## Asesu ein perfformiad yn erbyn y flaenoriaeth hon

**Yn ystod 2019/20 ein nod oedd:**

**> cwblhau 80% o ymchwiliadau cyn pen 12 mis**

Erbyn diwedd 2019/20, cwblhaom 79% o'n hymchwiliadau cyn pen 12 mis yn erbyn ein targed o 80% a chyfartalu'r 79% y cyflawnasom yn 2018/19. Ac eithrio ein hachosion mwyaf cymhleth sy'n cael eu rheoli gan ein Cyfarwyddiaeth Ymchwiliadau Mawrion, bu i ni gwblhau 83% o ymchwiliadau annibynnol cyn pen 12 mis.

Cwblhaom 718 o ymchwiliadau yn 2019/20, a chymerodd 153 ohonynt yn hirach na 12 mis. Roedd yr ymchwiliadau hyn yn cynnwys 38 o'n hachosion mwyaf cymhleth, sy'n cael eu rheoli gan ein DMI, ac roedd 35 o'r ymchwiliadau wedi dechrau cyn i ni ddod yn IOPC.

Yn gyffredinol, yr amser cyfartalog a gymerwyd i gwblhau'r 153 o ymchwiliadau oedd ychydig dros ddwy flynedd (27 mis). Fodd bynnag, mae'r cyfartaledd hwn wedi'i effeithio gan ein hymchwiliadau mawrion gan fod y mwyafrif o'r achosion hynny wedi cymryd dros ddwy flynedd i'w cwblhau. Ac eithrio ein hymchwiliadau mawrion, yr amser cyfartalog oedd llai na dwy flynedd ar 20 mis gyda hyd yr ymchwiliadau yn amrywio o 13 mis i bron i bum mlynedd.

**> penderfynu ar 80% o'r achosion a atgyfeirir atom o fewn 3 diwrnod gwaith**

Cawsom 4,379 o atgyfeiriadau gan awdurdodau priodol yn 2019/20 - cynnydd o 7% ar 2018/19. Er gwaethaf y cynnydd hwn, bu i ni gyflawni ein targed tri diwrnod gwaith ar gyfer 82% o atgyfeiriadau, gostyngiad o berfformiad y llynedd o 83%.

**> adolygu 75% o'r marwolaethau neu anafiadau difrifol a gafodd eu hymchwilio'n lleol cyn pen 30 diwrnod gwaith**

Yn 2019/20, adolygasom 1,133 o adroddiadau ymchwiliadau'r heddlu yn dilyn eu hymchwiliad i farwolaeth neu anaf difrifol.

Mae meddu ar yr holl ddogfennaeth ymchwilio ategol yn hanfodol i ni allu archwilio ymchwiliad i farwolaeth neu anaf difrifol yn effeithiol a sicrhau bod adroddiad yr ymchwiliad yn cael ei gefnogi gan y dystiolaeth sydd ar gael, ac yn adlewyrchiad ohoni. Mae hyn, yn ei dro, yn golygu ein bod yn gwneud penderfyniadau pan ydym yn gwbl ymwybodol o'r holl ddeunydd ategol.

Gall oediadau yn derbyn y wybodaeth hon effeithio ar yr amser yr ydym yn ei gymryd i gwblhau'r adolygiad. Rydym yn gweithio'n agos ag Adrannau Safonau Proffesiynol i dderbyn papurau cefndirol yn brydlon a llawn ar gyfer achosion ac mae gennym

broses ddyrchafu pan mae oedi. Pan fyddwn yn profi sawl oedi gyda heddluoedd penodol, darperir y wybodaeth hon i'n tîm goruchwylio, sy'n gyfrifol am ddatblygu materion thematig gyda heddluoedd unigol.

Dechreuasom y flwyddyn gyda sawl achos hŷn, a oedd yn effeithio ar ein perfformiad yn ystod hanner cyntaf 2019/20 - dim ond 22% o'r adolygiadau a gwblhawyd rhwng mis Ebrill a Medi a gafodd eu cwblhau cyn pen 30 diwrnod gwaith. Sefydlasom gynlluniau gwella perfformiad, gan gynnwys gofynion rhagweld a gwerthuso adnoddau, a bu i berfformiad wella drwy gydol gweddill y flwyddyn.

Erbyn diwedd 2019/20, roedd 45% o'r ymchwiliadau wedi'u cwblhau o fewn 30 diwrnod gwaith.

Gan y gallwn ddechrau adolygiad dim ond pan mae'r holl ddeunydd ategol wedi dod i law gan yr heddlu perthnasol, bydd y ffordd yr ydym yn mesur ein perfformiad yn 2020/21 yn newid.

**> penderfynu ar 65% o apeliadau yn erbyn ymchwiliad heddlu neu ddatrysiad lleol i gŵyn cyn pen 35 diwrnod**

Mae'r nifer o apeliadau yn erbyn ymchwiliad heddlu neu ddatrysiad lleol i gŵyn wedi parhau i leihau. Derbyniasom 1,377 o apeliadau - gostyngiad o 4% ar 2018/19.

Cwblhasom 1,421[2] o apeliadau yn erbyn ymchwiliad yr heddlu neu ddatrysiad lleol i gŵyn. Cyflawnasom gwblhad o 63% cyn pen 35 diwrnod gwaith mewn cymhariaeth â tharged o 65%. Penderfynwyd ar 81% o'r 1,421 apêl a gwblhaom cyn pen 50 diwrnod gwaith (deg wythnos) a 93% o fewn 70 diwrnod gwaith (14 wythnos).

Yr amser cyfartalog a gymerwyd i gwblhau apeliadau ymchwiliadau a datrysiadau lleol oedd 38 diwrnod gwaith - un diwrnod gwaith yn hirach na'n hamser cyfartalog yn 2018/19.

Erbyn diwedd 2019/20, roedd ein llwyth achos apeliadau agored wedi lleihau o 196 ar ddechrau'r flwyddyn i 152.

**> penderfynu ar 80% o apeliadau yn erbyn penderfyniad heddlu i beidio â chofnodi cwyn cyn pen 25 diwrnod gwaith**

Yn 2019/20, cawsom 1,584 o apeliadau yn erbyn penderfyniad heddlu i beidio â chofnodi cwyn mewn cymhariaeth â 1,571 o apeliadau a ddaethpwyd i law yn 2018/19. Yn ystod chwe mis cyntaf y flwyddyn, bu i'r nifer o apeliadau a gawsom gynyddu o 23% yn ystod yr un cyfnod y llynedd, a effeithiodd ar ein perfformiad

[2] Nid pob apêl sy'n cael eu cwblhau yn yr un flwyddyn y daethant i law. Mae apeliadau a gafodd eu cwblhau yn 2019/20 yn cynnwys apeliadau a gafwyd cyn 1 Ebrill 2019.

cyffredinol. Sefydlasom gynlluniau gwella perfformiad ac erbyn diwedd 2019/20, roeddem wedi prosesu 58% o'r 1,699 apêl a gwblhawyd cyn pen 25 diwrnod.

Cwblhaom fwy o apeliadau nag y cawsom yn 2019/20, gan leihau ein llwyth achosion apeliadau agored o bron i hanner i 116 apêl.

**Dywedasom y byddem yn monitro ac ymateb i:**

**> y gyfran o apeliadau a gadarnhawyd yr ydym yn eu cadarnhau pan fydd aelodau o'r cyhoedd yn anfodlon â sut mae heddluoedd wedi ymdrin â'u cwyn**

Gall gostyngiad yn yr apeliadau a gadarnhawyd fod yn arwydd bod ymdrin â chwynion yn gwella. Cafodd 34% o apeliadau ymchwiliadau y penderfynasom eu cadarnhau yn 2019/20 mewn cymhariaeth â 37% y flwyddyn flaenorol.

Cafodd 40% o apeliadau yn erbyn penderfyniad heddlu i beidio â chofnodi cwyn eu cadarnhau yn 2019/20, cynnydd ar gyfradd cadarnhau y llynedd o 36%.

O 551[3] o apeliadau yn erbyn penderfyniad heddlu i beidio â chofnodi cwyn:

- Cafodd 48% (263) eu cadarnhau oherwydd bod yr awdurdod priodol wedi methu â gwneud penderfyniad cofnodi.
- Cafodd 3% (17) eu cadarnhau oherwydd bod yr heddlu a gafodd y gŵyn wedi methu â'i throsglwyddo i'r awdurdod priodol cywir
- Cafodd 56% (309) eu cadarnhau oherwydd bod y penderfyniad cofnodi yn anghywir

Cyflwynodd *Deddf Plismona a Throseddu 2017* nifer o ddiwygiadau i system gwynion yr heddlu. Cafodd y diwygiadau hyn eu rhoi ar waith o 1 Chwefror 2020 ac roeddynt yn cynnwys cyflwyno hawl unigol i adolygu sy'n edrych ar a oedd canlyniad y gŵyn yn rhesymol a chymesur. Roedd yr hawl hwn i adolygu yn disodli gwahanol hawliau apelio.

**> y gyfran o randdeiliaid plismona sy'n credu bod yr IOPC yn cael effaith ar wella'r ffordd y mae'r heddlu yn ymdrin â chwynion.**

Yn ôl ein harolwg rhanddeiliaid 2019, mae 37% o randdeiliaid plismona; 62% o randdeiliaid fframwaith atebolrwydd yr heddlu; a 42% o randdeiliaid nad ydynt yn ymwneud â'r heddlu yn credu bod yr IOPC yn cael effaith ar wella'r ffordd mae'r heddlu yn ymdrin â chwynion.

[3] Mae'r IOPC yn ystyried apeliadau ynglŷn ag ymdrin â chwynion ar seiliau amrywiol a gall gadarnhau apêl ar fwy nag un o'r seiliau hyn. Mae hyn yn golygu na fydd y nifer o apeliadau sy'n cael eu cadarnhau ar bob sail yn gyfwerth â'r nifer o apeliadau a gadarnhawyd gan yr IOPC yn 2019/20.

## Blaenoriaeth: gwella plismona drwy adnabod a rhannu dysg o'n gwaith

**YR HYN FYDDWN NI'N EI WNEUD**
Byddwn yn canolbwyntio ein gwaith ar feysydd sy'n peri pryder i'r cyhoedd a'r heddlu ac yn gweithio gyda phartneriaid i rannu ein dysg i wella plismona a diogelu'r cyhoedd rhag niwed.

**YR HYN YR YDYM YN GOBEITHIO EI GYFLAWNI**
Mae ein hargymhellion yn arwain at welliannau mewn plismona ac yn atal niwed i'r cyhoedd.

**SUT Y BYDDWN YN MESUR EIN CYNNYDD**
Byddwn yn anelu at:

- gyhoeddi adroddiad effaith blynyddol yn rhoi tystiolaeth o'r gwahaniaeth yr ydym wedi ei wneud wrth wella plismona a system gwynion yr heddlu
- cynyddu i 95% y gyfran o randdeiliaid sy'n cytuno bod ein cylchgrawn Dysgu'r Gwersi yn adnodd defnyddiol i hybu newid ym mholisi'r heddlu

Byddwn yn monitro ac yn ymateb i:

- y gyfran o argymhellion dysgu a dderbynnir gan luoedd heddlu
- y gyfran o randdeiliaid sy'n meddwl bod yr IOPC yn effeithiol wrth godi safonau mewn lluoedd heddlu
- y gyfran o randdeiliaid sy'n meddwl bod yr IOPC yn effeithiol wrth sicrhau bod lluoedd heddlu yn dysgu oddi wrth gwynion

Mae cwynion gan y cyhoedd a'r digwyddiadau difrifol yr ydym yn ymchwilio iddynt yn cynnig cyfleoedd i ddeall sut y gellir gwella plismona i atal y materion hyn rhag digwydd eto.

Rydym yn ymroddedig i welliant parhaus a'n nod yw sicrhau y gallwn wella plismona drwy adnabod a rhannu'r dysg o'n gwaith gyda heddluoedd ac eraill sy'n gweithio yn y system gyfiawnder troseddol. Rydym yn canolbwyntio ein gwaith ar feysydd thematig sy'n peri pryder i'r cyhoedd a gwasanaeth yr heddlu, ac yn gweithio gydag eraill i rannu ein dysg i wella plismona a diogelu'r cyhoedd rhag niwed.

Yn y pen draw, mae newidiadau a wneir o ganlyniad i'r hyn a ddysgir yn gwella gwasanaeth yr heddlu i bawb ac yn diogelu'r cyhoedd rhag niwed. Rhaid i ni arwain y ffordd i sicrhau bod y system yn canolbwyntio'n well ar ddysgu drwy ddatblygu ein dull o ymchwilio i ddynodi cyfleoedd dysgu yn well, gwneud ein hargymhellion dysgu yn fwy cadarn a sicrhau bod ein gwaith yn arwain at welliannau gwirioneddol mewn plismona. Dim ond drwy weithio gyda phawb sy'n chwarae rôl ynddi y bydd gwelliannau i'r system gyfan yn bosibl. Rydym yn gweithio'n agos gyda phartneriaid fel HMICFRS, y Coleg Plismona a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, i ddatblygu blaenoriaethau a rennir, rhannu dysg ar draws ein gwaith a datblygu rhaglenni gwaith cydweithredol i hybu gwelliannau.

# Ein gwaith yn 2019/20

## Casglu dysg

Cyhoeddasom ein Strategaeth Ddysgu 2018-22 sy'n amlinellu ein nod i wella plismona drwy adnabod a rhannu dysg o'n gwaith drwy ganolbwyntio ar gasglu, blaenoriaethu, rhannu dysg a gweithredu arni.

Mae gwaith wedi dechrau ar ddiffinio cwmpas yr ymchwil i achosion a fu bron a digwydd yn y ddalfa[4]. Bydd y gwaith hwn yn canolbwyntio ar adnabod a rhannu arfer dda.

Yn ogystal, cyhoeddasom ystadegau ar farwolaethau yn ystod neu yn dilyn cyswllt â'r heddlu yng Nghymru a Lloegr, gan roi cyfle i ystyried tueddiadau a'r hyn a ddysgwyd o'r digwyddiadau hyn. Mae'r adroddiad 2018/19 yn rhoi ystadegau swyddogol o'r marwolaethau yn dilyn cyswllt â'r heddlu, eu hamgylchiadau a'r ffactorau sylfaenol, gan bwysleisio'r nifer o farwolaethau ar draws y gwahanol gategorïau ers 2008/09. Pwysleisiwyd iechyd meddwl yn yr adroddiad ac roedd cysylltiadau â chyffuriau neu alcohol yn ffactorau cyffredin ymhlith nifer o'r marwolaethau.

## Blaenoriaethu dysg

Mae gwneud argymhellion yn ystod ein hymchwiliadau a'n gwaith achos yn un ffordd y gallwn helpu i wella arfer plismona a gwella hyder y cyhoedd ym mhlismona yn lleol a chenedlaethol.

Gwnaethom gyfanswm o 105 o argymhellion dysgu. Mae hyn yn cynnwys 77 o'r argymhellion a wnaed dan baragraff 28A Atodlen 3 *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002* a 28 argymhelliad arall a wnaed i heddluoedd. Mae ein Hadroddiad Effaith 2019/20 yn cynnwys rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r argymhellion a'r gwahaniaeth maent wedi'i wneud.

Mae crynodebau ymchwiliadau dienw, sydd wedi'u cyhoeddi ar ein gwefan, hefyd yn rhoi manylion ymchwiliadau, y dystiolaeth a gasglwyd, deilliannau i'r swyddogion a'r staff sydd ynghlwm, a manylion unrhyw ddysg a adnabuwyd. Mae'r rhain yn helpu i

[4] Digwyddiad lle nad yw achos neu esgeulustod yn datblygu ymhellach i achosi niwed gwirioneddol - ond a oedd â'r potensial realistig i wneud hynny. Gallai hyn gynnwys ymgais i gyflawni hunanladdiad neu hunan-niwed gan y sawl sydd yn y ddalfa. Gallai ymwneud â chymryd cyffuriau neu alcohol, neu gynnwys sefyllfa lle mae gan y sawl sydd yn y ddalfa gyflwr meddygol sy'n bodoli eisoes, mae staff y ddalfa yn ymwybodol neu'n anymwybodol ohono.

fagu hyder y cyhoedd drwy ddangos ein bod yn dryloyw ynglŷn â'r pethau yr ydym yn ymchwilio iddynt a chanlyniadau ein hymchwiliadau.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom:

- sefydlu gweithgor allanol gyda chynrychiolwyr o heddluoedd a chyrff sy'n gweithio'n genedlaethol i gefnogi gwaith i wella argymhellion dysgu
- dechrau meincnodi sut mae cyrff plismona a goruchwylio eraill yn ymdrin ag argymhellion am ddysg o'u gwaith
- sefydlu hyrwyddwyr argymhellion mewnol a Grŵp Ymarferwyr Gweithredol i wella'r ffordd yr ydym yn gwneud argymhellion
- darparu arweiniad a hyfforddiant newydd i staff i'w helpu nhw adnabod, datblygu a gwneud argymhellion gwell
- datblygu systemau mewnol er mwyn ei gwneud yn haws i staff gofnodi dysg a sylwi ar batrymau ac wedi cymryd camau eraill i wella ansawdd data

Rydym wedi adolygu ac ail-ddylunio ein dull o wneud argymhellion am ddysg, i sicrhau eu bod yn effeithiol, wedi eu targedu ac yn amserol. Roedd hyn yn cynnwys gwaith i wella sut mae canlyniadau ein hachosion yn cael eu cofnodi. Mae ein systemau cyfredol yn golygu bod angen gwneud hyn â llaw. Bu i ni lansio arweiniad, hyfforddiant newydd ac ail-ddylunio Olrheiniwr Argymhellion Dysgu Cyfundrefnol i'w gwneud hi'n haws cofnodi a chwilio am argymhellion am ddysg.

Cynyddasom arbenigedd drwy ein Rhwydweithiau Pwnc i sicrhau ein bod yn deall yn well y cyd-destun mae'r heddlu yn gweithio ynddo ac yn cynnal credadwyedd ac awdurdod ein hargymhellion dysgu. Bydd rhagor o fanylion ynglŷn â hyn yn cael eu cynnwys yn ein Hadroddiad Effaith 2019/20.

## Rhannu dysg

Yn 2019, cyhoeddasom ein hadroddiad blynyddol cyntaf i ddangos y gwahaniaeth mae ein gwaith wedi'i wneud drwy wella plismona a system gwynion yr heddlu. Byddwn yn cyhoeddi hwn eto yn haf 2020.

Yn ogystal, gweithiasom gyda phartneriaid i hyrwyddo'r *cylchgronau Dysgu'r Gwersi* a gweithiasom gyda phartneriaid i hyrwyddo'r cyhoeddiad fel adnodd gwerthfawr ar gyfer swyddogion heddlu rheng flaen a staff yr heddlu.

Mae oddeutu 1,000 o bobl yn cael y cylchgrawn a chaiff ei lawrlwytho dros 5,000 o weithiau o'n gwefan yn ystod y flwyddyn.

Roedd rhifyn y ddalfa a gyhoeddwyd fis Gorffennaf 2019 yn cynnwys dysg mewn perthynas â chyfathrebu, lles y sawl sydd yn y ddalfa, offer, a gwiriadau a deffro. Cafodd y rhifyn hwn ei lawrlwytho 2,009 o weithiau o'n gwefan.

Roedd rhifyn mis Rhagfyr 2019 ynglŷn â phobl sydd ar goll yn cynnwys dysg ar gofnodi rhywun fel unigolyn ar goll, ymateb i alwadau sy'n mynegi pryderon am lesiant, oedi yn ymateb yr heddlu, chwilio, a phrofiad pobl a datblygu ymchwiliadau. Roedd cyfranwyr yn cynnwys yr NPCC a'r elusen Missing People. Hyrwyddwyd y cylchgrawn i oddeutu 400 o gynrychiolwyr a oedd yn mynychu Cynhadledd Genedlaethol Pobl ar Goll. Cafodd y rhifyn hwn ei lawrlwytho 1,335 o weithiau o'n gwefan.

Roedd ein rhifyn mis Ionawr 2020 yn canolbwyntio ar bobl ifanc a bu i aelodau o'n Panel Ieuenctid wasanaethu fel golygwyr gwadd. Gwnaethant rannu eu profiadau o gyswllt â'r heddlu, gan gynnwys awgrymiadau i swyddogion mewn perthynas â rhyngweithio â phobl ifanc. Roedd cyfranwyr yn cynnwys yr NPCC, yr Ymddiriedolaeth Cyngor a Gofal Carcharorion (PACT) a'r Rhwydwaith Oedolion Priodol Cenedlaethol. Lansiwyd y cylchgrawn yng Nghynhadledd Plismona sy'n Canolbwyntio ar Blant yr NPCC fis Ionawr 2020. Cafodd y rhifyn hwn ei lawrlwytho o'n gwefan 1,410 o weithiau.

Hyrwyddwyd y cylchgrawn mewn digwyddiadau, gan gynnwys Cynhadledd Flynyddol Cymdeithas Uwcharolygwyr yr Heddlu (Medi 2019) a Chynhadledd Canolfan Ymchwil a Dysgu Plismona y Brifysgol Agored (Hydref 2019).

Bu i 32 o bobl newydd ymuno â'n panel datblygu *Dysgu'r Gwersi* yn 2019/20. Mae'r panel yn helpu i siapio ac arwain ar gynnwys. Bellach mae gennym gyfanswm o 82 aelod panel gweithredol sy'n rhoi cyngor ac arweiniad ar gynnwys.

Bu i adborth gan ddarllenwyr rhifynnau gwahanol yn ystod y flwyddyn ganfod bod:

- 75% o ymatebwyr yn dweud y byddant yn meddwl yn wahanol ynglŷn â sut maent yn trin pobl sydd wedi'u dwyn i'r ddalfa
- 86% o ymatebwyr yn dweud y byddant yn meddwl yn wahanol ynglŷn â sut maent yn cyfathrebu gyda phobl sydd wedi'u dwyn i'r ddalfa
- 75% o ymatebwyr yn dweud y byddant yn meddwl yn wahanol ynglŷn â sut maent yn ymdrin ag ymchwiliadau pobl ar goll
- 77% o ymatebwyr yn dweud y byddant yn meddwl yn wahanol ynglŷn â sut maent yn cyfathrebu gyda phobl y mae eu cyfeillion, teulu neu anwyliaid ar goll
- 88% o ymatebwyr yn dweud y byddant yn meddwl yn wahanol ynglŷn â sut maent yn rhyngweithio â phobl ifanc maent yn dod ar eu traws wrth wneud eu gwaith

Defnyddiwyd dysg o'r cylchgrawn hefyd gan ddarllenwyr i wneud hyfforddiant cymorth cyntaf yn y ddalfa yn fwy perthnasol, gwella'r gwaith o roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Uned Pobl ar Goll, a rhannu dysg ac adnabod unrhyw welliannau i bolisi, arweiniad, systemau a hyfforddiant lleol.

Mae trafodaethau yn mynd rhagddynt gyda chynrychiolwyr o'r Coleg Plismona a HCMIFRS i ddatblygu un llwyfan sy'n galluogi ymarferwyr i ddefnyddio dysg ac arfer dda yn rhwydd.

**Enghreifftiau o sut mae dysg yn gwella arfer plismona**

Mae ein hymchwiliadau yn helpu i adnabod dysg allweddol i wella arfer plismona, yn lleol a chenedlaethol. Er enghraifft, bu i'n hargymhellion dysgu eleni newid arfer plismona cenedlaethol mewn perthynas ag ymlidiau tactegol, stelcio a gwarantau chwilio.

Yn dilyn pum ymchwiliad a oedd yn cynnwys yr heddlu yn defnyddio cyswllt tactegol yn erbyn cerbydau dwy olwyn, adnabuom risgiau i'r heddlu, gyrwyr a'r cyhoedd oherwydd bwlch yn arweiniad plismona cenedlaethol ynglŷn â defnyddio'r dacteg hon. Yn dilyn ein hargymhellion, cafodd canllawiau cenedlaethol eu diweddaru gan yr NPCC a'r Coleg Plismona i helpu swyddogion yr heddlu i ddefnyddio cyswllt tactegol yn fwy diogel drwy gefnogi swyddogion yn well i asesu'r sefyllfa a'r risgiau ynghlwm.

Cafodd argymhelliad cenedlaethol i swyddogion yr heddlu i beidio â chyhoeddi hysbysiadau tâl cosb gosodedig mewn achosion o stelcio ac aflonyddu ei gyhoeddi i brif gwnstabliaid pob heddlu yng Nghymru a Lloegr gan yr NPCC. Gwnaethpwyd hyn o ganlyniad i fenyw gael ei llofruddio gan ei chyn-gariad ar ôl iddo fod yn ei stelcio a'i haflonyddu ers misoedd. Yn ogystal, bu i'n hymchwiliad wneud 16 argymhelliad i'r heddlu ynghlwm, gan ei gynghori i hyfforddi staff yn gywir, gwella'r asesiadau risg, gwella gwaith cofnodi gwybodaeth a gwella gwaith adnabod dioddefwyr stelcio a'r rhai sydd yn stelcio ar systemau'r heddlu. Ers gweithredu'r newidiadau hyn, mae'r heddlu wedi gweld cynnydd sylweddol yn y nifer o droseddau stelcio sy'n cael eu hadnabod a'u cofnodi, gan arwain at gynnydd yn y nifer sy'n cael eu harestio am droseddau o'r fath.

Fel rhan o Ymgyrch Kentia, ymchwiliwyd i ymddygiad yr heddlu mewn perthynas â cheisiadau am warantau chwilio a wnaed gan Wasanaeth yr Heddlu Metropolitan mewn cysylltiad ag Ymgyrch Midland, a oedd yn canolbwyntio ar ymchwilio i sawl dinesydd uchel ei barch am honiadau hanesyddol o gam-drin plant yn rhywiol a dynladdiad. Gwnaeth ein hymchwiliad 16 argymhelliad i wella arfer plismona, a fydd yn arwain at newidiadau cenedlaethol i wneud cais am warantau chwilio a'u gwirio, yn ogystal â newidiadau sylweddol i bolisïau ac arferion yng Ngwasanaeth yr Heddlu Metropolitan. Mae hyn wedi arwain at hyfforddiant gwell i swyddogion yr heddlu i annog dealltwriaeth well o bwerau stopio a chwilio a gwarantau, gyda gwelliannau mewn hyfforddiant yn genedlaethol a gan Wasanaeth yr Heddlu Metropolitan.

## Asesu ein perfformiad yn erbyn y flaenoriaeth hon

**Yn ystod 2019/20 ein nod oedd:**

**> cyhoeddi adroddiad effaith blynyddol yn rhoi tystiolaeth o'r gwahaniaeth yr ydym wedi'i wneud wrth wella plismona a system gwynion yr heddlu**

Cyhoeddasom ein Hadroddiad Effaith cyntaf fis Awst 2019, yn amlinellu sut mae ein gwaith yn gwneud gwahaniaeth i hyder y cyhoedd mewn plismona, a'i wella. Mae'r adroddiad yn cynnwys sawl enghraifft o sut ydym yn defnyddio dysg o'n gwaith i ddylanwadu ar newidiadau mewn plismona, sicrhau atebolrwydd a chefnogi arfer orau.

**> cynyddu i 95% y gyfran o randdeiliaid sy'n cytuno bod ein cylchgrawn *Dysgu'r Gwersi* yn adnodd defnyddiol i hybu newid ym mholisi'r heddlu**

Yn ystod 2019/20, cyhoeddasom dri rhifyn o'n cylchgrawn *Dysgu'r Gwersi* yn canolbwyntio ar y ddalfa, pobl ar goll a phobl ifanc. Ar ôl pob rhifyn, rydym yn gwahodd darllenwyr i lenwi arolwg adborth. Roedd yr adborth hwn yn dangos bod, ar gyfartaledd, 91% o ymatebwyr yn cytuno bod y cylchgrawn yn adnodd defnyddiol i hybu newid ym mholisi'r heddlu. Mae hyn ychydig yn is nag ein nod o 95%, ond yn gynnydd ar y 80% a gyflawnwyd yn 2018/19.[5]

**Dywedasom y byddem yn monitro ac ymateb i:**

**> y gyfran o argymhellion dysgu a dderbynnir gan heddluoedd**

Gwnaethom 77 argymhellion dysgu i heddluoedd dan baragraff 28A Atodlen 3 *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*. Pymtheg o'r sefydliadau cenedlaethol targedig hyn, megis y NPCC a'r Coleg Plismona. Gwnaethpwyd 28 argymhelliad arall i heddluoedd y tu hwnt i ddarpariaethau 28A.

Lle'r oedd argymhellion wedi'u cyhoeddi dan baragraff 28A Atodlen 3 *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002,* rydym yn cyhoeddi manylion o gamau gweithredu'r derbynnydd wrth ymateb i'r argymhellion ar ein gwefan.

Mae ein Hadroddiad Effaith 2019/20 yn cynnwys rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r argymhellion a'r gwahaniaeth maent wedi'i wneud.

---

[5] Mae'r ffigyrau hyn yn cynrychioli cyfartaledd dros y flwyddyn. Y ffigwr 91% yw'r canran o ymatebwyr sy'n ymateb i'r cwestiwn arolwg penodol hwn (107 o 118 o bobl).

**> y gyfran o randdeiliaid sy'n meddwl bod yr IOPC yn effeithiol wrth godi safonau mewn heddluoedd**

Rhanddeiliaid a gymerodd ran yn ein hymchwil rhanddeiliaid 2019 a oedd yn credu bod yr IOPC yn effeithiol wrth godi safonau heddluoedd:

- 39% o randdeiliaid yr heddlu[6]
- 62% o randdeiliaid atebolrwydd yr heddlu
- 39% o randdeiliaid nad ydynt yn heddlu

Mae rhanddeiliaid wedi'u hannog gan y pwyslais cynyddol a pharhaus yr ydym yn ei roi ar ddeilliannau dysgu i godi safonau mewn heddluoedd ac mae ymdeimlad y bydd safonau yn codi ymhellach, wrth i hyn gael ei fewnosod ymhellach. Yn ôl ein rhanddeiliaid, mae ein hymdrechion yn fwyaf tebygol o gael effaith yn yr hirdymor a dim ond megis dechrau yw hyn.

> ***"Mae'n symud i ffwrdd o fod yn sefydliad sydd yno'n bennaf i weithredu fel heddlu yn ymchwilio i'r heddlu i fod yn fwy o gorff cefnogol i helpu'r heddlu i ddysgu gan y camgymeriadau a wnânt." -*** Rhanddeiliaid plismona

**Dywedasom y byddem yn monitro ac ymateb i:**

**> y gyfran o randdeiliaid sy'n meddwl bod yr IOPC yn effeithiol wrth sicrhau bod heddluoedd yn dysgu oddi wrth gwynion**

Rhanddeiliaid a gymerodd ran yn ymchwil rhanddeiliaid 2019 a oedd yn credu bod yr IOPC yn effeithiol wrth sicrhau bod heddluoedd yn dysgu oddi wrth gwynion:

- 51% o randdeiliaid yr heddlu
- 58% o randdeiliaid atebolrwydd yr heddlu
- 42% o randdeiliaid nad ydynt yn heddlu

Mae'r newid hwn i sicrhau bod heddluoedd yn dysgu gan gamgymeriadau wedi bod yn gyffredinol gadarnhaol. Er mwyn i'r canrannau hyn godi ymhellach, mae rhanddeiliaid yn awyddus i weld tystiolaeth sylweddol o newid cadarnhaol yn neilliannau plismona.

[6] Roedd y meintiau sylfaen ar gyfer holl ddata arolwg rhanddeiliaid 2019 yn cynnwys: *rhanddeiliaid yr heddlu* - 97 cyfweliad meintiol ac 8 cyfweliad ansoddol manwl, *rhanddeiliaid atebolrwydd yr heddlu* - 26 cyfweliad meintiol a 10 cyfweliad ansoddol manwl a *rhanddeiliaid nad ydynt yn heddlu* - 33 cyfweliad meintiol a 7 cyfweliad manwl.

## Blaenoriaeth: gwella hyder yn atebolrwydd yr heddlu

**YR HYN FYDDWN NI'N EI WNEUD**
Byddwn yn ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid a chymunedau, gan ganolbwyntio ar y rhai sydd â'r lleiaf o hyder mewn plismona, fel eu bod yn deall eu hawl i gwyno ac yn disgwyl triniaeth deg a chyfiawn wrth ymateb i gwynion a digwyddiadau difrifol.

**YR HYN YR YDYM YN GOBEITHIO EI GYFLAWNI**
Y rhai sy'n brin o hyder mewn plismona yn defnyddio ac yn gwerthfawrogi'r system gwynion.

**SUT Y BYDDWN YN MESUR EIN CYNNYDD**
Byddwn yn anelu at:

- wella perfformiad ar y dulliau mesur allweddol canlynol yn ein holrheiniwr canfyddiadau'r cyhoedd:
    - y gyfran o bobl ifanc sy'n hyderus bod yr heddlu yn ymdrin â chwynion yn deg
    - y gyfran o'r cyhoedd o gefndir du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig sy'n ymwybodol ohonom

Byddwn yn monitro ac yn ymateb i:

- y gyfran o randdeiliaid sy'n meddwl ein bod yn gwella hyder y cyhoedd yn system gwynion yr heddlu
- y gyfran o gwynion a dderbyniwyd gan aelodau o'r cyhoedd o gefndir du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig[7]
- y gyfran o gwynion a dderbyniwyd gan bobl ifanc[8]

Mae cael goruchwyliaeth annibynnol ar system gwynion yr heddlu yn hanfodol i gynnal hyder y cyhoedd mewn plismona. Mae ein penderfyniadau gweithredol yn annibynnol oddi ar yr heddlu a'r llywodraeth. Rydym yn cydnabod bod angen gwneud mwy i wella ymddiriedaeth yn system gwynion yr heddlu a sicrhau bod y cyhoedd yn hyderus ei fod yn sicrhau bod y gwasanaeth heddlu'n atebol pan fydd angen.

Mae'n bwysig ein bod yn arddangos ein hannibyniaeth drwy wneud penderfyniadau diduedd, teg ac ar sail tystiolaeth. Mae hyn yn golygu y byddwn yn gwrando ac yn ystyried barn pawb sydd ynghlwm yn ofalus, ond bydd ein penderfyniadau yn cael eu seilio ar ffeithiau a'r dystiolaeth sydd ar gael yn unig. Rydym yn esbonio'r dystiolaeth

[7] [8]Bydd ystadegau blynyddol cwynion yr heddlu 2019/20 ar gyfer Cymru a Lloegr yn cael eu cyhoeddi hydref 2020 ac felly nid ydynt ar gael i'w cynnwys yn yr adroddiad hwn.

a’r rhesymeg wrth wraidd i’n penderfyniadau yn glir i’r rhai sy’n destun i’n hymchwiliadau, achwynwyr a’r cyhoedd ac yn cynnal hunaniaeth ar wahân i’r heddlu, y llywodraeth ac eraill.

Byddwn yn ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid a chymunedau i ddeall eu pryderon a chyfleu effaith ein gwaith. Rydym yn canolbwyntio ar gynyddu hyder y rhai yr ydym yn gwybod bod ganddynt yr ymddiriedaeth leiaf yn y system – er enghraifft, pobl ifanc a’r rhai o gefndir du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig - fel eu bod yn deall eu hawl i gwyno, yn gallu cael mynediad i’r system gwynion ac yn disgwyl cael triniaeth deg a chyfiawn. Byddwn yn parhau i sicrhau mwy o dryloywder ynglŷn â’r system a’r deilliannau a gyflawnir drwy ei defnyddio.

Rydym yn cydnabod bod anghydbwysedd grym yn bodoli rhwng yr heddlu ac achwynwyr/teuluoedd a chynnig cefnogaeth a chyfarwyddyd i helpu pobl i ddeall eu hawliau a mynd drwy’r system, gan gyfeirio at sefydliadau eraill yn ôl y gofyn.

Yn ogystal, gwyddom fod rhai pobl yn ei chael hi’n anodd deall sut dylent gael eu trin gan yr heddlu a bod ganddynt yr hawl i gwyno os ydynt yn teimlo eu bod wedi’u trin mewn modd anfoddhaol. Gall ymwybyddiaeth isel a dealltwriaeth wael gyfrannu nid yn unig at ddiffyg hyder yn y system, ond hefyd pryder ynglŷn â’r amser a’r effaith sydd ei angen i wneud cwyn, ac ofn ôl-effeithiau posibl. Mae hyn yn achosi rhwystrau ychwanegol i bobl rhag bod yn hyderus i fod yn ymwybodol o’u hawliau a’u defnyddio.

Mae cynyddu lefelau ymddiriedaeth a hyder ymhlith y cyhoedd, yn arbennig ymhlith y grwpiau hynny sydd â’r hyder isaf yn y system, yn ffocws allweddol i’n gwaith.

# Ein gwaith yn 2019/20

## Gwella mynediad a hyder

### Codi ymwybyddiaeth o’r IOPC

Bob blwyddyn, rydym yn cyhoeddi ar gyfartaledd 300 o ddatganiadau rhagweithiol i’r wasg yn ymwneud â’n hymchwiliadau, gwaith thematig ac adroddiadau. Rydym yn rheoli mwy na 3,000 o ymholiadau gan y cyfryngau. Mae’r cyfryngau yn gwndid pwysig i godi hyder y cyhoedd ac yn helpu i godi ymwybyddiaeth o’n gwaith, a’r canlyniadau sy’n dilyn ein hymchwiliadau. Oni bai bod rhesymau eithriadol, byddwn yn cyhoeddi pob adroddiad ymchwiliad neu grynodeb ymchwiliad ar ein gwefan.

Mae ein gwefan yn ffynhonnell wybodaeth bwysig ynglŷn â’n gwaith, a hefyd yn brif sianel ar gyfer gwneud cwyn. Mae ein gwefan yn cynnwys gwybodaeth ynghylch ein

perfformiad ein hunain a chanlyniadau o system gwynion yr heddlu. Yn ystod y flwyddyn, cawsom 353,522 o ymweliadau â'n gwefan. Dechreuasom ar waith i wella hygyrchedd ein gwefan, gyda chynlluniau ar gyfer rhagor o welliannau yn 2020/21.

Yn ogystal, mae cyfryngau cymdeithasol yn darparu prif sianel i ymgysylltu â chynulleidfaoedd. Drwy Twitter, rydym yn cysylltu gyda mwy na 30,000 o ddilynwyr ac mae gennym 1,000 o ddilynwyr ar LinkedIn ar hyn o bryd.

Mae ein cylchlythyr Crynodeb Misol, ein datganiadau i'r wasg a chrynodebau ymchwiliadau yn cynnwys enghreifftiau o'r ddysg yr ydym wedi'i hadnabod a chanlyniadau ein gwaith. Mae'r sianelau hyn yn hyrwyddo tryloywder ac yn dangos sut mae ein gwaith yn gwneud gwahaniaeth.

Fis Mawrth 2019, dywedodd ymchwil wrthym fod 40% o ymatebwyr wedi dweud eu bod wedi clywed am yr IOPC. Er bod llawer mwy o waith i'w wneud eto i sicrhau bod y cyhoedd yn deall ein rôl a'n gwaith, mae ymchwil diweddar yn dangos cynnydd, gyda 51% o ymatebwyr yn dweud eu bod wedi clywed am yr IOPC[9].

Gwyddom fod angen i ni wneud mwy i godi ymwybyddiaeth o rôl ac effaith yr IOPC ac yn 2019 datblygasom strategaeth gyfathrebu newydd yn para tair blynedd i hybu hyn.

Mae'r strategaeth hon yn nodi cynlluniau uchelgeisiol i wella ein cyfathrebu ymhellach a thros y 12 mis nesaf rydym yn bwriadu:

- lansio e-gylchlythyr corfforaethol i ddiweddaru cynulleidfaoedd ehangach ac ymgysylltu â nhw
- adolygu a gwella ein gwefan, yn seiliedig ar ymchwil gyda defnyddwyr, gan ein caniatáu ni i dargedu ein cyfathrebiadau yn well a darparu profiad gwell i ddefnyddwyr
- darparu ystod o gynlluniau cyfathrebu sy'n canolbwyntio ar bobl ifanc a chymunedau sydd â hyder isel, i godi ymwybyddiaeth a gwella ymddiriedaeth yn system gwynion yr heddlu
- lansio dau ymgyrch gwybodaeth/ymwybyddiaeth newydd mewn perthynas ag achosion heddlu traffig ffyrdd a cham-drin swydd at ddibenion rhywiol
- ehangu deunyddiau adnoddau, gan gynnwys fideos, taflenni ffeithiau a gwybodaeth ar y wefan, i ledaenu i heddluoedd a rhanddeiliaid eraill

## Ymgysylltu ag ieuenctid

Bu i ni barhau i weithio mewn partneriaeth â'n Panel Ieuenctid i weithredu ei argymhellion yn dilyn ymgysylltiad â thros 800 o bobl ifanc. Bydd hyn yn ein helpu i

[9] Olrheiniwr Canfyddiadau'r Cyhoedd yr IOPC: Crynodeb adroddiad blynyddol 2019/20.

ymdrin â meysydd sy'n creu pryder y cyfeiriwyd atynt gan bobl ifanc ac yn gwella eu hyder yn system gwynion yr heddlu.

Mae'r Panel, sydd yn ei ail flwyddyn o weithredu, yn cynnwys 28 o bobl ifanc rhwng 16-25 oed (mae 68% o aelodau'r Panel o gefndiroedd du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, 14% yn ystyried ei hunain yn rhan o'r gymuned LGBTQ+ ac mae gan 32% brofiad o gyfiawnder troseddol a/neu blismona).

Eleni mae cyflawniadau'r Panel yn cynnwys:

- gwasanaethau fel golygwyr gwadd i'n cylchgrawn *Dysgu'r Gwersi* a chynhyrchu ffilm fer ynglŷn â stopio a chwilio i'w defnyddio fel rhan o hyfforddiant yr heddlu
- cefnogaeth gyda recriwtio ar gyfer ein swyddi swyddog ymgysylltu rhanddeiliaid newydd a'r Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol ar gyfer Gweithrediadau
- cyd-gynnal a chyflwyno yng Nghynhadledd Plismona sy'n Canolbwyntio ar Blant y NPCC
- cyflwyno eu gwaith i'n Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Allanol
- cefnogi sesiwn datblygu staff gyda'n Canolfan Gyswllt Cwsmeriaid i wella dealltwriaeth o sut i ymgysylltu â phobl ifanc
- helpu ein gwaith gydag ymgyrchoedd a chyfryngau cymdeithasol

Yn ogystal, bu'r Panel yn helpu i lywio ein ffordd o feddwl fel sefydliad - yn arbennig, dylanwadu strategaeth gyfundrefnol, ffyrdd o weithio a'n hethos cyffredinol. Byddwn yn recriwtio aelodau Panel newydd yn 2020/21.

Cafodd ein Cyfarwyddwr Cyffredinol, staff uwch a thîm ymgysylltu â rhanddeiliaid gyfarfod gydag ystod eang o sefydliadau ar lefel genedlaethol a lleol, i godi ymwybyddiaeth o'n gwaith a cheisio eu safbwyntiau ynglŷn â sut gallwn wella hyder yn system gwynion yr heddlu. Roedd hyn yn cynnwys ymgysylltu â grwpiau cynghori annibynnol, grwpiau cymunedol ieuenctid a sefydliadau eraill sy'n cynrychioli'r rheiny sydd â hyder isel yn y system. Yn ogystal, gwnaethom ymgysylltu â grwpiau ac unigolion sydd â diddordeb penodol yn ein meysydd blaenoriaeth ar gyfer dysg thematig, er enghraifft, ym meysydd cam-drin domestig a gwahaniaethu.

Gan weithio'n agos â'n Panel Ieuenctid, rydym wedi datblygu canllaw pobl ifanc i system gwynion yr heddlu. Yn ogystal, darparasom wybodaeth i ystod o eiriolwyr ynglŷn â'r system a'n rôl ynddi, yn arbennig i godi ymwybyddiaeth o newidiadau deddfwriaethol i systemau cwynion a disgyblu'r heddlu, a'n pwerau newydd.

Cwblhaom waith i asesu pa gefnogaeth sy'n bodoli ar hyn o bryd i'r rheiny sy'n ei chael hi'n anodd defnyddio a llywio system gwynion yr heddlu, ac adolygasom fodelau gwasanaethau cefnogi ac eirioli a ddefnyddir yn systemau cwynion eraill.

Erbyn hyn mae gwaith wedi dechrau ar ddatblygu cynigion ar gyfer gwasanaeth cefnogi a chyngori system gwynion yr heddlu.

## Gweithio yn lleol a chenedlaethol

**Ymgysylltiad â rhanddeiliaid**

Mae ein Strategaeth ymgysylltu â rhanddeiliaid 2019-22 yn nodi sut ydym yn gwrando ar grwpiau gwirfoddol, y sector cymunedol a grwpiau eiriolaeth sy'n cynrychioli'r cyhoedd, achwynwyr a theuluoedd, a magu perthnasau gyda nhw, yn ogystal ag ymgysylltu â'n rhanddeiliaid statudol a phlismona.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom ehangu ein tîm ymgysylltu â rhanddeiliaid a bellach mae gennym swyddog ymgysylltu â rhanddeiliaid ym mhob un o'n swyddfeydd yng Nghymru a Lloegr. Pwrpas y rolau yw datblygu perthnasau ar lefelau lleol a chymunedol. Bydd hyn yn ein helpu ni i ddeall yn well y cyfleoedd lleol i gydweithio ac ymateb yn rhagweithiol i bryderon cymunedol a materion sy'n amlygu eu hunain.

Rydym wedi datblygu cynlluniau ymgysylltu cymunedol ar gyfer pob un o'n rhanbarthau ac i Gymru. Mae'r cynlluniau hyn yn canolbwyntio ar ymgysylltiad rheolaidd a theilwredig gyda'n cymunedau lleol amrywiol i godi ymwybyddiaeth o'n gwaith a darparu cyfleoedd iddynt ddylanwadu ar ein gwaith.

Bu i'n timau ymgysylltu rhanbarthol estynedig drefnu pum digwyddiad ymgysylltiad rhanbarthol fis Mawrth yn canolbwyntio ar bobl ifanc o gefndiroedd du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, rhanddeiliaid cymunedau lleol ac awtistiaeth a phlismona. Yn anffodus, dim ond un o'r digwyddiadau hyn a gafodd eu cynnal yn sgil cyfyngiadau ymgynnull Covid-19.

Rhan bwysig o'n rôl yw rhoi tawelwch meddwl i gymuned pan mae digwyddiad allweddol yn digwydd a all effeithio ar hyder y cyhoedd mewn plismona neu achosi tensiynau cymunedol. Yn y sefyllfaoedd hyn, rydym yn darparu ystod o gefnogaeth - o siarad ag arweinwyr cymunedau lleol i gyhoeddi datganiadau i'r wasg ac ymgysylltu â'r heddlu lleol neu Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu. Yn ogystal, rydym yn rhoi tawelwch meddwl a hyder y bydd yr honiadau yn cael eu hymchwilio'n annibynnol.

Yn ystod y flwyddyn roedd y gwaith hwn yn cynnwys monitro lefelau tensiwn y gymuned yn rheolaidd a materion sy'n effeithio ar hyder yn yr heddlu, adnabod prif arweinwyr a dylanwadwyr cymunedol, monitro cyfryngau cymdeithasol, rhoi tawelwch meddwl i gymunedau drwy ddatganiadau i'r wasg, cyfryngau cymdeithasol neu gyfweliadau, a siarad â rhanddeiliaid lleol a chenedlaethol.

Mae gwaith i roi cyfle i'n pobl dreulio amser yn gwirfoddoli yn eu hardal leol yn dal i fynd rhagddo. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall pryderon lleol yn well a magu hyder yn ein gwaith.

**Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Allanol**

Mae ein Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Allanol yn cynnwys rhanddeiliaid statudol ac anstatudol allanol, megis cynrychiolwyr o sefydliadau elusennol ac ymgyrchu, sefydliadau plismona a'r Swyddfa Gartref.

Mae'r grŵp yn darparu adborth heriol ac adeiladol ar ein perfformiad a phrosiectau allweddol, ac yn ymddwyn fel bwrdd seinio anffurfiol i drafod darnau penodol o waith a themâu i'n helpu ni i wella arfer plismona. Mae themâu a drafodir gan y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Allanol dros y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys:

- gwella'r ffordd mae cwynion yr heddlu yn cael eu trin drwy waith goruchwylio
- deall a bodloni anghenion defnyddwyr gwasanaeth
- ail-ffocysu ymchwiliadau'r IOPC i wella prydlondeb, ansawdd a dysg

**Canolbwyntio ar ddefnyddwyr gwasanaeth**

Yn ystod y flwyddyn, gweithiasom gyda defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid i gasglu eu hadborth i'n helpu ni ddeall yn well y ffactorau sy'n effeithio ar eu hyder ynom.

**Deall hyder**

Cynaliasom ddigwyddiadau ymchwil cydgynghorol fis Rhagfyr 2019 i ddeall yn fwy manwl yr anogwyr sydd wrth wraidd ein data canfyddiadau'r cyhoedd. Cafodd dau ddigwyddiad dyddiau llawn eu cynnal yn Llundain a Leeds, a mynychodd 50 aelod o'r cyhoedd y ddau ddigwyddiad ac roeddynt yn cynrychioli demograffeg yr ardal leol yn eang.

Cafwyd digwyddiad hanner diwrnod arall yn canolbwyntio ar archwilio hyder aelodau o'r cyhoedd o gefndiroedd du. Cynhaliwyd y digwyddiad hwn yn Llundain ac aeth 20 o bobl i'r digwyddiad hwnnw. Mae'r canlyniadau bellach yn sail i waith y dyfodol i godi hyder yn yr IOPC ymhlith cymunedau du.

**Adborth gan randdeiliaid**

Cyhoeddasom ganlyniadau ein hymchwil rhanddeiliaid 2019 – y cyntaf i'w gynnal ers i ni ddod yn IOPC. Mae canfyddiadau'r ymchwil yn adrodd stori o newid cadarnhaol wrth i'n rhanddeiliaid adrodd cysylltiadau gwell â'r IOPC mewn cymhariaeth ag unrhyw adeg yn y gorffennol.

Mae'r newid cadarnhaol hwn wedi'i briodoli i dri maes - ein ffocws ar ddysgu, gwaith estyn allan ac ymgysylltiad gwell gyda rhanddeiliaid, ac arweinyddiaeth sy'n gwrando ar bryderon rhanddeiliaid ac yn dangos bwriad i fynd i'r afael â nhw.
Rhennir canlyniadau'r arolwg rhanddeiliaid yn dri grŵp o ymatebwyr, 'rhanddeiliaid yr heddlu', 'eraill yn fframwaith atebolrwydd yr heddlu', a 'rhanddeiliaid nad ydynt yn heddlu'. Mae'r categoreiddio hyn yn ein helpu i ddeall sut mae profiadau ein grwpiau rhanddeiliaid gwahanol yn cymharu.

> ***"Y geiriau y byddwn i'n eu cysylltu â'r IOPC? Un gair fyddai 'dynamig', er rwy'n credu y byddant yn dychryn clywed hynny. Ond fel sefydliad rydym wedi'u gweld yn newid cryn dipyn mewn blwyddyn ac mewn gwirionedd, o bersbectif gwas sifil, gwyddom pa mor anodd ydy newid i sefydliadau mawrion. Mae cyflymder y newid wedi cael cryn argraff arnaf."***
> - Rhanddeiliad atebolrwydd yr heddlu

**Gosod safonau a gwella ansawdd**

Cyhoeddasom Safonau Gwasanaeth yn nodi beth all defnyddwyr gwasanaeth ei ddisgwyl gennym ni a sut y byddwn yn mesur ein perfformiad mewn cymhariaeth â'r safonau hyn. Mae ein Safonau yn gosod y lefel o wasanaeth yr ydym wedi ymrwymo i'w ddarparu i'r rhai sydd ynghlwm â'n gwaith.

Bob dydd rydym yn rhyngweithio gyda gwahanol bobl sy'n dod i gysylltiad â'n sefydliad. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu'r safonau uchaf posibl o ran gwasanaeth cwsmer, ond yn ymwybodol bod defnyddwyr gwasanaeth wedi tynnu sylw yn flaenorol at yr angen i ni ddarparu mwy o gyfathrebiad ystyrlon gyda nhw.

I wella'r gwasanaeth yr ydym yn ei ddarparu, gweithiasom tuag at ennill achrediad Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmer® fis Mawrth 2020. Nid yn unig y llwyddasom i brofi ein cydymffurfiad ym mhob un o'r 57 maen prawf asesu, ond gwnaethom hefyd gyflawni sgôr 'cydymffurfiad ychwanegol' mewn tri maes, sy'n golygu ein bod wedi mynd y tu hwnt i'r gofynion - rhywbeth sy'n anarferol iawn ar asesiad cyntaf. Mae'r gwaith hwn wedi dangos ein hymrwymiad i fodloni anghenion ein defnyddwyr gwasanaeth.

Dechreuwyd ar waith i ail-ddylunio ein gwasanaeth cyswllt teuluol a chefnogaeth i ddefnyddwyr gwasanaeth bregus yn 2019/20 er mwyn sicrhau ein bod yn bodloni eu hanghenion. Disgwyliwn i'r gwaith hwn ddod i ben flwyddyn nesaf.

**Defnyddio ein llinell adrodd**

Rydym yn gweithredu llinell adrodd i swyddogion yr heddlu a staff i adrodd pryderon o gamweddau yn eu gweithle. Caiff ei ddefnyddio mewn sefyllfaoedd lle mae

camweddau yn datgelu neu'n awgrymu bod trosedd wedi digwydd, neu lle mae tystiolaeth o ymddygiad a fyddai'n cyfiawnhau gweithdrefnau disgyblu. Mae'r Coleg Plismona hefyd yn cynhyrchu cyfarwyddyd ar bryderon adrodd.

Yn 2019/20, cysylltwyd â'n llinell adrodd 60 o weithiau. Roedd y rhan fwyaf o'r pryderon a godwyd yn ymwneud â naill ai llygredigaeth, gwahaniaethu neu fethiant Adran Safonau Proffesiynol heddlu i ymchwilio i gŵyn.

Mae gennym sawl opsiwn ar gyfer ymdrin â galwadau i'n llinell adrodd. Bydd y cam gweithredu y byddwn yn ei gymryd yn dibynnu ar ddifrifoldeb y pryderon a godwyd, ond rhaid i ni gael caniatâd gan y galwr cyn anfon unrhyw wybodaeth at heddlu.

Ar ôl cael eu hasesu, roedd y rhan helaeth o'r adroddiadau y cawsom yn 2019/20 yn addas am ymdriniaeth gan yr heddlu perthnasol.

## Asesu ein perfformiad yn erbyn y flaenoriaeth hon

**Yn ystod 2019/20 ein nod oedd:**

**> gwella perfformiad ar y dulliau mesur allweddol canlynol yn ein holrheiniwr canfyddiad y cyhoedd**

- y gyfran o bobl ifanc sy'n hyderus bod yr heddlu yn ymdrin â chwynion yn deg
- y gyfran o'r cyhoedd o gefndir du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig sy'n ymwybodol ohonom

Rydym yn ymgymryd ag arolygon o aelodau'r cyhoedd yn rheolaidd i asesu eu canfyddiadau ac ymwybyddiaeth o'r heddlu, system gwynion yr heddlu, a'r IOPC. Mae ein holrheiniwr canfyddiadau'r cyhoedd yn casglu'r data hwn gan ein caniatáu ni i olrhain ein perfformiad drwy gydol y flwyddyn.

Yn 2019/20 cynaliasom dri arolwg ledled Cymru a Lloegr. Dangosodd y canlyniadau bod:

- 52% o bobl ifanc yn hyderus bod yr heddlu yn ymdrin â chwynion yn deg, mewn cymhariaeth â 41% yn y flwyddyn flaenorol
- 48% o bobl o gefndir du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig wedi dweud eu bod yn ymwybodol o'r IOPC mewn cymhariaeth â 32% yn y flwyddyn flaenorol

**Dywedasom y byddem yn monitro ac ymateb i:**

**> y gyfran o randdeiliaid sy'n meddwl ein bod yn gwella hyder y cyhoedd yn system gwynion yr heddlu**[10]

[10] Arolwg Rhanddeiliaid 2019

- 28% o randdeiliaid yr heddlu
- 38% o randdeiliaid atebolrwydd yr heddlu
- 30% o randdeiliaid nad ydynt yn heddlu

Mae codi hyder y cyhoedd ac ymgysylltiad yn faes allweddol a gododd rhanddeiliaid fel mater pwysig. Dywedodd rhanddeiliaid wrthym yr hoffent weld yr IOPC yn gwneud mwy i wneud y cyhoedd yn ymwybodol o'r gwasanaeth mae'n ei ddarparu a'r gwaith a wnai. I nifer o bobl, mae hyn yn cynnwys gwneud y broses gwyno yn symlach. Yn ogystal, roedd rhanddeiliaid nad ydynt yn heddlu eisiau ymgysylltu fwy gyda chymunedau penodol sy'n fwy tebygol o ddod i gysylltiad â'r heddlu.

> ***"Gallaf weld newidiadau sylweddol yn y ffordd maent yn gweithredu, yn nhermau ymarferol o ran prydlondeb sydd wedi bod yn broblem yn y gorffennol. Hefyd, gyda strategaeth gyfathrebu fwy aeddfed a meddylgar, yn y ffordd maent yn ymgysylltu â deialog cyhoeddus ond hefyd deialog gyda'r gwasanaeth."*** - Rhanddeiliad yr heddlu

> **y gyfran o gwynion a dderbyniwyd gan aelodau o'r cyhoedd o gefndir du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig**

Bydd ystadegau blynyddol cwynion yr heddlu 2019/20 ar gyfer Cymru a Lloegr yn cael eu cyhoeddi hydref 2020 ac felly nid ydynt ar gael i'w cynnwys yn yr adroddiad hwn.

> **y gyfran o gwynion a dderbyniwyd gan bobl ifanc**

Bydd ystadegau blynyddol cwynion yr heddlu 2019/20 ar gyfer Cymru a Lloegr yn cael eu cyhoeddi hydref 2020 ac felly nid ydynt ar gael i'w cynnwys yn yr adroddiad hwn.

## Blaenoriaeth: Bod yn sefydliad effeithlon ac effeithiol

**YR HYN FYDDWN NI'N EI WNEUD**
Byddwn yn denu a chadw gweithlu amrywiol a hynod fedrus ac yn rhoi amgylchedd gwaith da iddynt gan wella yn barhaus i gynnig gwerth am arian.

**YR HYN YR YDYM YN GOBEITHIO EI GYFLAWNI**
Ein gweithlu hynod fedrus, amrywiol yn cyflawni gwasanaeth rhagorol, sy'n cynnig gwerth am arian.

**SUT Y BYDDWN YN MESUR EIN CYNNYDD**
Byddwn yn anelu at:

- godi ein sgôr ymgysylltiad staff i 63% (fel y mesurir gan ein harolwg staff blynyddol)
- sicrhau bod 70% o'n hymchwilwyr yn cael achrediad cyn pen 24 mis
- cynnal trosiant staff rhwng 8 - 10%
- peidio â mynd dros lefel absenoldeb salwch staff o 3%

Byddwn yn monitro ac yn ymateb i:

- y gyfran o'n pobl, gan gynnwys rheolwyr ac arweinwyr, o gefndir du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig
- y gyfran o ymgeiswyr o gefndir du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig sy'n cael eu rhoi ar restr fer i gael cyfweliad

Fel sefydliad sy'n cael ei ariannu yn gyhoeddus rhaid i ni ddefnyddio ein hadnoddau yn effeithiol i gyflawni'r effaith mwyaf a chynnig gwerth am arian i ddefnyddwyr gwasanaeth a threthdalwyr. Rydym yn parhau i wella'r ffordd yr ydym yn gweithio, gan chwilio am arbedion a ffyrdd o gyflawni ein gwasanaethau gan ddefnyddio technoleg fodern i gefnogi gwelliannau.

Ein huchelgais yw i'r IOPC fod yn lle gwych i weithio. Rydym yn sefydliad pobl gyda ffocws clir ar sut mae ein staff yn cael eu cefnogi a'u hymgysylltu fel y gallant gyflawni eu potensial llawn yn gweithio gyda ni.

Mae denu a chadw gweithlu hynod fedrus, amrywiol a sicrhau bod ein staff yn cael yr hyfforddiant a'r cyfleoedd datblygu cywir yn ffocws pwysig i'n gwaith.

Rydym eisiau i'n staff weithio mewn amgylchedd cynhwysol sy'n eu caniatáu nhw i ffynnu a chyflawni eu potensial, a gwyddom er mwyn i'r cyhoedd gael hyder yn ein gwaith, rhaid i'n staff adlewyrchu'r poblogaethau amrywiol yr ydym yn eu gwasanaethu.

# Ein gwaith yn 2019/20

## Denu a chadw talent

Er mwyn i'n pobl adlewyrchu'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu yn well, dechreuasom ar waith i ddiwygio ein polisi recriwtio, gan sicrhau bod ffocws ar ddenu a recriwtio cydweithwyr o gymunedau amrywiol. Yn ystod y flwyddyn, cawsom statws arbenigwr mewn materion du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig i gefnogi recriwtio a mentrau eraill mewn perthynas â chefndiroedd du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.

Mae ein gwaith yn creu a gweithredu strategaeth rheoli talent newydd i helpu i gefnogi ein holl bobl i ddatblygu a dangos cynnydd yn mynd rhagddo.

## Datblygu a chefnogi ein pobl

Mae ymgysylltiad cyflogeion yn cael ei siapio drwy brofiad yn y gwaith. Mae ymgysylltiad cyflogeion uwch yn gysylltiedig â pherfformiad sefydliadol uwch, cyfraddau is o salwch, a lefelau uwch o hapusrwydd.

Mae ein harolwg staff blynyddol yn defnyddio fframwaith y Gwasanaeth Sifil ac yn ein caniatáu ni i gymharu canlyniadau gyda'r Gwasanaeth Sifil ehangach. O'r 30 categori a fesurwyd yn 2019, dangosodd 21 welliannau ystadegol arwyddocaol, ac mewn rhai achosion gwelliant o dros 25%. Roedd gwelliannau nodedig yn cynnwys dealltwriaeth o amcanion cyfundrefnol a diben a mesuriadau mewn perthynas â gwaith pobl.

Mae ein perfformiad mewn nifer o gategorïau bellach yn unol â thimau perfformiad uchel y Gwasanaeth Sifil. Cawsom hefyd gyfradd ymateb o 80% i'n harolwg eleni, yn erbyn cyfartaledd y Gwasanaeth Sifil o 67%.

Bu i ni gynghori ar broses rheoli perfformiad newydd a gwnaethom ddiwygio ein proses recriwtio yn seiliedig ar broffiliau llwyddo'r Gwasanaeth Sifil.

Rhoddasom bwyslais enfawr ar lesiant, gan gyflwyno strategaeth newydd, darpariaeth iechyd galwedigaethol newydd, gwiriadau iechyd i staff a mwy o gefnogaeth i'n Model Cynorthwyo Cyflogeion gyda Phryder a Thrawma (STREAM).

Gwnaethom ail-drefnu ein tîm Pobl i wella presenoldeb rhanbarthol a chyflwyno partneriaid busnes i weithio'n agosach gyda rheolwyr y rheng flaen. Yn ogystal, bu i ni recriwtio Rheolwr Cyflawni Cydraddoldeb i weithio ar ein Cynllun Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynwysoldeb, sy'n bwyslais enfawr ar gyfer 2020/21.

Adolygasom sut yr ydym yn darparu dysg a datblygiad i alluogi ein pobl i gymryd rheolaeth ar eu datblygiad personol a phroffesiynol a sicrhau bod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth gyfredol y mae arnynt eu hangen i wneud y gwaith. Bu i hyn fod yn sail i ddatblygiad system rheoli dysg newydd, a fydd yn cael ei lansio yn 2020/21.

Mae dyddiau Dysg i Weithred yn rhaglenni un diwrnod sy'n galluogi staff i ddysgu sgiliau newydd i gefnogi eu dysg a'u datblygiad. Eleni, roedd y dyddiau yn canolbwyntio ar weithdai ynglŷn â'r system rheoli dysg newydd, sgyrsiau datblygiad cynhyrchiol, a sut gall datblygu ffordd o feddwl ar sail twf eich helpu chi i wneud y mwyaf o'ch dysg. Roedd pynciau dysgu bach yn cynnwys proffiliau llwyddo, rhwydweithiau staff, siarad yn ddylanwadol a'n rheolaeth o wybodaeth. Cafodd dyddiau Dysg i Weithred eu cyflwyno'n llwyddiannus yn ein swyddfeydd yn Wakefield, Canary Wharf, Birmingham a Croydon.

Yn sgil ein gwaith i adnewyddu ein system arfarnu i ddarparu adborth effeithiol i'n pobl ynglŷn â'u perfformiad, rydym wedi paratoi i'n rhaglen DRIVE newydd gael lansiad peilot yng ngwanwyn 2020. Mae'r system newydd yn canolbwyntio ar sgyrsiau rheolaidd sy'n helpu staff i deimlo'n ymgysylltiedig, gwerthfawr ac wedi'u cymell, yn ogystal ag wedi'u grymuso i fod yn gyfrifol am eu datblygiad eu hunain. Yn ogystal, mae hyn yn cefnogi rhagor o gynhyrchedd ac yn cynorthwyo gyda chynllunio dilyniant. Yn dilyn y peilot, bydd y rhaglen yn cael ei gyflwyno ar draws y sefydliad cyfan.

Roeddem yn canolbwyntio'n gryf ar ymgysylltiad i fewnosod ein gwerthoedd yn ein gwaith ac yn ystod y flwyddyn gwnaethom lansio Siarter Arweinyddiaeth, sy'n amlinellu ymrwymiad ein huwch reolwyr i fyw ein gwerthoedd ar waith. Roedd hyn yn cyd-fynd â gwaith y llynedd ar ddatblygu ein gwerthoedd.

Roedd canlyniadau ein harolwg staff 2019 yn dangos bod 96% o ymatebwyr yn gyfarwydd â gwerthoedd/ diben/ cenhadaeth yr IOPC - 9% yn uwch na meincnod y Gwasanaeth Sifil a chynnydd o 9% ar y flwyddyn flaenorol. Roedd 85% o ymatebwyr yn teimlo bod eu rheolwyr yn agored i'w syniadau.

## Bod yn arloesol

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom lansio ein rhaglen arloesi newydd i gefnogi cydweithwyr ar draws y busnes i wneud newidiadau a gwelliannau i'n prosesau. Mae hyn yn hwyluso agweddau mwy hyblyg i syniadau ac annog perchnogaeth leol.

Yn ogystal, rydym wedi datblygu strategaeth gyfathrebu fewnol newydd, sy'n canolbwyntio ar sicrhau bod ein pobl yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt mewn modd ac ar fformat sy'n addas iddyn nhw.

## Mwy effeithlon ac effeithiol

Yn ystod y flwyddyn, datblygasom gynllun effeithlonrwydd strategol, i sicrhau ein bod yn gallu parhau i gyflawni gwerth am arian a byw o fewn ein modd.

Bu i'n rhaglen waith TGCh ar gyfer 2019/20 osod y sylfeini i drosglwyddo'n llyfn i ffyrdd newydd o weithio wrth i ni symud drwy gamau olaf ein cytundeb gyda'n prif ddarparwr TGCh cyfredol. Bydd ein model gweithredu newydd yn cyfrannu'n sylweddol at ein targed effeithiolrwydd ariannol. Bydd hefyd yn caniatáu i'n gwasanaeth TGCh fod yn fwy hyblyg ac ymatebol i anghenion y busnes drwy ddefnyddio cyfuniad o gytundebau byrrach a staff mewnol.

Dechreuasom gynllunio sut fydd y swyddogaeth TGCh newydd yn gweithredu o ganlyniad i'r trawsnewidiad hwn drwy adolygu'r galluoedd sydd eu hangen ar gyfer darpariaeth ac uno'r rhain gydag anghenion ein rhanddeiliaid. Mae gwaith wedi parhau i ddod â mwy o wasanaethau yn fewnol a chaffael eraill. Ar yr un pryd, rydym wedi cwblhau ein trosglwyddiad oddi wrth wasanaethau teleffoni hen ffasiwn, gan roi mwy o gyfleoedd i'n staff weithio o bell a gweithio gartref. Bu i'r rhaglen lwyddiannus hon alluogi gwaith effeithiol yn ystod camau cynnar pandemig Covid-19.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i gynllunio a gweithredu newidiadau i'n strategaeth ystadau, gan gynnwys adnewyddu ein swyddfeydd i hyrwyddo gweithio hyblyg, doethach.

**Cwynion amdanom ni**

Mae ein staff yn gweithredu mewn amgylchiadau anodd ac mae nifer o'r rheiny sy'n cysylltu â ni yn ymdrin â digwyddiadau ingol. Er gwaethaf ein hymdrechion gorau, weithiau gall pethau fynd o chwith ac mae gennym weithdrefn gwynion, sy'n nodi sut byddwn yn rheoli hyn.

Yn ystod 2019/20 cawsom 351 o gwynion mewn cymhariaeth â 393 o gwynion y llynedd. Cadarnhawyd 56 o gwynion gennym ac rydym yn dal i ymchwilio i 25 ar ddiwedd y flwyddyn. Bu i ni ymdrin â 263 o gwynion cyn pen 20 diwrnod gwaith a'n hamser ymateb cyfartalog oedd 21 diwrnod gwaith.

Nid oes unrhyw gwynion wedi'u cadarnhau yn erbyn y Cyfarwyddwr Cyffredinol, Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol nac ein cyfarwyddwyr anweithredol ar hyn o bryd.

Pan mae'n briodol, caiff dysg o'n cwynion ei rhannu o fewn ein sefydliad, fel rhan o brosiect ehangach i adnabod, cofnodi a rhannu dysg yn effeithiol, a helpu i siapio a gwella gwasanaethau'r dyfodol.

Ein tîm Cwynion ac Adborth sy'n cael y cwynion ynglŷn â'r IOPC ac yn ymdrin â nhw yn unol â'n Polisi Cwynion ac Adborth. Caiff cwynion ynglŷn â'n gwasanaeth eu hasesu dan y polisi cwynion ac adborth, a phan mae'n briodol, cânt eu hanfon at y rheolwr/rheolwyr llinell sy'n gyfrifol am yr aelod o staff sy'n destun i'r gŵyn. Gofynnir i'r rheolwr/rheolwyr adolygu'r gŵyn ac ymateb cyn pen targed o 20 diwrnod gwaith.

Pan fyddwn yn asesu cwyn yn ddigon difrifol, byddwn yn ymchwilio yn unol â Pholisi Disgyblu a Diswyddo yr IOPC. Yna caiff y canlyniad ei adolygu gan yr uwch reolwr priodol er mwyn penderfynu ar y camau gweithredu mwyaf perthnasol. Pan mae cwyn yn ymneud â'n Safonau Gwasanaeth a gallwn wneud yn well, gwneir cofnod a chymerir cam(au) gweithredu priodol.

Caiff cwynion yn erbyn y Cyfarwyddwr Cyffredinol, yr Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol a'r cyfarwyddwyr anweithredol eu trin dan Bolisi cyflwyno cwynion ynglŷn â Chyfarwyddwr Cyffredinol yr IOPC, yr Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol a'r Cyfarwyddwyr Anweithredol. Mae'r cwynion hyn yn cael eu rheoli gan Bennaeth y Swyddfa Breifat. Byddant yn neilltuo'r gŵyn i'r unigolyn priodol o fewn yr IOPC i ymdrin â hi i ddechrau yn unol â'r polisi.

Yn ystod 2019/20 cawsom bedair cwyn, tair mewn perthynas â'r Cyfarwyddwr Cyffredinol ac un gŵyn mewn perthynas â chyfarwyddwr anweithredol. Mae hyn yn cymharu â dwy gŵyn (Cyfarwyddwr Cyffredinol) ar gyfer y flwyddyn flaenorol. Ni chadarnhawyd yr un o'r cwynion hyn. Bu i ni ymdrin â 3 cwyn cyn pen 20 diwrnod gwaith a'n hamser ymateb cyfartalog oedd 32 diwrnod.

## Asesu ein perfformiad yn erbyn y flaenoriaeth hon

**Yn ystod 2019/20 ein nod oedd:**

**> codi ein sgôr ymgysylltiad staff i 63% (fel y mesurir gan ein harolwg staff blynyddol)**

Mae ymgysylltiad cyflogeion yn cael ei siapio drwy brofiad yn y gwaith. Mae ymgysylltiad cyflogeion uwch yn gysylltiedig â pherfformiad cyfundrefnol uwch, cyfraddau is o salwch, a lefelau uwch o hapusrwydd. Eleni ein sgôr ymgysylltiad staff cyffredinol oedd 65%, cynnydd ar 59% yn 2018 ac y tu hwnt i'n targed o 63%.

**> sicrhau bod 70% o'n hymchwilwyr yn cael achrediad cyn pen 24 mis**

Llwyddodd 77 o'n hymchwilwyr i gael achrediad eleni; 82% (63) ohonynt cyn pen 24 mis. Bu i hyn fynd y tu hwnt i'n targed o 70% ac yn welliant ar y 48% (25 o 52) a

gyflawnwyd yn 2018/19. Cymerodd 14 o ymchwilwyr yn hirach na 24 mis i gwblhau eu hachrediad, mewn cymhariaeth â 27 y llynedd.

**> cynnal trosiant staff o rhwng 8-10%**

Yn ystod 2019/20 ein nod oedd cynnal ein trosiant staff o rhwng 8-10%. Ar gyfer y rhan fwyaf o'r flwyddyn, roedd y trosiant yn is na phen isaf y targed. Ar gyfer y flwyddyn ar y cyfan, roedd 5.77% yn is na'r trosiant o 9.35% a welsom y llynedd.

**> peidio â mynd dros lefel absenoldeb salwch staff o 3%**

Yn 2019/20 roedd absenoldeb salwch staff yn 2.8%, sy'n golygu ein bod wedi cyflawni ein nod o gadw'r absenoldeb yn is na 3%. Roedd yn is na chyfradd absenoldeb 2018/19 o 3.02%.

**Dywedasom y byddem yn monitro ac ymateb i:**

**> y gyfran o'n pobl, gan gynnwys rheolwyr ac arweinwyr, o gefndir du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig**

Yn 2019/20, roedd 16% o'n pobl o gefndiroedd du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Roedd hyn yn gynnydd bach ar y 15% yn 2018/19. Mewn niferoedd gwirioneddol, mae hyn yn gynnydd o naw unigolyn ar y llynedd, o 159 i 168.

**> y gyfran o ymgeiswyr o gefndir du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig sy'n cael eu rhoi ar restr fer am gyfweliad**

Ar hyn o bryd, rydym yn gweithredu system olrheinio ymgeiswyr newydd sy'n ein caniatáu ni i olrhain amrywiaeth ym mhob cam o'r broses recriwtio. Bydd hyn yn ein galluogi ni i ddatblygu mesurau mewn perthynas â recriwtio pobl o gefndiroedd du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ac adrodd ar y rhain.

# Ein gwaith yng Nghymru

Mae'r IOPC yn gweithio ar draws Cymru, gyda'r un cyfrifoldebau ar gyfer heddluoedd Cymru a Lloegr.

Drwy ymgysylltiad rheolaidd â'r ddau heddlu a'r sector plismona yn ehangach, yn cynnwys HMICFRS, Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r Gwasanaeth Prawf, rydym wedi canolbwyntio ar adnabod a rhannu dysg o'n gwaith i wella plismona yng Nghymru.

Mae ein Cyfarwyddwr Cymru, Catrin Evans, yn siarad Cymraeg ac wedi cynrychioli'r IOPC yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng ngogledd Cymru fis Awst 2019, yn ogystal ag yng nghynhadledd flynyddol y Gyfadran Feddyginiaeth Fforensig a Chyfreithiol (Mai 2019). Yn ogystal, mae hi wedi cyflwyno ar gam-drin domestig ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Mae'r IOPC yn parhau i fod yn ymrwymedig i fodloni ei gyfrifoldebau dan *Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993* a Mesur y Gymraeg 2011. Rydym yn amodol i safonau'r Gymraeg ac yn cael cyswllt rheolaidd â Chomisiynydd y Gymraeg i sicrhau bod ein darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn addas. Yn ogystal, rydym wedi comisiynu gwersi Cymraeg i staff yn ein swyddfa yng Nghaerdydd, cyfle mae sawl un wedi manteisio arno.

Fis Hydref 2019, cynhaliodd ein Cyfarwyddwr Cymru yr ail gynhadledd IOPC Cymru flynyddol yn seiliedig ar Blismona Ffyrdd Gweithredol a Gweithdrefnau Ar Ôl Digwyddiad. Agorwyd y gynhadledd gan Pam Kelly, Prif Gwnstabl Heddlu Gwent, a chroesawom ymchwilwyr damweiniau a staff y rheng flaen a rannodd eu tystiolaethau personol.

## Ein cyfrifoldebau am sefydliadau nad ydynt yn heddlu

Rydym yn gyfrifol am y ffordd y mae rhai cwynion penodol ynglŷn â sefydliadau nad ydynt yn heddlu yn cael eu trin. Mae hyn yn cynnwys:

- cwynion difrifol yn erbyn yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (NCA), yn cynnwys cwynion mewn perthynas ag elw gweithgaredd troseddol
- rhai mathau o gwynion difrifol yn erbyn staff y Swyddfa Gartref sy'n cyflawni rhai swyddogaethau ffiniau a mewnfudo (gan gynnwys yn erbyn staff dan gontract gan y Swyddfa Gartref i gyflawni rhai swyddogaethau ar ei rhan)
- cwynion difrifol yn erbyn staff Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM)
- pobl yn gweithredu fel swyddogion atal cam-drin llafur (swyddogion LAPO) yn Awdurdod Gangfeistri a Cham-drin Llafur (GLAA)

Ar ôl derbyn atgyfeiriad neu gŵyn, rydym yn asesu a ydym am ymchwilio i'r mater. Gallwn benderfynu nad oes angen i'r achos gael ei drin dan y rheoliadau, ac yna gall y sefydliad ymdrin ag o drwy ei brosesau mewnol neu beidio â chymryd unrhyw gamau pellach.

Ein nod yw i'r sefydliadau hyn ddysgu oddi wrth ein gwaith a gwella eu harferion o ganlyniad.

## Ymchwiliadau ac apeliadau yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (NCA)

Rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020 cawsom 11 o atgyfeiriadau gan yr NCA-cafodd naw eu hanfon yn ôl at yr NCA ar gyfer ymchwiliad lleol ac atgyfeiriwyd dau yn ôl i'r NCA i ymdrin â nhw.

Bu i ni gwblhau pum apêl ymchwiliad NCA yn ystod 2019/20. Cafodd dwy eu cadarnhau, dwy heb eu cadarnhau ac roedd un yn annilys. O'r 13 apêl heb eu cofnodi y gwnaethom eu cwblhau, cafodd pedair eu cadarnhau, ni chadarnhawyd saith ac roedd dwy yn apeliadau annilys.

## Ymchwiliadau ac apeliadau staff ffiniau a mewnfudo'r Swyddfa Gartref

Rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020 cawsom ddeg atgyfeiriad gan y Swyddfa Gartref:

- cafodd chwech eu hanfon yn ôl at y Swyddfa Gartref am ymchwiliad lleol
- atgyfeiriwyd pedair yn ôl at y Swyddfa Gartref i ymdrin â nhw

Roedd un apêl peidio â chofnodi y Swyddfa Gartref yn annilys.

## Ymchwiliadau ac apeliadau Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM)

Rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020 cawsom 16 atgyfeiriad gan CThEM:

- roedd un yn destun ymchwiliad a oruchwylir
- anfonwyd wyth yn ôl at CThEM ar gyfer ymchwiliad lleol
- atgyfeiriwyd saith yn ôl at CThEM i ymdrin â nhw

O'r ddwy apêl ymchwilio CThEM a gwblhawyd gennym yn, ni chadarnhawyd un ac roedd un yn annilys.

## Gwaith gyda'r Awdurdod Gangfeistri a Cham-drin Llafur (GLAA)

Ni dderbyniwyd unrhyw atgyfeiriadau gan y GLAA yn ystod 2019/20, ac ni chwblhawyd unrhyw apeliadau.

# Adroddiad cynaliadwyedd

Mae'r adran hon yn esbonio effaith bresennol yr IOPC ar yr amgylchedd o ran allyriadau nwyon tŷ gwydr, lleihau gwastraff a'i reoli, defnydd o ddŵr a chaffael cynaliadwy.

Mae hyn yn bodloni gofynion *Canllaw Trysorlys ei MH 2019-20, Adrodd ar Gynaliadwyedd yn y Sector Cyhoeddus.* Nid oes unrhyw gynllun gweithredu bioamrywiaeth gan nad yw'n berthnasol i'n swyddogaethau.

## Ein perfformiad cynaliadwyedd

Amlinellir y dangosyddion perfformiad allweddol yn y tabl isod, a'u cymharu â chanlyniadau ar gyfer y ddwy flynedd ariannol flaenorol lle mae'r ffigyrau hyn ar gael.

Nid oes gwybodaeth am ein defnydd o ddŵr a'r costau ar gyfer ein swyddfeydd yn Birmingham a Croydon. Rydym yn parhau i ymchwilio i ffyrdd y gallwn gasglu rhagor o wybodaeth.

Cyfrifwyd y ffigyrau isod drwy ddefnyddio'r ffactorau trosi a argymhellwyd a gafwyd gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Mae'r rhain wedi'u nodi yn ei Chanllawiau Adrodd ar Gynaliadwyedd. Lle mae gwell gwybodaeth ar gael bellach ar gyfer y cyfnodau adrodd blaenorol, rydym wedi newid y data i adlewyrchu hyn.

| Allyriadau nwyon tŷ gwydr* | | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosyddion anariannol ($tCo2$)** | **Allyriadau gros cwmpas 1** | 265 | 291 | 313 |
| | **Allyriadau gros cwmpas 2** | 737 | 1,020 | 662 |
| | **Allyriadau gros cwmpas 3** | 427 | 385 | 285 |
| | Cyfanswm yr allyriadau | 1429 | 1696 | 1260 |
| **Nwy (kwh)** | | 766,214 | 827,145 | 1,089,547 |
| **Dangosyddion anariannol (kg)** | Cyfanswm y gwastraff | 74,450 | 64,245 | 43,778 |
| | Anfonwyd i dirlenwi | 6,616 | 6,518 | 6,567 |
| | Ailgylchu | 52,167 | 54,219 | 36,771 |
| | Llosgi | 15,667 | 3,508 | 440 |
| | Adfer ynni drwy losgi | - | - | - |
| **Dangosyddion anariannol (m3)** | Defnydd o ddŵr | 29,746 | 11,553 | 6,462 |
| **Dangosyddion ariannol (£)** | Gwariant ar ynni a brynwyd, gan gynnwys teithio | £1,261,964 | £1,223,816 | £1,081,445.37 |
| | Gwariant ar waredu gwastraff, gan gynnwys: | | | |
| | Anfonwyd i dirlenwi | Amh | Amh | Amh |
| | Ailgylchu | £34,716 | £23,957 | £16,685 |
| | Llosgi | - | - | - |
| | Gwariant ar y defnydd o ddŵr | £44,913 | £17,444 | £9,758 |
| **Papur a brynwyd** | A4 (bocsys) | 1,668 | 1,408 | 660 |
| | A3 (bocsys) | 28 | 26 | 14 |

*Mae allyriadau cwmpas 1 yn dod o ffynonellau a berchnogir gan yr IOPC neu a reolir ganddo, megis cerbydau a boeleri.
Mae allyriadau cwmpas 2 yn dod o ynni a ddefnyddiwyd gan yr IOPC, ond a brynwyd gan gyflenwyr allanol, megis trydan.
Mae allyriadau cwmpas 3 yn ymwneud â theithio ar fusnes swyddogol, ond heb gynnwys teithio ar reilffyrdd a theithiau awyr rhyngwladol sydd yn fychan iawn.

## Caffael cynaliadwy

Nod ein Polisi Caffael Cynaliadwy yw sicrhau ein bod yn cyflawni gwerth am arian ar sail bywyd cyfan wrth brynu nwyddau, gwasanaethau, gwaith a chyfleustodau. Mae hyn yn golygu creu buddion nid yn unig i'r IOPC, ond hefyd i'r gymdeithas a'r economi, gan gadw'r difrod i'r amgylchedd mor isel â phosibl. Rydym yn defnyddio contractau fframwaith Gwasanaethau Masnachol y Goron ar gyfer y rhan fwyaf o'n gwaith caffael. Pan fyddwn yn tendro ar gyfer ein gofynion ein hunain, caiff materion cynaliadwyedd eu hystyried ar ddechrau'r prosiect caffael a, lle bo'n briodol, eu cynnwys mewn dogfennau a'u gwerthuso.

## Camau gweithredu i wella ein perfformiad cynaliadwy

Rydym wedi cymryd nifer o gamau yn ystod y flwyddyn i wella perfformiad ein cynaliadwyedd:

- lleihau defnydd o bŵer drwy fewnosod amseryddion ar eitemau trydanol â watiau uchel, disodli lampau â dyfeisiau LED pŵer isel, lle bo hynny'n ymarferol yn economaidd, ac annog staff i ddiffodd teclynnau pan nad ydynt yn cael eu defnyddio
- cysoni'r tymheredd yn ein swyddfeydd fel ei fod o fewn yr arfer orau. Lle mae systemau rheoli adeiladau yn caniatáu, caiff ein gofod ei wresogi ar 19°C a'i oeri ar 24°C. Mae ein swyddfa yn Canary Wharf yn defnyddio cyfleuster oeri am ddim lle bynnag bo hynny'n bosibl ac mae hefyd yn glanhau aer poeth gyda'r nos pan fo tymereddau yn arbennig o uchel
- gweithredu system lle mae ein cyfleusterau gwresogi/oeri yn rhedeg o 8am-6pm bob diwrnod gwaith lle mae hynny'n bosibl
- parhau i annog staff i ailgylchu cymaint â phosibl, gan gynnwys cynyddu'r nifer ac ystod o finiau ailgylchu
- lleihau'r defnydd o bapur drwy barhau i gyflwyno ffyrdd newydd o weithio gyda'n systemau TG, annog argraffu llai o bapur drwy ddarparu gliniaduron
- defnyddio Skype ar gyfer busnes i leihau teithio
- cefnogi'r weithred o gael gwared ar gwpanau tafladwy a thyweli dwylo papur yn ein swyddfa yn Canary Wharf
- cyfrannu 676 o goed gan ddefnyddio'r cynllun Allstar EcoPoint ar gyfer cardiau tanwydd ein cerbydau heddlu

Mae ein cerbydau heddlu yn cyfrannu at allyriadau nwyon tŷ gwydr. Er mwyn lleihau effaith hyn, rydym yn ystyried yr amgylchedd o ddechrau ein proses gaffael. Mae natur ein gwaith ymchwilio yn golygu nad oes dewis heblaw defnyddio cerbydau'n aml. Fodd bynnag, mae teithio sy'n gysylltiedig â gweithgareddau gweinyddol yn cael ei wneud drwy ddefnyddio'r rheilffyrdd a thrafnidiaeth gyhoeddus arall pan fydd hynny'n bosibl.

## Ein strategaeth gynaliadwyedd y dyfodol

Rydym wedi ymrwymo i leihau ein heffaith ar yr amgylchedd yn unol â'r Ymrwymiadau Gwyrddu Llywodraeth (GGC) a byddwn yn parhau â'n hymdrechion i gyfyngu ar allyriadau nwyon tŷ gwydr. Byddwn yn ystyried hyn ym mhob agwedd ar ein gwaith.

Byddwn yn parhau i wella cywirdeb ein data – yn arbennig ein ffigyrau dŵr a gwastraff - a byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid perthnasol i sicrhau bod y data mor fanwl gywir â phosibl. Ein prif ddangosydd perfformiad allweddol yng nghyswllt cynaliadwyedd yw cadw at y GGC a rhoi adroddiadau ar y lefelau a osodir gan Gyfarwyddyd Trysorlys EM. Rydym yn anelu at gadw ein lefel o Co2 a gynhyrchir fesul cyflogai ar ei lefel bresennol neu ei lleihau.

Er ein bod yn parhau â'n prif ffocws ar ddarparu strategaeth gynaliadwyedd, mae angen ystyried sut ydym yn gweithredu, mewn rhai agweddau ar y busnes, lle gellir cael buddion o ran helaethach o'r gweithlu yn dibynnu'n fwy ar gyfathrebiadau digidol, megis Skype ar gyfer busnes, ac sy'n gweithio gartref, sef newidiadau a gyflwynwyd yn sgil pandemig Covid-19.

Michael Lockwood
Cyfarwyddwr Cyffredinol
13 Gorffennaf 2020

# Adran 2: Adroddiad atebolrwydd

## Adroddiad llywodraethu corfforaethol

### Adroddiad y Cyfarwyddwr

Eglurir rôl y Bwrdd Unedol, Pwyllgorau a'r Bwrdd Rheoli yn y datganiad Llywodraethiant mewn man arall yn yr adroddiad hwn.

#### Y Bwrdd Unedol

Dangosir aelodau Bwrdd Unedol 2019/20 yn y tabl isod.

| Enw | Teitl | Nodiadau |
|---|---|---|
| Michael Lockwood | Cyfarwyddwr Cyffredinol | |
| Geoffrey Podger | Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol | |
| Andrew Harvey | Cyfarwyddwr Anweithredol | |
| Bill Matthews | Cyfarwyddwr Anweithredol | |
| Manjeet Gill | Cyfarwyddwr Anweithredol | |
| Catherine Jervis | Cyfarwyddwr Anweithredol | |
| Mary Lines | Cyfarwyddwr Anweithredol | |
| Jonathan Green | Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro, Gweithrediadau | Gadawodd ar 20/12/2019 |
| Tom Whiting | Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol, Gwasanaethau Strategol a Chorfforaethol | |
| Kevin Woodrow | Cyfarwyddwr, Adnoddau | Gadawodd ar 14/04/2019 |
| Kathie Cashell | Cyfarwyddwr, Strategaeth ac Effaith | |

### Y Bwrdd Rheoli

Dangosir aelodau Bwrdd Rheoli 2019/20 yn y tabl canlynol.

| Enw | Teitl | Nodiadau |
|---|---|---|
| Michael Lockwood | Cyfarwyddwr Cyffredinol | |
| Jonathan Green | Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro, Gweithrediadau | Gadawodd ar 20/12/2019 |
| Tom Whiting | Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol, Gwasanaethau Strategol a Chorfforaethol | |
| Kevin Woodrow | Cyfarwyddwr, Adnoddau | Gadawodd ar 14/04/2019 |
| Liz Booth | Cyfarwyddwr, Pobl | |
| Kathie Cashell | Cyfarwyddwr, Strategaeth ac Effaith | |
| David Emery | Cynghorydd Cyffredinol | |

### Cofrestr buddiannau

Mae cofrestr gyda manylion swyddi cyfarwyddwyr neu fuddiannau sylweddol eraill sydd gan aelodau'r Bwrdd Unedol a holl Gyfarwyddwyr yr IOPC ar gael ar ein gwefan. Gellir ei chael yn ysgrifenedig gan Ysgrifennydd Llywodraethu'r IOPC yn 10 South Colonnade, London, E14 4PU.

### Rhyddid gwybodaeth a diogelu data

Mae'r IOPC yn cydymffurfio â *Deddf Rhyddid Gwybodaeth (FOI) 2000,* y *Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data* a *Deddf Diogelu Data 2018.*

Mae gennym dîm hawliau gwybodaeth sydd wedi'i hen sefydlu fel y man cyswllt canolog i brosesu pob cais am wybodaeth. Mae'r tîm yn sicrhau bod pob cais yn cael ei brosesu yn unol â'r rhwymedigaethau statudol presennol, polisïau a gweithdrefnau mewnol. Mae'r tîm hefyd yn darparu cyngor, cyfarwyddyd a chymorth i staff a rheolwyr ynglŷn â phob agwedd ar ryddid gwybodaeth a gwaith diogelu data.

Mae'r tablau isod yn dangos y tueddiadau ym mherfformiad yr IOPC yn erbyn y dyddiadau cau statudol.

*Data ar gyfer blynyddoedd blaenorol wedi'i ddiwygio*[11]

| Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 |
|---|---|---|---|
| Nifer a gwblhawyd | 281 | 229 | 240 |
| Cyrraedd y dyddiad cau statudol | 88% | 94% | 95% |

### Colli data a sicrhau gwybodaeth

Mae Perchnogion Asedau Gwybodaeth yr IOPC yn gyfrifol am reoli a gweithredu asedau mewn cydymffurfiaeth â'n polisïau a sicrhau bod rheolyddion yn eu lle i reoli risgiau yn briodol. Caiff digwyddiadau cysylltiedig â data sy'n cynnwys ein gwybodaeth yn cael ei cholli, dwyn neu ei datgelu'n amhriodol eu hymchwilio gan feysydd busnes. Caiff adroddiadau o'r digwyddiad eu hadolygu gan y tîm diogelu data sy'n penderfynu a ydynt yn bodloni'r trothwy i'w hadrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO). Mae'r Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth yn cael ei friffio'n rheolaidd ar y materion hyn ac ar y risgiau yr ymdrinnir â nhw drwy reolyddion ychwanegol. Mae'r tablau isod yn dangos y tueddiadau ym mherfformiad yr IOPC.

*Data ar gyfer blynyddoedd blaenorol wedi'i ddiwygio*[12]

| Ceisiadau mynediad pwnc | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 |
|---|---|---|---|
| Nifer a gwblhawyd | 148 | 160 | 239 |
| Cyrraedd y dyddiad cau statudol | 67% | 92% | 90% |

| Digwyddiadau cysylltiedig â data | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 |
|---|---|---|---|
| Nifer o ddigwyddiadau a adroddwyd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth | 1 | 2 | 1 |
| Gweithred rheoleiddio sydd ei hangen | - | - | - |

[11] Mae'r data ar gyfer blynyddoedd blaenorol wedi'i ddiwygio oherwydd bod rhagor o ddadansoddi wedi dangos bod rhai o'r achosion wedi'u hagor a'r achosion wedi'u cwblhau wedi'u cyfrif ddwywaith.
[12] Mae'r data ar gyfer blynyddoedd blaenorol wedi'i ddiwygio oherwydd bod rhagor o ddadansoddi wedi dangos bod rhai o'r achosion wedi'u hagor a'r achosion wedi'u cwblhau wedi'u cyfrif ddwywaith.

### Iechyd a diogelwch

Mae'r Pwyllgor Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn darparu trosolwg o weithgareddau iechyd a diogelwch y sefydliad ac yn darparu llwybr i gadarnhau polisïau, prosesau a dogfennau newydd. Rydym yn gweithredu'n hynod ragweithiol mewn perthynas ag iechyd a diogelwch ac rydym yn parhau'n ymrwymedig i sicrhau bod digwyddiadau cyn brined â phosibl. Rydym yn gweithredu strategaethau i sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu o'r digwyddiadau ac y cymerir camau gweithredu i atal digwyddiadau rhag digwydd eto.

Mae'r staff Iechyd a Diogelwch wedi bod yn gweithio i liniaru effeithiau Covid-19 ar ein staff a rhanddeiliaid ers yn gynnar ym mis Chwefror 2020. Mae iechyd, diogelwch a llesiant wedi bod wrth wraidd trefniadau rheolwyr yn ystod y cyfnod hwn nad ydym wedi gweld ei debyg o'r blaen. Mae nifer o aelodau o staff wedi'u heffeithio'n uniongyrchol ac anuniongyrchol gan Covid-19. Rydym wedi gweithio ochr yn ochr â'n holl grwpiau staff i sicrhau bod pob aelod o staff yn cael eu cefnogi a'u galluogi i ddilyn y cyngor a ddarparwyd gan Iechyd Cyhoeddus Lloegr, y GIG, y Prif Swyddog Meddygol a Llywodraeth y DU.

| **Iechyd a diogelwch** | **2017/18** | **2018/19** | **2019/20** |
|---|---|---|---|
| Damwain | 21 | 12 | 11 |
| Digwyddiad | 13 | 8 | 2 |
| Bron â digwydd | 15 | 10 | 3 |
| **Cyfanswm y digwyddiadau** | **49** | **30** | **16** |

### Ymchwil a gwerthuso

Mae ein rhaglenni ymchwil a gwerthuso yn gweithio i wella system gwynion yr heddlu, drwy gefnogi gwaith adolygu canllawiau statudol ac adroddiadau dysgu i heddluoedd, ymchwil i hyder y cyhoedd a rhanddeiliaid, drwy gasglu adborth gan ddefnyddwyr a chynnal astudiaethau thematig gyda meysydd sy'n peri pryder. Yn ystod y flwyddyn, cynhyrchiasom ystadegau cenedlaethol am farwolaethau yn ystod neu yn dilyn cyswllt â'r heddlu, monitro ymwybyddiaeth a hyder y cyhoedd yn system gwynion yr heddlu a chasglu adborth gan ystod o randdeiliaid a defnyddwyr gwasanaeth i gefnogi gwelliannau yn narpariaeth y gwasanaeth a bod yn sail iddynt.

### Rhoddion elusennol

Bu i'n staff drefnu digwyddiadau codi arian i gefnogi ystod o elusennau. Yn ogystal, rhoddodd staff roddion ariannol personol i elusennau o ganlyniad i'r rhoddion a gafwyd yn 2019/20. Mae'r rhain wedi'u cyhoeddi yn y gofrestr Rhoddion a Lletygarwch sydd ar ein gwefan.

## Caffael

Rhoddir dirprwyaeth gaffael gan y Swyddfa Gartref ar y sail bod arfer orau yn cael ei dilyn, y gwerth gorau yn cael ei sicrhau a'n bod yn cydymffurfio â pholisïau caffael y Swyddfa Gartref a gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol perthnasol. Ar gyfer y rhan fwyaf o gategorïau gwariant, rydym yn defnyddio fframweithiau Gwasanaethau Masnachol y Goron ac ar gyfer gwasanaethau cyfreithiol, rydym yn defnyddio fframweithiau Siambr.

Mae'r tabl isod yn darparu dadansoddiad o'r llwybrau caffael yn ôl canran gwerth y cytundeb ar gyfer 2019/20 a'r blynyddoedd blaenorol. Roedd cynnydd yn y contractau 'Siambrau' a ddyfarnwyd mewn cymhariaeth â'r llynedd oherwydd ein bod wedi caffael hyfforddiant arbenigol ynglŷn â deddfwriaeth newydd.

| Llwybr caffael | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 |
|---|---|---|---|
| Siambrau | 32% | 3% | 7% |
| Gwasanaethau Masnachol y Goron | 56% | 53% | 62% |
| Arall | 12% | 44% | 31% |

## Ystadau

Mae'r strategaeth ystadau yn nodi rhaglen i wneud y defnydd gorau o'n heiddo presennol neu symud i eiddo sector cyhoeddus arall neu hyb llywodraeth.

Ar ôl symud i Canary Wharf fis Mehefin 2018, rydym wedi bod yn ystyried gweddill ein hystâd ar sail achos wrth achos, gan gynnwys gwersi a ddysgwyd wrth symud i Canary Wharf. Mae achosion busnes i aros yn ein swyddfeydd yng Nghaerdydd, Birmingham a Wakefield wedi'u cymeradwyo gan Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth ac rydym wedi gwella amgylcheddau swyddfeydd Birmingham a Wakefield gan ddefnyddio egwyddorion o'r rhaglen Hybiau i annog gweithio'n ddoeth.

Yn seiliedig ar weithwyr amser llawn, mae ein swyddfeydd o fewn meincnod y llywodraeth o 8 fesul metr sgwâr ond rydym wedi gweld cynnydd mewn gweithio gartref a gweithio o bell, a fydd yn cael eu hystyried ym mhenderfyniadau ystadau yn y dyfodol.

| Costau rhedeg £ | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 |
|---|---|---|---|
| Fesul aelod o staff llawn amser | 5,436 | 5,667 | 4,330 |

### Talu i gyflenwyr

Mae'r IOPC yn glynu wrth Safon Cyflawni Perfformiadau Taliadau Da yn Nhrafodion Masnachol Prydain (BS 7890). Ein nod yw talu'r holl anfonebau dilys yn unol â thelerau cytundeb neu 30 diwrnod ar ôl derbyn anfoneb ddilys lle nad oes telerau wedi'u cytuno. Mae'r tabl isod yn dangos y tueddiadau yn nhaliadau cyflenwyr yr IOPC.

| Talu cyflenwyr | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 |
|---|---|---|---|
| Talwyd cyn pen 10 diwrnod | 87% | 92% | 90% |
| Talwyd cyn pen 30 diwrnod | 96% | 99% | 99% |

### Alldro

Mae'r IOPC yn atebol i San Steffan am ei wariant drwy'r Swyddfa Gartref. Mae'r Swyddfa Gartref yn ystyried ein cynlluniau gwariant ac yn rhoi cymorth grant yr ydym yn ei dynnu i lawr yn ystod y flwyddyn yn ôl y gofyn.

Dengys y tabl isod sut ddefnyddiasom ein hadnoddau yn ystod y flwyddyn o'u cymharu â'r ddwy flynedd ddiwethaf. Bu i'n gwariant adroddedig ar ystadau ostwng yn ystod 2019/20 oherwydd ein bod wedi trafod gostyngiadau i gostau a wnaed ym mlynyddoedd blaenorol.

| Gwariant net cynhwysfawr £m | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 |
|---|---|---|---|
| Staff | 49.4 | 48.2 | 50.9 |
| TG | 8.6 | 9.6 | 8.5 |
| Ystadau | 5.6 | 5.6 | 4.3 |
| Costau eraill | 6.1 | 5.4 | 5.4 |
| Colledion/(enillion) anariannol ac actwaraidd | 4.8 | 3.7 | 5.0 |
| **Cyfanswm** | **74.5** | **72.5** | **74.1** |

### Gwariant cyfalaf

Yn ystod y flwyddyn ein prif bryniadau oedd ar gyfer datblygiadau i'r systemau TGCh yr ydym yn eu defnyddio ar gyfer ymchwiliadau ac apeliadau, gweinyddion newydd a chyfarpar cyffelyb.

Dengys y tabl isod ein gwariant cyfalaf o'i gymharu â'r ddwy flynedd ddiwethaf.

| **Gwariant cyfalaf £m** | **2017/18** | **2018/19** | **2019/20** |
|---|---|---|---|
| Eiddo, offer a chyfarpar | 4.3 | 1.7 | 1.9 |
| Anniriaethol | 1.5 | 1.4 | 0.2 |
| **Cyfanswm** | **5.8** | **3.1** | **2.1** |

### Tueddiadau gwariant

Dengys y tabl isod y tueddiadau gwariant net am bum mlynedd. Yn 2019/20, bu i'r gwariant ar Hillsborough ostwng oherwydd bod angen llai o staff ar gyfer cam datgelu'r ymchwiliad.

| **Gwariant net £m** | **2015/16** | **2016/17** | **2017/18** | **2018/19** | **2019/20** |
|---|---|---|---|---|---|
| Busnes craidd | 52.3 | 61.4 | 66.6 | 65.6 | 67.8 |
| Hillsborough | 12.3 | 11.1 | 7.9 | 6.9 | 6.1 |
| **Cyfanswm** | **64.6** | **72.5** | **74.5** | **72.5** | **73.9** |

## Datganiad o gyfrifoldebau'r swyddog cyfrifyddu

O dan baragraff 17(1) o Atodlen 2 i *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002*, mae'n ofynnol i'r IOPC baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar y ffurf a'r sail a nodir yn y Cyfarwyddyd ar Gyfrifon a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa'r IOPC ynghyd â'i incwm a'i wariant, Datganiad o Sefyllfa Ariannol, a llifoedd arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion *Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth* ac yn benodol:

- dilyn y Cyfarwyddyd ar Gyfrifon a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol, gyda chaniatâd y Trysorlys, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a rhoi polisïau cyfrifyddu priodol ar waith yn gyson;
- llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- nodi a yw'r safonau cyfrifyddu perthnasol fel y nodir yn *Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth* wedi'u dilyn, a datgelu ac egluro unrhyw ymadawiadau materol yn y datganiadau ariannol;
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail cwmni sy'n parhau o ran cyfrifyddu; a
- chadarnhau bod yr adroddiad a'r cyfrifon blynyddol ar y cyfan yn deg, cytbwys a dealladwy a'i fod yn cymryd cyfrifoldeb personol am yr adroddiad a chyfrifon blynyddol a'r penderfyniadau gofynnol i bennu ei fod yn deg, cytbwys a dealladwy.

Ar gyfer y flwyddyn dan sylw, bu i'r Swyddfa Gartref fy neilltuo i, y Cyfarwyddwr Cyffredinol, fel Swyddog Cyfrifyddu'r IOPC. Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, yn cynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, wedi'u nodi yn *Rheoli Arian Cyhoeddus* a gyhoeddir gan Drysorlys Ei Mawrhydi. Mae hyn yn cynnwys cadw cofnodion priodol a diogelu asedau'r IOPC.

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd yr holl gamau y dylwn eu cymryd i wneud fy hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a sefydlu bod archwilwyr yr IOPC yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Hyd y gwn i, nid oes gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni.

**Michael Lockwood**
Swyddog Cyfrifyddu

## Datganiad llywodraethu

### Fframwaith llywodraethu

Mae'r fframwaith llywodraethu yn cynnwys y systemau a'r prosesau y mae'r sefydliad yn cael ei gyfarwyddo a'i reoli drwyddynt. Mae'n caniatáu'r Bwrdd Unedol fel y corff llywodraethu i gyflawni ei swyddogaethau statudol - rhoi trefniadau priodol yn eu lle ar gyfer llywodraethu a rheolaeth ariannol dda (annog defnydd effeithlon ac effeithiol o adnoddau); pennu a hyrwyddo nodau strategol a gwerthoedd yr IOPC; darparu cymorth a chyngor i mi fel y Cyfarwyddwr Cyffredinol i gyflawni fy swyddogaethau; a monitro ac adolygu gwneud swyddogaethau o'r fath. Mae'r fframwaith yn fy nghynorthwyo i fel y Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Bwrdd Unedol i baratoi strategaeth ar y cyd i gyflawni ein swyddogaethau priodol, sy'n cael eu hadolygu'n flynyddol. Mae hefyd yn cynnwys Cod Ymddygiad sydd wedi'i baratoi ar y cyd. Mae hwn yn


ymdrin â'r berthynas rhwng fy swydd i a'r Bwrdd Unedol, y mae'n rhaid iddi adlewyrchu'r egwyddor bod y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn gweithredu'n annibynnol wrth wneud penderfyniadau mewn cysylltiad â chyflawni ei swyddogaethau.

Cynlluniwyd y system lywodraethu, rheolaeth fewnol a rheoli risg i reoli yn hytrach na dileu'r risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion. Gall, felly, ond cyflwyno sicrwydd uchel o effeithiolrwydd, yn hytrach na sicrwydd llwyr.

Rwy'n gweithredu yn unol â Rheolau Sefydlog yr IOPC ac rwy'n atebol i Weinidogion a'r Senedd. Rwyf wedi cael cyfarfodydd gyda'r Ysgrifennydd Cartref a Gweinidog y Wladwriaeth dros Blismona a'r Gwasanaeth Tân drwy gydol y flwyddyn hyd yn hyn. Mae effeithiolrwydd y sefydliad wedi bod yn destun adolygiad rheolaidd yn ystod y cyfarfodydd hyn. Sefydlwyd cyfarfodydd dwyochrog gydag Uned Noddi'r Swyddfa Gartref i drafod materion strategol, cyllidebol a gweithredol. Ni thrafodir unrhyw faterion a allai greu risg i annibyniaeth y sefydliad wrth wneud penderfyniadau gweithredol.

Mae fframwaith rheolaeth fewnol y sefydliad yn seiliedig ar adolygu gwybodaeth reoli yn rheolaidd, gweithdrefnau gweinyddol, gan gynnwys gwahanu dyletswyddau, a system o ddirprwyo ac atebolrwydd. Mae wedi'i ddylunio i reoli risgiau yn effeithiol ac economaidd i gyflawni amcanion.

Cafodd y Bwrdd Unedol gefnogaeth gan ddau Bwyllgor, y ddau wedi'u cadeirio gan Gyfarwyddwr Anweithredol (CA). Dengys y strwythur Llywodraethiant a oedd ar waith yn y cyfnod dan sylw yn y datganiad hwn yn y siart a chaiff ei ddisgrifio yn y tabl isod.




| Fforwm (Amlder) | Cadeirydd | Presenoldeb | Rôl |
|---|---|---|---|
| Bwrdd Unedol | Michael Lockwood (CC) | Aelodau: CC, 6 CA, Dirprwy CC (Gweithrediadau), Dirprwy CC (Gwasanaethau Strategol a Chorfforaethol), Cyfarwyddwr Adnoddau, Cyfarwyddwr Strategaeth ac Effaith<br>Yn bresennol: Cwnsler Cyffredinol, Pennaeth Cyllid, Pennaeth Grŵp Swyddfa Breifat, Ysgrifennydd Llywodraethiant, Prif | Mae'r Bwrdd Unedol yn gyfrifol am gytuno ar strategaethau a chynlluniau a phenderfynu ar ddyraniad adnoddau. Mae cyfarfodydd y Bwrdd Unedol yn galluogi adolygu cyson ar gynlluniau strategol a rhoi adroddiadau ynglŷn â'u cyflawni. Mae'r Bwrdd Unedol hefyd o bryd i'w gilydd yn adolygu'r heriau mewnol ac allanol sy'n wynebu'r sefydliad a sut orau y gall fodloni'r heriau hynny |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Gyfarwyddwr Rhanbarthol | |
| Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Ansawdd | Catherine Jervis (CA) | Aelodau: 3 aelod CA. Catherine Jervis, Bill Matthews a Mary Lines<br><br>Yn bresennol: CC, Dirprwy CC (Gweithrediadau), Dirprwy CC (Gwasanaethau Strategol a Chorfforaethol), Pennaeth Cyllid, Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth (GIAA), Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO), archwilwyr allanol BDO a Nawdd y Swyddfa Gartref (fel arsylwr). Cyfarwyddwyr a staff perthnasol eraill fel sy’n angenrheidiol, yn cynnwys yr Ysgrifennydd Llywodraethiant | Mae’r Pwyllgor Archwilio a Risg yn cefnogi’r sefydliad a’r Swyddog Cyfrifyddu yn ei gyfrifoldebau o ran materion risg, rheoli a llywodraethu, a sicrwydd cysylltiedig. Mae'r Pwyllgor hefyd yn archwilio’r Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol ar ran y Bwrdd Unedol |
| Pwyllgor AD a Chydnabyddiaeth | Andrew Harvey (CA) | Aelodau: 3 aelod CA (Andrew Harvey, Manjeet Gill a Geoffrey Podger)<br><br>Yn bresennol: CC, Dirprwy CC (Gwasanaethau Strategol a Chorfforaethol), Cyfarwyddwr Pobl, | Mae’r Pwyllgor AD a Chydnabyddiaeth yn cytuno, ar ran y Bwrdd, ar y strategaeth dâl a gwobrwyo a chylch cyflog staff blynyddol ac yn cytuno ar gyflwyno’r cylch cyflog i’r Ysgrifennydd Gwladol i’w gymeradwyo. Mae’r Pwyllgor hefyd yn ystyried ac yn cynghori ar gynigion y CC ynglŷn â dilyniant tâl i bob Cyfarwyddwr ac yn gwneud |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Ysgrifennydd Llywodraethiant | argymhellion ar archwiliad tâl cyfartal blynyddol |
| Bwrdd Rheoli | Michael Lockwood (CC) | Aelodau: DG, Cyfarwyddwr Strategaeth ac Effaith, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol Gweithrediadau, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol Gwasanaethau Strategol a Chorfforaethol, Cyfarwyddwr Pobl, Cynghorydd Cyffredinol, | y Bwrdd Rheoli sy’n gyfrifol am ddarpariaeth weithredol o fusnes y sefydliad. Mae’n cyfarfod yn ffurfiol bob mis gyda chyfarfodydd anffurfiol cyson yn wythnosol. Mae’n derbyn adroddiadau rheolaidd ynglŷn â chyllid, perfformiad, cynllunio busnes a risg, i fod yn sail i’w benderfyniadau |
| | | Yn bresennol bob mis: Pennaeth Cyllid, Pennaeth Cyfathrebu, Pennaeth Grŵp Swyddfa Breifat, Prif Gyfarwyddwr Rhanbarthol. Mae presenoldeb yng nghyfarfodydd wythnosol yn amrywio yn dibynnu ar y pwnc dan sylw | |

## Perfformiad y Bwrdd

Daeth y Bwrdd Unedol i fodolaeth ar 8 Ionawr 2018. Mae'r Bwrdd Unedol wedi dechrau'r broses o werthuso ei effeithiolrwydd yn ystod ei ail flwyddyn. Yn unol â'r Rheolau Sefydlog, roedd agendâu a phapurau cyfarfodydd ar gael mewn amrywiaeth o fformatau bum diwrnod cyn y cyfarfodydd. Roedd y papurau yn rhoi digon o wybodaeth a thystiolaeth i wneud penderfyniadau cadarn, gan gynnwys cyfeiriadau at risg, ac unrhyw oblygiadau ariannol, cyfreithiol, rhanddeiliaid allanol, ac amrywiaeth a adnabuwyd.

## Uchafbwyntiau gweithgareddau pwyllgor y Bwrdd

Bydd pwyllgorau'r Bwrdd Unedol yn cyflawni eu cyfrifoldebau drwy dderbyn ac ystyried adroddiadau. Mae'r meysydd allweddol a ystyrir gan y pwyllgorau yn ystod y flwyddyn wedi'u nodi isod.

**Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg**

- Rheolaeth risg strategol
- Cynllun dirprwyaeth ariannol a chyfarwyddiadau ariannol sefydlog
- Archwaeth risg yr IOPC
- Arfer datgelu'r IOPC
- Rheolaeth risg Un Cynllun[13]
- Rhwymedigaethau adrodd sicrwydd gan y swyddog diogelu data
- Cwynion ynglŷn â'r IOPC
- Diweddariad rhaglen TGCh
- Adroddiadau'r archwilwyr mewnol ac allanol
- Adolygiad yr IOPC o ofynion yn erbyn twyll i ddiwallu sicrwydd y Swyddfa Gabinet
- Sicrwydd ansawdd

**Pwyllgor AD a Chydnabyddiaeth**

- Fframwaith asesu newydd - cyflwyno proffiliau llwyddo
- Cytundebau tymor penodedig
- Arolwg Staff Gwasanaeth Sifil
- Cylch cyflog
- Addewidion Arweinyddiaeth
- Rhaglen darpar reolwyr
- Strategaeth lesiant
- Dyddiau Gweithredu Gwerthoedd
- Cost y cymhwyster proffesiynol
- Briffio ar ymadawiadau ansafonol

[13] Lansiodd yr IOPC Un Cynllun fis Ebrill 2019. Mae'n disgrifio'r holl raglenni gwaith allweddol sydd wedi'u hunioni â phedwar nod cyffredinol.

Mae pob pwyllgor yn gwerthuso ei waith ac yn cynhyrchu adroddiad effeithiolrwydd blynyddol.

Dengys y tabl isod bresenoldeb Cyfarwyddwyr gweithredol ac Anweithredol yng nghyfarfodydd y Bwrdd Unedol a Phwyllgorau[14].

| **Presenoldeb Aelodau'r Bwrdd Unedol a Phwyllgorau** | | **Bwrdd Unedol** | **Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg** | **Pwyllgor AD a Chydnabyddiaeth** |
|---|---|---|---|---|
| Michael Lockwood | Cyfarwyddwr Cyffredinol | 11 / 11 | | |
| Geoffrey Podger | Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol | 11 / 11 | | 5 / 5 |
| Bill Matthews | Cyfarwyddwr Anweithredol | 11 / 11 | 4/ 4 | |
| Mary Lines | Cyfarwyddwr Anweithredol | 11 / 11 | 4/ 4 | |
| Manjeet Gill | Cyfarwyddwr Anweithredol | 9 / 11 | | 4 / 5 |
| Andrew Harvey | Cyfarwyddwr Anweithredol | 11 / 11 | | 5 / 5 |
| Catherine Jervis | Cyfarwyddwr Anweithredol | 11 /11 | 4 / 4 | |
| Kathie Cashell | Cyfarwyddwr, Strategaeth ac Effaith | 9 / 11 | | |
| Tom Whiting | Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol (Gwasanaethau Strategol a Chorfforaethol) | 10 / 11 | | |
| Jonathan Green | Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol (Gweithrediadau), Dros Dro (hyd at fis Rhagfyr 2019) | 5 / 8 | | |

[14] Noder bod Ffigwr 3 yn manylu presenoldeb aelodau. Mae'r blychau tywyll yn golygu nad yw'r unigolyn dan sylw yn aelod o'r pwyllgor a restrir. Gall, fodd bynnag, fynychu fel rhan o'i swydd fel Cyfarwyddwr. Mynychais bob cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a phob cyfarfod AD a Chydnabyddiaeth oni bai am un fel rhan o'm swydd fel Cyfarwyddwr Cyffredinol.

## Gwrthdaro buddiannau

Mae Polisi Gwrthdaro Buddiannau'r IOPC yn gofyn i'r holl staff ddatgan unrhyw wrthdrawiadau posibl wrth iddynt godi (noder bod ein Cyfarwyddwyr Anweithredol yn ddarostyngedig i God Ymddygiad Swyddfa'r Cabinet). Yn ogystal, mae staff ymchwiliadau yn cael eu hatal rhag gweithio ar ymchwiliadau lle mae ganddynt fuddiannau blaenorol. Tybir bod ein polisi Gwrthdaro Buddiannau yn gyfatebol â'r risg canfyddedig i'n hamhleidioldeb.

Mae eitem barhaus ar agenda cyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgor yn rhoi cyfle i fynychwyr ddatgan buddiannau o'r fath. Cafodd un buddiant ei ddatgan yng nghyfarfod y Bwrdd Unedol cyn cyflwyniad ar gynnydd ein hymchwiliad Hillsborough. Mae ein Huwch Gyfarwyddwr Annibynnol yn Gyn-brif weithredwr yr Adran Weithredol Iechyd a Diogelwch ac roedd ganddo beth ymglymiad â'r ymchwiliad yn y capasiti hwnnw. Datganwyd buddiant hefyd gan ein Cynghorydd Cyffredinol cyn y cyflwynwyd papur ar "unigolion cyfyngedig" gan yr arferai weithio i'r heddlu cyn ymuno â'r IOPC.

Mae cofrestr buddiannau aelodau'r Bwrdd Unedol, Cynghorydd Cyffredinol, Cyfarwyddwr Cymru a Chyfarwyddwyr Rhanbarthol wedi'i chyhoeddi ar-lein.

## Llywodraethu corfforaethol

Rwyf wedi adolygu'r Cod Llywodraethu Corfforaethol yn adrannau canolog y llywodraeth. Er ei fod wedi'i gyfeirio at adrannau gweinidogol yn hytrach nag at gyrff cyhoeddus anadrannol, mae'r Cod yn darparu arfer orau ar drefniadau llywodraethu corfforaethol. Pan ystyrir eu bod yn berthnasol, mae'r sefydliad wedi cydymffurfio ag egwyddorion y Cod.

## Materion

Fis Mawrth 2020 o ganlyniad i argyfwng Covid-19, gweithredodd yr IOPC ei Gynllun Parhad Busnes a rhoddwyd strwythur gorchymyn brys ar waith. Gwnaethpwyd penderfyniadau strategol ynglŷn â sut fyddai cyfrifoldebau statudol y sefydliad yn parhau i gael eu bodloni a chyflwynwyd arferion gweithio newydd yn gyflym i gefnogi'r penderfyniadau hynny. Gofynnwyd i'r holl staff weithio gartref, ac roedd ein darpariaeth technoleg gwybodaeth yn galluogi hynny, a sicrhaodd bod ein staff yn gallu defnyddio holl systemau'r IOPC o bell, gan gynnwys ein systemau rheoli achosion. Roedd hyn yn caniatáu i waith gweithredol barhau o fewn ffiniau cyfyngiadau'r llywodraeth.

Lansiodd yr IOPC ei Un Cynllun newydd fis Ebrill 2019 i ddwyn ynghyd yr holl raglenni gwaith allweddol wedi'u hunioni â'n pedwar nod cyffredinol, a bydd y llwyddiant yn dibynnu ar reolaeth, adnoddau a chyfathrebu effeithiol. Mae'r gwaith hwn yn cael ei oruchwylio bob mis drwy Bortffolio a Byrddau Rhaglenni ac yn chwarterol yn y Bwrdd Rheoli a'r Bwrdd Unedol.

Angenrheidiol oedd ail-flaenoriaethu'r gwaith sydd wedi'i nodi yn yr Un Cynllun yn ystod y flwyddyn i ymateb i newidiadau deddfwriaethol yn cael eu gweithredu mewn perthynas â Rheoliadau (Ymddygiad) yr Heddlu 2020, a ddaeth i rym fis Chwefror. Mae'r newidiadau wedi'u dylunio i helpu i wneud system gwynion a disgyblu'r heddlu yn fwy effeithlon ac yn haws i'w defnyddio. Bu i'r amser a oedd ei angen i gyflwyno prosesau newydd ar gyfer y newidiadau, gan gynnwys cysylltu â heddluoedd a chryn dipyn o hyfforddiant i staff gweithredol, effeithio ar ddarpariaeth ein rhaglenni gwaith yr oedd gofyn rheoli eu newid yn ystod 2019. Am ragor o wybodaeth fanylach ynglŷn â'r diwygiadau mawrion hyn i system gwynion yr heddlu yng Nghymru a Lloegr, gweler tudalennau 20-22.

Rydym yn ail-gynllunio ein gwaith o ddydd i ddydd i gymryd i ystyriaeth pandemig Covid-19, ond rydym wedi penderfynu cyhoeddi ein Cynllun Busnes heb newidiadau sylweddol, gan gynnwys ein targedau perfformiad. Rydym wedi nodi bod y risg mae Covid-19 yn ei gyflwyno i gyflawni perfformiad a phrosiectau mawr, gyda Dadgyfuno TGCh a Dylunio ar gyfer y Dyfodol - rhaglen i adolygu prosesau gweithredol - o bosibl yn cael eu heffeithio fwyaf.

Mae gwella ansawdd ac amseroldeb ein gwaith yn parhau i ddatblygu ein henw da yn fewnol ac allanol. Mae ein gwaith o drin nifer o achosion proffil uchel dan archwiliad parhaus gan y cyhoedd. Mae gwelliannau sylweddol wedi bod yn amseroldeb ein perfformiad yn ystod y flwyddyn. Mae ein trefniadau rheoli ansawdd dan ragor o ddatblygiad ac mae Panel Achosion Critigol wedi'i gyflwyno.

Bydd cynnal hyder yn system gwynion yr heddlu yn heriol yn y cyfnodau hyn nad ydym wedi gweld eu tebyg o'r blaen. Gwyddom fod rhai cymunedau eisoes yn pryderu ynglŷn â'r heddlu yn defnyddio pwerau brys newydd. Dan yr amgylchiadau hyn, mae'r system gwynion yn bwysicach nag erioed i ddeall ac ymateb i bryderon y cyhoedd a chynnal hyder mewn plismona. Byddwn yn parhau i oruchwylio'r system gwynion, gweithio gyda heddluoedd i sicrhau bod yr holl gwynion yn cael ymateb rhesymol a chymesur a thawelu meddwl rhanddeiliaid cymunedol. Serch hynny, mae'n bosibl y bydd ein henw da yn cael ei effeithio, sy'n deillio'n eang o lefel yr hyder mewn plismona.

Bydd ail-gontractu ein gwasanaeth TGCh yn parhau ar ôl dechrau ein Cyfnod o Gynorthwyo Terfyniad ar ein Cytundeb TGCh fis Rhagfyr 2019. Ymgymerwyd â'n Hymyrraeth Sicrwydd Rhaglen fis Medi 2019 a chyflawnwyd sgôr 'melyngoch'.

## Fframwaith sicrwydd ac asesu risg

Mae fframwaith sicrwydd yr IOPC yn cynnwys yr elfennau canlynol:

- adnabod risgiau yn strwythuredig yn gysylltiedig ag amcanion busnes
- asesu a rheoli risgiau sylweddol
- monitro ac effeithiolrwydd y fframwaith sicrwydd
- adolygu a monitro allanol

Mae'r broses sicrwydd wedi'i dylunio i sicrhau bod yr IOPC yn gallu bodloni ei hun bod trefniadau priodol yn eu lle i reoli risgiau a diogelu system reoli fewnol gadarn - h.y. un sy'n gweithio ac yn effeithiol. Mae fframwaith sicrwydd yr IOPC yn cynnwys cylchred busnes blynyddol sy'n sefydlu amcanion clir i'r sefydliad ac yn adnabod y risgiau i'w cyflawniad.

Wedi i'r IOPC gael ei ffurfio, adnabuwyd blaenoriaethau strategol newydd o gyfuniad o olrhain canfyddiadau'r cyhoedd, cyfarfodydd â rhanddeiliaid a staff, a chysylltiad â Gweinidogion. Arweiniodd hyn at ddatblygu cynnig strategol y cafwyd ymgynghoriaeth eang arno, ac a ddefnyddiwyd wedyn i baratoi'r Un Cynllun cychwynnol, cynllun cynhwysfawr yn cwmpasu'r holl weithgaredd cysylltiedig ar draws y sefydliad.

Yn ogystal, mae proses gynllunio tair blynedd wedi'i chyflwyno, i adnabod a chynllunio'r gwaith sydd ei angen i gefnogi'r blaenoriaethau strategol a gwerthoedd newydd a sefydlwyd gan yr IOPC. Rydym wedi cyflwyno arferion rheoli prosiect gwell ac mae cyfuniad o fyrddau portffolio wedi'u rhoi mewn lle i gefnogi'r strwythur llywodraethu sydd ei angen i weithredu a mewnosod y gweithgareddau a adnabuwyd a chymeradwywyd fel rhan o'r broses gynllunio honno.

Nod fframwaith rheoli risgiau'r sefydliad yw sicrhau bod risgiau sy'n gysylltiedig â chyflawni ei amcanion yn cael eu hadnabod, monitro a'u rheoli. Caiff risgiau eu hasesu ar sail eu heffaith a'u tebygrwydd gan ddefnyddio graddfa y cytunwyd arni gan y Bwrdd Unedol. Cedwir cofrestr risg strategol ac mae pob portffolio o'r Un Cynllun yn y broses o greu cofrestr risg gweithredol, er bod gofyn mwy o waith yn 2020/21. Caiff risgiau a gweithgareddau lliniaru perthnasol eu dynodi a'u hadrodd i'r Bwrdd Rheoli, y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a'r Bwrdd Unedol, yn unol â chylchoedd adrodd y sefydliad.

Yn dilyn datblygiad gan y Bwrdd Rheoli, mae'r Bwrdd Unedol wedi cytuno ar ddatganiadau o archwaeth risg i'r sefydliad. Cytunwyd ar bapur archwaeth risg TGCh gan y Bwrdd Unedol fis Mawrth 2020 o ganlyniad i heriau Covid-19. Bydd rhagor o waith yn cael ei gynnal yn y flwyddyn nesaf i sicrhau bod yr archwaeth risg yn cael ei adlewyrchu'n briodol yng ngweithgareddau rheoli risgiau.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r meysydd risg sydd wedi'u cynnwys yng nghofrestr risg strategol yr IOPC, risgiau aeddfed a'r rheiny sydd wedi'u dynodi yn y flwyddyn adrodd.

| Risg | Lliniariad allweddol | Tuedd risg net |
|---|---|---|
| Hawliadau iawndaliadau sifil: dyfarniad(au) llys yn erbyn yr IOPC, gan gynnwys canfod bod ymchwiliad neu asesiad apêl yr IOPC wedi ymgysylltu ag erthyglau 6 a 8 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a thorri eu hamodau erthyglau; a / neu gamweithredu mewn swyddfa gyhoeddus a ganfuwyd yn erbyn staff/cyn staff/comisiynydd yr IPCC/IOPC | Amseroldeb ymchwiliadau ac asesiadau apeliadau'r IOPC wedi gwella - gan leihau'r posibilrwydd o erthyglau 6/8 yn cael eu torri drwy waith gweithredol yr IOPC | ↓ |
| | Gwneud penderfyniadau technegol yn well gan staff gweithrediadau. Cyngor cyfreithiol technegol gwell gan y tîm Gwasanaethau Cyfreithiol | |
| | Llawlyfr Gweithrediadau Profedig a phrosesau a gweithdrefnau | |
| Achos(ion) proffil uchel yn denu sylw negyddol sylweddol yn y cyfryngau cenedlaethol | Prosesau sicrhau ansawdd mewn gweithrediadau | ↓ |
| | Strategaeth Gyfathrebu | |
| Mae achos difrifol o dorri amod data. Gall hyn fod oherwydd sefyllfaoedd gwahanol, e.e. hacio, colli papurau yn ddamweiniol, staff ddim yn dilyn y broses, torri amodau yn fwriadol er mwyn elwa etc[15] | Hyfforddiant blynyddol i rolau Uwch Berchnogion Risg Gwybodaeth a Pherchnogion Asedau Gwybodaeth. Mae gofyn i'r holl staff ymgymryd â hyfforddiant diogelu data, hyfforddiant diogelwch gwybodaeth a sesiynau briffio diogelwch | ↓ |
| | Prosesau torri amodau diogelwch, yn cynnwys ymchwilio a dysgu'r gwersi yn ôl yr angen | |
| Os nad yw'r IOPC yn cydymffurfio'n llwyr â'r | Swyddog Diogelu Data yn gweithio'n agos â phwynt cyswllt unigol Swyddfa'r | – |

[15] Mae manylion colli data a sicrwydd gwybodaeth wedi'u cynnwys ar dudalen 56 yr adroddiad hwn.

| Risg | Lliniariad allweddol | Tuedd risg net |
|---|---|---|
| Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data newydd, bydd yn agored i her gyfreithiol gan destunau data ac ymchwiliad gan y Comisiynydd Gwybodaeth | Comisiynydd Gwybodaeth, gan roi'r diweddaraf iddo o ran beth ydym yn gweithio arno a chynlluniau ar gyfer y dyfodol<br><br>Strategaeth Wybodaeth newydd wedi'i datblygu fel rhan o Un Cynllun<br><br>Mae'r cynllun tymor canolig / hirdymor i ddatblygu ein system rheoli gwybodaeth wedi'i gynllunio | |
| Mae risg na fydd parhad tystiolaeth yn cael ei gynnal wrth gipio, rheoli a storio arddangosion | Mae arolygiadau o storfeydd yn cael eu cynnal yn rheolaidd fel y nodir yn y polisi trin arddangosion<br><br>Mae Rheolwr Arddangosion cenedlaethol wedi'i recriwtio | |
| Diwylliant sicrwydd gwybodaeth aneffeithiol gyda systemau, prosesau, hyfforddiant a llywodraethu aneffeithiol yn arwain at ddiffyg dealltwriaeth corfforaethol a rheoli'r wybodaeth yr ydym yn ei phrosesu | Strwythur llywodraethu wedi'i sefydlu, yn cynnwys dirprwyo awdurdod drwy'r Cynllun Dirprwyo a sefydlu Bwrdd Sicrwydd Gwybodaeth a chefnogi gweithgorau<br><br>Adnabod y risgiau a chamau lliniaru / gofynion adnoddau fel rhan o'r cynllunio busnes a'u hymgorffori i'r Un Cynllun a berchnogir gan y Bwrdd Rheoli | |
| Methiannau datgelu yn arwain at fethiant cyfundrefnol i gydymffurfio â'n rhwymedigaethau statudol dan *Ddeddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol 1996* a/neu fethiant i ddarparu deunydd datgelu ar gyfer prosesau'r Crwner a chamymddygiad | Mae Prosiect Datgelu wedi'u sefydlu gyda'r nod o drawsffurfio dull gweithredu'r IOPC i reoli datgeliad. Mae tîm y prosiect yn gweithio gydag ystod o randdeiliaid gweithredol i greu mapiau prosesau newydd ar gyfer y tair disgyblaeth sydd ynghlwm â datgeliad gweithredol: Gweithdrefnau Troseddol, Camymddygiad a'r Crwner | |
| Mae'n ansicr a fyddwn yn gallu cyflawni ein Strategaeth os caiff ein cyllid ei leihau'n sylweddol yn dilyn Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr | Rydym yn adnewyddu ein cynllun effeithiolrwydd dwy flynedd ac yn ei ymestyn am flwyddyn ychwanegol, hyd at fis Mawrth 2023, i ddynodi opsiynau arbed tymor byr i dymor canolig. Yn ogystal, rydym yn cynnal cynllunio strategol tymor hirach hyd at fis Mawrth 2025 i ddatblygu ymateb i'r Adolygiad Gwariant | |

| Risg | Lliniariad allweddol | Tuedd risg net |
| --- | --- | --- |
| | Cynhwysfawr. Mae’r gwaith hwn yn cael ei unioni â datblygiad ein Strategaeth newydd i osgoi risgiau cyffelyb yn y dyfodol | |
| Nid yw buddion arfaethedig dadelfennu TGCh wedi’u cyflawni | Uwch Reolwyr Prosiectau wedi’u neilltuo i reoli’r camau sydd ar ôl o ymadawiad SopraSteria Ltd (SSL) ac ail-gontractu ar gyfer gwasanaethau sy’n cael eu darparu drwy’r cytundeb SSL ar hyn o bryd. Rheolwr Ymadael wedi’i benodi hefyd | |
| | Datblygiad un rhaglen TGCh wedi’i oruchwylio gan Fwrdd Rhaglen Digidol | |
| | Adolygiad rheolaidd o’r cynlluniau dadelfennu; bwrdd cytundebau ac ymadawiadau wedi’u sefydlu â SSL | |
| Gall y gweithredu a’r trawsnewidiad i fodloni newidiadau sydd wedi’u cyflwyno gan *Ddeddf Plismona a Throseddu 2017* gynhyrchu cymlethdodau annisgwyl nad ydynt wedi cael ymdriniaeth briodol yn y canllawiau neu’r hyfforddiant | Hyfforddiant a Chanllawiau i holl staff Gweithrediadau | |
| | Cyfreithwyr ym mhob swyddfa i ymateb i ymholiadau cyfreithiol | |
| | Tîm goruchwylio yn gweithio gyda heddluoedd i adnabod materion | |
| Gall yr IOPC barhau i fod mewn cyfnod clo neu yn rhwym wrth fesurau ymbellhau’n gymdeithasol llym yn sgil pandemig Covid-19 am dri-chwe mis | Prosesau gwaith newydd wedi’u sefydlu fel gall gwaith ymchwilio barhau | |
| | Defnyddio Skype ar gyfer cyfarfodydd rhanddeiliaid mewnol/allanol ac i gynnal cyfweliadau recriwtio | |
| | Gwnaethpwyd penderfyniad cychwynnol i ymateb i’r achosion mwyaf difrifol yn gyntaf. Cadwyd hyn dan adolygiad a bellach mae’r holl achosion yn cael eu hymateb yn unol â gweithdrefnau arferol | |

Dechreuwyd ar asesiad risg twyll gan Uned Archwilio Mewnol y Llywodraeth yn chwarter 4, a fydd yn parhau i 2020/21 a bydd profi ar unrhyw feysydd sydd wedi’u dynodi fel risg uchel yn cael ei gynnwys yng nghynllun archwilio mewnol y flwyddyn nesaf.

Mae rheolyddion mewnol yn cael eu datblygu a’u cynnal drwy weithredu polisïau a gweithdrefnau sy’n ddarostyngedig i oruchwyliaeth a chymeradwyaeth gan y pwyllgor perthnasol neu’r Bwrdd Unedol. Ymgymerir ag adolygiad allanol o’r rheolyddion hefyd yn ystod y prosesau archwilio gan yr archwiliad mewnol ac allanol yn eu meysydd arbenigedd priodol. Yn ogystal, rhoddir ystyriaeth fewnol i reolyddion sy’n cael eu heffeithio o bosibl gan newidiadau yn arferion gweithio o ganlyniad i bandemig Covid-19. Bydd unrhyw faterion sylweddol yn cael eu hamlygu i’r Bwrdd Unedol.

**Archwiliad mewnol**

Darperir gwasanaethau archwilio mewnol gan y GIAA o dan gontract o dair blynedd, a adnewyddwyd ar 1 Ebrill 2018. Penodwyd Pennaeth Archwilio Mewnol i’r IOPC fis Rhagfyr 2019.

Mae archwiliadau mewnol ac allanol yn ein cynorthwyo i wella ein gweithdrefnau a’n dulliau rheoli yn barhaus. Cytunir ar gamau gweithredu mewn ymateb i'r argymhellion, ac mae’r rhain yn cael eu holrhain er mwyn sicrhau y cânt eu gweithredu.

Darperir adroddiad monitro ar weithrediad yr argymhellion i bob cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg.

Mae’r tabl isod yn crynhoi’r prif ganfyddiadau ac ymateb rheolwyr yr IOPC i bob un o’r archwiliadau mewnol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn.

| **Archwiliad** | **Prif ganfyddiadau** | **Ymateb rheolwyr** |
|---|---|---|
| Adolygiad o ofynion yn erbyn twyll i fodloni Sicrwydd Blynyddol y Swyddfa Gabinet | Comisiynwyd fel darn ymgynghorol, nid archwiliad ffurfiol ar y cynllun blynyddol. Gwnaethpwyd nifer o argymhellion anffurfiol i gynorthwyo'r sefydliad i fodloni gofynion Swyddfa'r Cabinet | Rydym yn gweithio tuag at gynhyrchu strategaeth a chynllun cynhwysfawr yn erbyn twyll. Yn ogystal, mae ein harchwilwyr mewnol wedi'u comisiynu i gynnal Asesiad Risg Twyll fel y cyfeirir ato uchod |
| Rheolaeth Perfformiad Strategol | Mae gan yr IOPC drefniadau priodol yn eu lle i reoli perfformiad strategol ond mae rhai meysydd lle gellir gwella rheolyddion ymhellach | Sgôr y GIAA oedd Canolig. Cytunwyd ar ddau argymhelliad. Cyhoeddwyd adroddiad terfynol i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg fis Ionawr 2020. Cafodd y ddau argymhelliad eu gweithredu |
| Cyflogres a Threuliau | Mae fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheoli yn ddigonol ac effeithiol. Dyfarnwyd sgôr sylweddol | Mae pedwar argymhelliad blaenoriaeth isel wedi'u cytuno, cyflwynwyd yr adroddiad terfynol i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg fis Ebrill 2020 |
| Recriwtio, Archwilio Cefndir a Sefydlu | Mae gan yr IOPC broses recriwtio sefydledig mewn lle sy'n cynnwys timau recriwtio, archwilio cefndir a sefydlu. Yn ogystal, mae cynlluniau yn eu lle i ddatblygu mwy o allu drwy amrywiaeth o fentrau yn y flwyddyn ariannol gyfredol, gan gynnwys adolygu strategaeth a pholisi recriwtio, a rhagor o waith ar amrywiaeth a chynllunio'r gweithlu | Sgôr y GIAA oedd Canolig. Cytunwyd ar dri argymhelliad â blaenoriaeth ganolig ac un argymhelliad â blaenoriaeth isel, a chyflwynwyd yr adroddiad terfynol i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg fis Ebrill 2020 |
| Cyfryngau Cymdeithasol | Mae'r IOPC yn cydnabod nad yw mor aeddfed â sefydliadau llywodraethol eraill o faint cyffelyb sy'n defnyddio Sianelau Cyfryngau Cymdeithasol Menter o ran llywodraethu, rheoli risgiau a rheolaeth | Sgôr y GIAA oedd Cyfyngedig. Gwnaethpwyd a derbyniwyd pedwar argymhelliad - dau uchel a dau ganolig - a chyflwynwyd yr adroddiad terfynol i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg fis Mehefin 2020 |

## Iechyd a diogelwch

Mae polisïau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch wedi'u cryfhau drwy waith Pwyllgor Gweithredol Iechyd a Diogelwch, a gadeiriwyd gan y Cyfarwyddwr, Pobl. Mae'r Pwyllgor yn goruchwylio'r gwaith o ddynodi newidiadau polisi a gweithdrefnol, cynllunio a gweithredu camau gweithredu.

Mae gwelliannau wedi'u gwneud i ymateb i argymhellion archwiliad mewnol iechyd a diogelwch 2018/19 ac mae rheolwr iechyd a diogelwch cymwys wedi bod yn y swydd gydol y flwyddyn i gyflwyno'r gwelliannau. Gydag argyfwng pandemig Covid-19, y brif flaenoriaeth, cyn belled â phosibl, yw sicrhau iechyd a diogelwch staff yr IOPC. O ganlyniad, cymerwyd nifer o fesurau, gan gynnwys cau swyddfeydd, a gwnaethpwyd penderfyniadau ynglŷn â pha achosion yr heddlu yr oedd ein staff ymchwilio yn ymateb iddynt. Erbyn diwedd y flwyddyn, roedd holl staff yr IOPC yn gweithio gartref ac yn parhau i wneud hynny ar ddechrau'r flwyddyn ariannol newydd, yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth.

## Effeithiolrwydd y Polisi Codi Pryderon

Mae pedwar pryder wedi'u codi dan y polisi Codi Pryderon yn y flwyddyn hyd yn hyn. Mae dau wedi cael ymchwiliad a'u datrys, ac mae dau yn dal i fynd rhagddynt.

## Swyddog Cyfrifyddu

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, mae gennyf gyfrifoldeb personol am gynnal system gadarn o lywodraethu, rheoli mewnol a rheoli risg i gefnogi'r broses o gyflawni swyddogaethau'r sefydliad dan *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002* a deddfwriaeth berthnasol arall, gan ddiogelu'r cronfeydd cyhoeddus ac asedau cyfundrefnol.

Mae fy adolygiad yn rhannol seiliedig ar waith ein harchwilwyr mewnol sydd wedi darparu sicrwydd ar lefel gymedrol yn seiliedig ar y gwaith a wnaed ganddynt. Diffinnir sicrwydd cymedrol ganddynt fel: Mae angen rhai gwelliannau i wella digonolrwydd ac effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheoli.

Rwyf yn cefnogi'r farn hon ac yn credu y byddwn yn parhau i wneud rhagor o welliannau i'r dulliau rheoli wrth symud ymlaen.

**Michael Lockwood**
Swyddog Cyfrifyddu

# Adroddiad cydnabyddiaeth a staff

## Polisi cydnabyddiaeth

Nod yr IOPC yw darparu pecynnau cydnabyddiaeth cystadleuol i recriwtio a chadw staff o safon briodol. Rydym yn gweithredu system gradd 14 a gefnogir gan gynllun gwerthuso swyddi dadansoddol. Mae unrhyw newidiadau i'n polisi tâl neu gylch cyflog yn gofyn cymeradwyaeth ffurfiol gan y Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chydnabyddiaeth.

Rydym yn ddarostyngedig i gyfarwyddyd tâl y Gwasanaeth Sifil a gynhyrchir gan Swyddfa'r Cabinet a Thrysorlys EM ac rydym yn cyflwyno cylch cyflog blynyddol i'r Swyddfa Gartref, sydd o fewn y cyfarwyddyd hwnnw. Mae cydnabyddiaeth i gyfarwyddwyr ar gyfer blynyddoedd cyfredol a blynyddoedd y dyfodol yn glynu wrth waith ac argymhellion y Corff Adolygu Cyflogau Uwch.

## Contractau gwasanaeth

Ar 8 Ionawr 2018 penodwyd Michael Lockwood yn Gyfarwyddwr Cyffredinol gan Ei Mawrhydi'r Frenhines, fel y darperir yn *Neddf Diwygio'r Heddlu 2002* ar argymhelliad yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Adran Gartref.

Y Cyfarwyddwr Cyffredinol sy'n penodi cyfarwyddwyr. Fel arfer nid oes cyfnod penodol i'w contractau ac maent yn derfynadwy gyda hyd at chwe mis o rybudd gan yr IOPC. Byddai terfyniad cynnar i gyfarwyddwyr, am resymau ar wahân i gamymddygiad, yn arwain at dalu iawndal i'r unigolyn o dan Gynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

## Pobl ag anableddau

Mae'r IOPC yn ystyried ceisiadau am swyddi gan bobl ag anableddau mewn ffordd deg a llawn, pan fo natur y swydd yn golygu bod hyn yn briodol. Yn yr un modd, rydym yn ymrwymedig i alluogi unrhyw aelod o staff sy'n dod yn anabl yn ystod ei gyflogaeth i barhau yn ei rôl.

## Cydraddoldeb ac amrywiaeth a chynhwysiad

Mae gan Gyfarwyddiaeth y Bobl atebolrwydd dros yr agenda cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad. Mae'r Pwyllgor AD a Chydnabyddiaeth, a arweinir gan gyfarwyddwr anweithredol, yn darparu llywodraethiant ar gyfer perfformiad cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad, ac yn monitro a herio data'r gweithlu.

Mae gennym chwe rhwydwaith staff. Mae pob un yn cael ei gefnogi gan uwch reolwr ac yn cyfarfod yn gyson. Mae'r rhwydweithiau yn canolbwyntio ar bob un o'r naw

nodwedd a warchodir fel y'u nodir yn *Neddf Cydraddoldeb 2010*, yn ogystal â siaradwyr Cymraeg. Mae'r rhwydweithiau yn cymryd rhan ym mhob agwedd ar ein busnes.

Ym mis Ebrill 2020, cyhoeddasom ein gwybodaeth am y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar gyfer blwyddyn galendr 2019. Mae hwn ar gael ar ein gwefan.

### Data absenoldeb salwch

Yn ystod 2019/20, cafodd ein gweithwyr saith diwrnod o absenoldeb salwch ar gyfartaledd. Mae hyn yn cymharu â chyfartaledd o saith diwrnod yn 2018/19. Rydym yn ymrwymedig i iechyd a lles ein staff ac mae polisi absenoldeb salwch cynhwysfawr yn ei le. Mae'r IOPC yn darparu Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol a Rhaglen Cynorthwyo Gweithwyr.

### Cyfansoddiad y staff

Mae'r IOPC yn ymroddedig i sicrhau bod dynion a menywod yn gallu cyrraedd eu llawn botensial yn y sefydliad. Rydym yn monitro amrywiaeth y sefydliad drwy ddata AD a phrofiad staff – er enghraifft, drwy ymatebion i'n harolwg staff.

Mae'r tabl isod yn darparu cyfansoddiad y staff yn ôl rhywedd ar 31 Mawrth 2020. Mae data arall ynglŷn â chyfansoddiad y staff ar gael ar ein gwefan.

| Cyfrif pennau | Gwryw | Benyw | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Cyfarwyddwyr* | 11 | 9 | 20 |
| Staff | 382 | 630 | 1,012 |
| **Cyfanswm** | **393** | **639** | **1,032** |

*****Cyfarwyddwyr yn cynnwys gradd Gwasanaeth Sifil Uwch a chyfarwyddwyr anweithredol*

### Iawndal am ymddeol yn gynnar neu golli swydd

*Mae'r adran hon wedi'i harchwilio.*

Dim (2018/19: dim).

### Taliadau i gyn-gyfarwyddwyr

*Mae'r adran hon wedi'i harchwilio.*

Dim (2018/19: dim).

### Niferoedd staff gwasanaeth sifil uwch yn ôl band ar 31 Mawrth

| Band | 2019/20 | 2018/19 |
|---|---|---|
| Gwasanaeth Sifil Uwch 2 | 1 | 2 |
| Gwasanaeth Sifil Uwch 1 | 9.6 | 9.6 |
| **Cyfanswm** | **10.6** | **11.6** |

*Penodiad gan y goron yw'r Cyfarwyddwr Cyffredinol ac nid yw'n cael ei gynnwys yn y tabl uchod.*

### Datgeliad cyflog teg

*Mae'r adran hon wedi'i harchwilio.*

Yn y flwyddyn adrodd, y cyfarwyddwr a oedd yn derbyn y cyflog uchaf yn yr IOPC oedd y Cyfarwyddwr Cyffredinol. Ei gydnabyddiaeth gyfatebol i amser llawn ar fand yn 2019/20: £185,000 – £190,000 (2018/19: £180,000 – £185,000). Mae hyn 5.6 gwaith (2018/19: 5.7 gwaith) canolrif y gydnabyddiaeth i'r gweithlu, a oedd yn £33,187 (2018/19: £32,215).

Yn 2019/20, ni dderbyniodd unrhyw gyflogai gydnabyddiaeth a oedd yn uwch na'r cyfarwyddwr a dderbyniodd y cyflog uchaf (2018/19: dim).

Ac eithrio'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, mae'r ystod ar gyfer staff, gan gynnwys graddau Gwasanaeth Sifil Uwch, yn cael eu cysylltu yn uniongyrchol â'r ystod gwerthuso swyddi. Mae'r gydnabyddiaeth gyfatebol i amser llawn yn yr ystod £15,000 i £137,000 (2018/19 £14,000 i £139,000)[16]. Caiff cyflogau'r Cyfarwyddwyr Cyffredinol a'r Cyfarwyddwyr Anweithredol eu gosod gan y Swyddfa Gartref ac mae manylion i'w cael yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth.

Mae lwfans pwysoli Llundain o £4,351 yn berthnasol i staff a phrentisiaid sydd wedi'u lleoli yn ein swyddfeydd yn Llundain a Croydon. Nid oes gan raddfeydd cyflogau bwyntiau ar y golofn gyflog wedi'u gosod arnynt. Gosodir y cyflogau mewn graddfa gyflog gyda'r cynnydd cyflog blynyddol yn cael ei bennu gan y cynnydd canrannol i'w gytuno bob blwyddyn. Mae'r rhan fwyaf o raddfeydd cyflog yn cael eu hailbrisio yn flynyddol. Y dyddiad ailbrisio nesaf oedd 1 Gorffennaf 2020.

---

[16] Mae'r ystod ar gyfer 2018/19 wedi'i ddiwygio i eithrio'r Cyfarwyddwr Cyffredinol.

### Pecynnau ymadael

*Mae'r adran hon wedi'i harchwilio.*

Dangosir data cymharol (mewn cromfachau) ar gyfer 2018/19.

| Band cost y pecyn ymadael | Nifer o ddiswyddiadau gorfodol | Nifer o ymadawiadau eraill y cytunwyd arnynt | Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael yn ôl band cost |
|---|---|---|---|
| <£10,000 | - (-) | 1 (1) | 1 (1) |
| £10,000 - £25,000 | - (-) | 1 (3) | 1 (3) |
| £25,000 - £50,000 | - (-) | 4 (2) | 4 (2) |
| £50,000 - £100,000 | - (-) | - (1) | - (1) |
| **Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael yn ôl math (cyfanswm cost)** | **- (-)** | **6 (7)** | **6 (7)** |
| **Cyfanswm cost adnoddau (2019/20) mewn £000** | **-** | **161** | **161** |
| **Cyfanswm cost adnoddau (2018/19) mewn £000** | **-** | **253** | **253** |

Talwyd costau diswyddo ac ymadael eraill yn unol â darpariaethau Cynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil, cynllun statudol a wnaed o dan *Ddeddf Blwydd-daliadau 1972*. Cyfrifir am gostau ymadael yn llawn ym mlwyddyn yr ymadawiad. Pan fydd yr IOPC wedi cytuno ar ymddeoliadau cynnar, telir y costau ychwanegol gan yr IOPC ac nid gan gynllun pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Telir am gostau ymddeol oherwydd salwch gan y cynllun pensiwn ac nid ydynt wedi'u cynnwys yn y tabl.

### Niferoedd staff a chostau

*Mae'r adran hon wedi'i harchwilio.*

Mae'r tabl canlynol yn dangos y nifer cyfartalog o staff llawn amser a gyflogwyd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae staff parhaol yn cynnwys staff ar gontractau cyfnod penodol sydd fel arfer yn 12 mis o hyd. Mae staff arall yn cynnwys pobl sydd ar secondiad i mewn i'r sefydliad a llafur dros dro (y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cael eu cadw ar gyfer ein hymchwiliad i drychineb Hillsborough).

| Nifer cyfartalog o staff (cyfwerth â llawn amser) | 2019/20 | 2018/19 |
|---|---|---|
| Parhaol | 972 | 972 |
| Arall | 21 | 22 |
| **Cyfanswm** | **993** | **994** |

Mae'r tabl canlynol yn dangos cost y staff a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn. Mae staff parhaol yn cynnwys staff ar gontractau cyfnod penodol sydd fel arfer yn 12 mis o hyd. Mae staff arall yn cynnwys staff dros dro a staff ar secondiad i'r sefydliad. Mae'r costau ar ôl adenillion yng nghyswllt secondiadau allanol.

| Costau staff | 2019/20 Staff parhaol £'000 | 2019/20 Arall £'000 | 2019/20 Cyfanswm £'000 | 2018/19 Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Cyflogau a thâl | 37,030 | 1,268 | 38,298 | 37,872 |
| Cost nawdd cymdeithasol | 3,825 | - | 3,825 | 3,672 |
| Cyfraniadau pensiwn | 9,114 | - | 9,114 | 6,861 |
| **Is-gyfanswm** | **49,969** | **1,268** | **51,237** | **48,405** |
| Tynnu: adenillion yng nghyswllt secondiadau allanol | (299) | - | (299) | (240) |
| **Costau net holl staff arall** | **49,670** | **1,268** | **50,938** | **48,165** |

### Gwariant ar ymgynghorwyr

Nid oedd unrhyw wariant ar ymgynghorwyr yn ystod 2019/20 (2018/19: dim).

### Gweithwyr achlysurol

Mae'r IOPC yn defnyddio gweithwyr achlysurol yn unol â phroses reoli gadarn a osodir gan y Swyddfa Gartref. Rhoddir adroddiad ar y gwariant bob mis i'r Bwrdd Rheoli graffu arno a'i adolygu. Mae'r gweithwyr achlysurol ar gyfer ein hymchwiliad Hillsborough wedi lleihau oherwydd ein bod yng ngham gwahanol o'r ymholiad.

| Costau gweithwyr achlysurol | 2019/20<br>£'000 | 2018/19<br>£'000 |
|---|---|---|
| Hillsborough | 329 | 749 |
| Cyfarwyddiaethau eraill | 939 | 1,234 |
| **Cyfanswm** | **1,268** | **1,983** |

### Swyddi oddi ar y gyflogres

Ni thalwyd cyfarwyddwyr yr IOPC drwy daliadau i gwmni cyfyngedig na thrydydd parti yn lle cyflog. Caiff yr holl gyfarwyddwyr eu talu drwy gyflogres yr IOPC.

Mae'r tabl hwn yn dangos y nifer o swyddi oddi ar y gyflogres o 31 Mawrth 2020, am fwy na £245 y dydd ac sy'n parhau am fwy na chwe mis.

| **Nifer y swyddi oddi ar y gyflogres ar 31 Mawrth 2020** | |
|---|---|
| **Math o swyddi** | **Nifer** |
| Y swyddi sydd wedi bodoli ers llai na blwyddyn ar adeg yr adroddiad | 1 |
| Y swyddi sydd wedi bodoli ers rhwng blwyddyn a dwy flynedd ar adeg yr adroddiad | - |
| Y swyddi sydd wedi bodoli ers rhwng dwy flynedd a thair blynedd ar adeg yr adroddiad | - |
| Y swyddi sydd wedi bodoli ers rhwng tair blynedd a phedair blynedd ar adeg yr adroddiad | - |
| Y swyddi sydd wedi bodoli am bedair neu fwy o flynyddoedd ar adeg yr adroddiad | 1 |
| **Cyfanswm y swyddi oddi ar y gyflogres** | **2** |
| Swyddi lle derbyniwyd sicrwydd o dreth incwm ac ymrwymiadau yswiriant cenedlaethol | 2 |
| Swyddi lle na dderbyniwyd sicrwydd o dreth incwm ac ymrwymiadau yswiriant cenedlaethol | - |

**Tabl 1: swyddogion undeb perthnasol**

| Cyfanswm y nifer o weithwyr oedd yn swyddogion undeb yn ystod 2019/20 | |
|---|---|
| Y nifer o weithwyr a oedd yn swyddogion undeb perthnasol yn ystod y cyfnod perthnasol | Nifer o weithwyr amser llawn cyfatebol |
| 17 | 16 |

**Tabl 2: canran o amser a dreuliwyd ar amser cyfleuster**

| Canran o amser | Nifer o weithwyr |
|---|---|
| 0 | 948 |
| 1 / 50 | 16 |
| 51 – 99 | - |
| 100 | - |

| **Tabl 3: canran o'r bil cyflog a wariwyd ar amser cyfleuster** | £000 |
|---|---|
| Cyfanswm cost amser cyfleuster | 147 |
| Cyfanswm y bil cyflog | 49,969 |
| Canran cyfanswm y bil cyflog a wariwyd ar amser cyfleuster | 0.30% |

*cyfrifwyd fel: (cyfanswm cost amser cyfleuster ÷ cyfanswm bil cyflog) x 100*

**Tabl 4: gweithgareddau undebau llafur gyda thâl**

| Fel canran o gyfanswm yr oriau cyfleuster amser gyda thâl, faint o oriau a dreuliwyd gan y cyflogeion a oedd yn swyddogion undeb yn ystod 2019/20 ar weithgareddau'r undeb gyda thâl | |
|---|---|
| Amser a dreuliwyd ar weithgareddau undebau llafur fel canran o gyfanswm yr oriau cyfleuster amser gyda thâl | - |

*Cyfrifwyd fel: (cyfanswm yr oriau a dreuliwyd ar weithgareddau undebau llafur gyda thâl gan y swyddogion undeb perthnasol yn ystod y cyfnod perthnasol ÷ cyfanswm yr oriau amser cyfleuster gyda thâl) x 100*

**Ffigwr cyfanswm unigol y gydnabyddiaeth ar gyfer cyfarwyddwyr anweithredol**
*Mae'r tabl hwn wedi'i archwilio.*

| Cyfarwyddwyr anweithredol | Cyflog[17] 2019/20 £'000 | Cyflog 2018/19 £'000 | Buddiannau mewn da[18] 2019/20 £'000 | Buddiannau mewn da 2018/19 £'000 | Cyfanswm 2019/20 £'000 | Cyfanswm 2018/19 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Geoffrey Podger | 10-15<br>10-15 | 5-10<br>(5-10) | 0.5 | - | 10-15<br>(10-15) | 5-10<br>(5-10) |
| Bill Matthews | 5-10<br>(5-10) | 5-10<br>(5-10) | 6.3 | - | 15-20<br>15-20 | 5-10<br>(5-10) |
| Mary Lines | 10-15<br>10-15 | 5-10<br>(5-10) | 0.5 | - | 10-15<br>10-15 | 5-10<br>(5-10) |
| Manjeet Gill | 5-10<br>(5-10) | 5-10<br>(5-10) | 4.8 | - | 10-15<br>(10-15) | 5-10<br>(5-10) |
| Andrew Harvey | 10-15<br>10-15 | 10-15<br>10-15 | 5.6 | - | 15-20<br>15-20 | 10-15<br>10-15 |
| Catherine Jervis | 5-10<br>(5-10) | 10-15<br>10-15 | - | - | 5-10<br>(5-10) | 10-15<br>10-15 |

[17] Y ffigyrau yn y cromfachau yn gyfwerth â blwyddyn gron
[18] Nid yw cyfarwyddwyr anweithredol yn gymwys am fonws neu fuddion pensiwn. Buddiannau mewn da yn ystod 2019/20 yw ad-daliad gwariant ar deithio i fynychu cyfarfodydd lle'r oedd treth yn daladwy

**Ffigwr cyfanswm unigol y gydnabyddiaeth i uwch reolwyr**

*Mae'r tabl hwn wedi'i archwilio.*

| Uwch reolwyr | Cyflog[19] 2019/20 £'000 | Buddiannau mewn da 2019/20 £'000 | Buddiannau pensiwn 2019/20 £'000 | Cyfanswm y gydnabyddiaeth 2019/20 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Michael Lockwood[20] | 185-190 (185-190) | - | - | 185-190 (185-190) |
| Kathie Cashell | 105-110 (105-110) | - | 43 | 150-155 150-155 |
| Kevin Woodrow *Gadawodd ar 14/04/2019* | 10-15 (100-105) | 4.8 | - | 15-20 (105-110) |
| David Emery | 95-100 95-100 | - | 51 | 145-150 145-150 |
| Liz Booth | 95-100 95-100 | - | 39 | 135-140 135-140 |
| Tom Whiting | 130-135 (130-135) | - | 53 | 185-190 (185-190) |
| Jonathan Green *Gadawodd ar 20/12/2019* | 130-135 135-140 | - | - | 130-135 135-140 |

[19] Y ffigyrau yn y cromfachau yn gyfwerth â blwyddyn gron
[20] Nid yw Michael Lockwood yn gymwys am ddyfarniad tâl, gwyliau heb ei gymryd a dalwyd yn 2019/20 yw'r rheswm dros symud y band

| **Uwch reolwyr** | **Cyflog[21]**<br>2018/19<br><br>£'000 | **Buddiannau mewn da**<br>2018/19<br><br>£'000 | **Buddiannau pensiwn**<br>2018/19<br><br>£'000 | **Cyfanswm y gydnabyddiaeth**<br>2018/19<br><br>£'000 |
|---|---|---|---|---|
| Michael Lockwood[22] | 180-185<br>(180-185) | - | - | 180-185<br>(180-185) |
| Ian Todd<br>*Gadawodd ar 22/02/19* | 130-135<br>135-140 | - | 47 | 180-185<br>(185-190) |
| Kathie Cashell | 105-110<br>(105-110) | - | 42 | 150-155<br>150-155 |
| Kevin Woodrow[23] | 200-205<br>(200-205) | 11.3 | 12 | 220-225<br>(220-225) |
| David Emery | 90-95<br>(90-95) | - | 36 | 125-130<br>125-130 |
| Liz Booth | 55-60<br>(100-105) | - | 22 | 75-80<br>(120-125) |
| Tom Whiting<br>*Dechreuodd ar 4/2/2019* | 20-25<br>135-140 | - | 8 | 25-30<br>145-150 |
| Jonathan Green<br>*Dechreuodd ar 25/2/2019* | 10-15<br>135-140 | - | - | 10-15<br>135-140 |

### Cyflog

Mae hyn yn cynnwys cyflog gros, cyflog ar sail perfformiad, goramser, hawliau a gedwir i bwysoliad Llundain neu lwfansau Llundain, lwfansau recriwtio a chadw staff, lwfansau swyddfa breifat ac unrhyw lwfans arall i'r graddau ei fod yn ddarostyngedig

[21] Y ffigyrau yn y cromfachau yn gyfwerth â blwyddyn gron
[22] Nid yw Michael Lockwood yn gymwys am ddyfarniad tâl
[23] Roedd cyflog Kevin Woodrow ar gyfer 2018/19 yn cynnwys tâl terfynu

i dreth yn y DU. Mae’r adroddiad hwn yn seiliedig ar daliadau cronnol a wnaed gan yr IOPC ac fe’u cofnodir felly yn y cyfrifon hyn.

### Bonysau

Nid yw bonysau yn daladwy i’r Cyfarwyddwr Cyffredinol ac uwch reolwyr eraill yr IOPC.

### Taliadau a wnaethpwyd i gyfarwyddwyr o dan gynllun iawndal y gwasanaeth sifil

Yn ystod 2019/20, ni wnaethpwyd unrhyw daliadau i gyfarwyddwyr dan gynllun iawndal y gwasanaeth sifil. Yn ystod 2018/19, gwnaethpwyd croniad o £95,000 am daliad i’r Cyfarwyddwr Adnoddau, Mr Kevin Woodrow, a adawodd yr IOPC ar 14 Ebrill 2019.

### Buddiannau mewn da

Mae’n ofynnol i uwch reolwyr ac uwch reolwyr deithio i swyddfeydd amrywiol yr IOPC i gyflawni eu dyletswyddau. Pan, oherwydd natur y tasgau a gyflawnir ac amlder y teithio, y bydd y rhain yn cael eu hystyried yn weithle parhaol, yna mae’r gost teithio yn fudd trethadwy. Mae’r ffigyrau sy’n cael eu hadrodd yn cynnwys treth ar y gost teithio.

### Buddiannau pensiwn

Mae rhai o’r cyn-gomisiynwyr a’r staff a fu’n aelodau o Awdurdod Cwynion yr Heddlu (PCA) yn cymryd rhan yng nghynllun pensiwn ‘cyffelyb’ (BBA) yn hytrach na bod yn aelodau o gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Yr IOPC sy’n gyfrifol am ariannu buddiannau pensiwn yn y dyfodol. Mae rhagor o ddisgrifiad i’r rhain yn Nodyn 3.1 y Datganiadau Ariannol.

Yn y cyfnod dan adolygiad, mae Cyfarwyddwr Cyffredinol yr IOPC, a’r holl staff yn gymwys am aelodaeth o brif gynllun pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Fodd bynnag, nid oedd y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn aelod yn ystod y cyfnod dan sylw. Mae’r tablau isod yn rhoi manylion y buddion pensiwn ar gyfer uwch reolwyr.

### Pensiynau’r Gwasanaeth Sifil

Darperir buddiannau pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Ebrill 2015, cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd i weision sifil – y Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu **alpha**. Mae’n rhoi buddion ar sail cyfartaledd gyrfa gydag oedran pensiwn arferol yn cyfateb i Oedran Pensiwn y Wladwriaeth yr aelod (neu 65 os yw’n uwch). Ers 1 Ebrill 2015, bydd yr holl weision sifil a benodir o’r newydd a mwyafrif y rhai sydd eisoes yn y gwasanaeth yn ymuno ag **alpha**. Cyn hyn, roedd gweision sifil yn rhan o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae

pedair adran i'r PCSPS: tair yn rhoi buddion ar sail cyflog terfynol (**classic**, **premium** neu **classic plus**) gydag oedran pensiwn arferol o 60; ac un yn rhoi buddion ar sail gyrfa gyfan (**nuvos**) gydag oedran pensiwn arferol o 65.

Nid ariennir y trefniadau statudol hyn, a thelir cost buddiannau gan arian y mae'r Senedd yn pleidleisio arno bob blwyddyn. Caiff pensiynau sy'n daladwy o dan y cynlluniau **classic, premium, classic plus, nuvos** ac **alpha** eu cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth cynyddu pensiynau. Arhosodd aelodau o'r PCSPS oedd o fewn deng mlynedd o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn y PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rhai oedd rhwng deng mlynedd ac 13 mlynedd a phum mis i'w hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn symud i **alpha** rywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 a 1 Chwefror 2022. Bydd yr holl aelodau sy'n symud i **alpha** yn gweld eu buddion PCSPS yn cael eu 'bancio', a'r rhai gyda buddion cynharach yn un o'r adrannau cyflog terfynol o'r PCSPS yn cael y buddion hynny wedi eu seilio ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael **alpha**. (Mae'r ffigyrau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer swyddogion yn dangos y pensiwn a enillwyd yn y PCSPS neu **alpha** – fel sy'n briodol. Pan fo gan y swyddog fuddion yn y PCSPS ac **alpha** y ffigwr a ddyfynnir yw gwerth cyfun eu buddion yn y ddau gynllun.) Gall aelodau a ymunodd ers Hydref 2002 ddewis naill ai'r trefniant buddiant diffiniedig priodol neu bensiwn rhanddeiliaid 'prynu arian' gyda chyfraniad gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn **partneriaeth**).

Mae cyfraniadau gweithwyr ar sail cyflog ac yn amrywio rhwng 4.6 y cant ac 8.05 y cant i aelodau **classic, premium, classic plus, nuvos** ac **alpha** Mae buddiannau yn y cynllun **classic** yn cronni ar gyfradd o 1/80 o'r enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, telir cyfandaliad sy'n cyfateb i werth tair blynedd o bensiwn ar adeg ymddeol. Ar gyfer y cynllun **premium**, mae'r buddiannau yn cronni ar raddfa o 1/60 o'r enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i'r cynllun **classic**, nid oes cyfandaliad awtomatig. Mae **classic plus**, i bob diben, yn hybrid gyda buddiannau mewn perthynas â gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 wedi'u cyfrifo'n fras yn ôl y cynllun **classic** a buddiannau ar gyfer gwasanaeth o fis Hydref 2002 wedi'u cyfrifo yn ôl y cynllun **premium**. O ran y cynllun **nuvos**, mae aelodau yn cronni pensiwn yn seiliedig ar eu henillion pensiynadwy yn ystod eu cyfnod fel aelod o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) caiff cyfrif pensiwn a enillwyd yr aelod ei gredydu â 2.3 y cant o'i enillion pensiynadwy yn ystod blwyddyn honno'r cynllun a chaiff y pensiwn a gronnwyd ei uwchraddio yn unol â'r ddeddfwriaeth cynyddu pensiynau. Mae buddion yn **alpha** yn cynyddu mewn modd tebyg i **nuvos**, ac eithrio bod y raddfa grynhoi yn 2.32 y cant. Ym mhob achos, gall aelodau ddewis ildio pensiwn (cymudo) am gyfandaliad hyd at y terfynau a nodir gan *Ddeddf Cyllid 2004.*

Mae'r cyfrif pensiwn **partneriaeth** yn drefniant pensiwn rhanddeiliaid. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol o rhwng 8% a 14.75% (yn dibynnu ar oedran yr aelod)

i gynnyrch pensiwn rhanddeiliaid a ddewisir gan y gweithiwr o blith panel o ddarparwyr. Nid oes rhaid i'r gweithiwr gyfrannu, ond os bydd yn cyfrannu, bydd y cyflogwr yn gwneud cyfraniad cyfatebol hyd at derfyn o 3% o'r cyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% pellach o gyflog pensiynadwy i dalu cost yswiriant buddiannau risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth wrth weithio ac ymddeoliad o ganlyniad i salwch).

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y mae hawl gan aelod ei gael pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu ar unwaith pan fydd yn rhoi'r gorau i fod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn neu dros oedran pensiwn. Oedran pensiwn yw 60 oed ar gyfer aelodau cynlluniau **classic, premium** a **classic plus**, a 65 oed ar gyfer aelodau cynllun **nuvos**, a'r hynaf o 65 oed neu oedran pensiwn y wladwriaeth i aelodau **alpha**. (Mae'r ffigyrau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer swyddogion yn dangos y pensiwn a enillwyd yn y PCSPS neu **alpha** – fel sy'n briodol. Pan fydd gan y swyddog fuddion yn y PCSPS ac **alpha**, y ffigwr a ddyfynnir yw gwerth cyfun eu buddion yn y ddau gynllun, ond sylwer y gall rhannau o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy o oedrannau gwahanol.)

Ceir rhagor o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil yn www.civilservicepensionscheme.org.uk

### Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian

Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalaf buddiannau cynllun pensiwn a aseswyd gan actwari a gronnir gan aelod ar adeg benodol. Y buddiannau a gaiff eu prisio yw'r buddiannau a gronnwyd gan yr aelod ac unrhyw bensiwn i'w briod sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun pensiwn neu drefniant i ddiogelu buddiannau pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fo'r aelod yn gadael y cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddiannau a gronnwyd yn eu cynllun blaenorol. Mae a wnelo'r ffigyrau pensiwn a ddangosir â'r buddiannau y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i'w aelodaeth gyfan o'r cynllun pensiwn, ac nid dim ond y cyfnod a dreuliwyd mewn uwch swydd y mae'r datgeliad yn gymwys iddo.

Mae'r ffigyrau yn cynnwys gwerth unrhyw fuddiant pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddiannau pensiwn ychwanegol a gronnir i'r aelod o ganlyniad i brynu buddiannau pensiwn ychwanegol a delir gan yr aelod ei hun. Cyfrifir CETV yn unol â'r Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygiad) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl i'r buddiannau sy'n deillio o Dreth Lwfans Gydol Oes a allai fod yn ddyledus pan gymerir buddiannau pensiwn.

### Cynnydd gwirioneddol mewn CETV

Mae hwn yn adlewyrchu'r cynnydd o ran CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd yn y pensiwn a gronnir o ganlyniad i chwyddiant, y cyfraniadau a delir gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddiannau a drosglwyddir o gynllun neu drefniant pensiwn arall), ac mae'n defnyddio ffactorau prisio'r farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

*Mae'r tabl hwn wedi'i archwilio.*

| **Uwch reolwr** | **Pensiwn cronnus** ar oedran pensiwn ar 31/3/20 a'r cyfandaliad cysylltiedig | **Cynnydd gwirioneddol** mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig ar oedran pensiwn | **CETV** ar 31 Mawrth 2020 | **CETV** ar 31 Mawrth 2019 | **Cynnydd gwirioneddol** mewn CETV |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ian Todd<br>*Gadawodd ar 22/02/2019* | - | - | - | 116 | - |
| Kathie Cashell | 20-25<br>Dim cyfandaliad | 2.5-5<br>Dim cyfandaliad | 239 | 204 | 18 |
| Kevin Woodrow<br>*Gadawodd ar 14/04/2019* | 35-40<br>105-110 cyfandaliad<br>swm | 0-2.5<br>0-2.5 cyfandaliad | 802 | 801 | - |
| David Emery | 30-35<br>Dim cyfandaliad | 2.5-5<br>Dim cyfandaliad | 387 | 341 | 25 |
| Liz Booth | 0-5<br>Dim cyfandaliad | 0-2.5<br>Dim cyfandaliad | 50 | 17 | 25 |
| Tom Whiting | 0-5<br>Dim cyfandaliad | 2.5-5<br>Dim cyfandaliad | 39 | 5 | 24 |

## Adroddiad atebolrwydd Seneddol

### Archwilwyr

Gwneir trefniadau ar gyfer archwiliad allanol o dan baragraff 17 (2) o Atodlen 2 i *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002*. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol (C&AG) archwilio, ardystio a rhoi adroddiad ar y datganiad o gyfrifon, a chyflwyno copïau ohono (ynghyd â'i adroddiad) gerbron dau Dŷ'r Senedd. Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO) yn gwneud y gwaith archwilio ar ran y C&AG. Y ffioedd ar gyfer y gwasanaethau hyn yn 2019/20 oedd £52,000 (roedd y ffi archwilio yn 2018/19 yn £50,000). Ni wnaeth y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ymgymryd ag unrhyw waith nad oedd yn waith archwilio.

Darperir gwasanaethau archwilio mewnol o dan gontract gan Uned Archwilio Mewnol y Llywodraeth.

### Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd yn ôl

Dim.

### Cysondeb y gwariant

*Mae'r adran hon wedi'i harchwilio.*

Nid oes unrhyw faterion rheoleidd-dra i adrodd arnynt.

### Colledion a thaliadau arbennig

*Mae'r adran hon wedi'i harchwilio.*

Roedd y cyfanswm o golledion a thaliadau arbennig yn is na'r trothwy sy'n ei gwneud yn ofynnol adrodd arnynt. (2018/19: Dim.)

### Rhoddion

*Mae'r adran hon wedi'i harchwilio.*

Ni roddwyd unrhyw roddion. (2018/19: Dim.)

### Ffioedd a thaliadau

*Mae'r adran hon wedi'i harchwilio.*

Mae'r incwm a gynhyrchiwyd yn anfaterol i'r IOPC ac felly heb ei asesu ar gyfer effaith IFRS 15 Refeniw o Gontractau gyda Chwsmeriaid.


Derbyniodd yr IOPC incwm gan CThEM ar gyfer ymchwiliadau a wnaethpwyd o dan adran 28 *Deddf Comisiynwyr Cyllid a Thollau 2005*. Derbyniwyd incwm gan yr Orfodaeth Mewnfudo ar gyfer ymchwiliadau a gynhaliwyd i atgyfeiriadau priodol. Amcan ariannol yr IOPC am incwm gan gyrff llywodraeth eraill yw adfer y gost lawn yn unol â Chanllaw Ffioedd a Thaliadau'r Trysorlys. Cyflawnwyd yr amcan ariannol hwn. Darperir y dadansoddiad isod at ddibenion ffioedd a thaliadau ac nid ar gyfer dibenion IFRS 8 fel mae'r FreM yn cyfarwyddo.

| **Ffioedd a thaliadau** | **2019/20** **Incwm** £'000 | **2019/20** **Costau** £'000 | **2019/20** **(Diffyg ariannol)** £'000 | **2018/19** **Incwm** £'000 | **2018/19** **Costau** £'000 | **2018/19** **(Diffyg ariannol)** £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Incwm CThEM | 28 | (28) | - | 104 | (104) | - |
| Gorfodaeth Mewnfudo | 5 | (5) | - | 6 | (6) | - |
| **Incwm o weithgareddau** | **33** | **(33)** | **-** | **110** | **(110)** | **-** |
| Incwm amrywiol | 45 | (45) | - | 17 | (17) | - |
| **Incwm arall** | **45** | **(45)** | **-** | **17** | **(17)** | **-** |
| **Cyfanswm** | **78** | **78** | **-** | **127** | **(127)** | **-** |

### Rhwymedigaethau wrth gefn o bell

*Mae'r adran hon wedi'i harchwilio.*

Dim (2018/19: Dim).



**Michael Lockwood**
Swyddog Cyfrifyddu
13 Gorffennaf 2020

# Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Dai'r Senedd

## Barn ar ddatganiadau ariannol

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 o dan *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002*. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys: y Datganiadau o Wariant Net Cynhwysfawr, Datganiad Sefyllfa Ariannol, Llif Arian, Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr; a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu arwyddocaol. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Atebolrwydd a ddisgrifir yn yr adroddiad hwnnw fel gwybodaeth a archwiliwyd.

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o gyflwr materion Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu fel yr oeddynt ar 31 Mawrth 2020 a'r gwariant net am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi yn briodol yn unol â *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002* a chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd oddi tani.

## Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, mae'r incwm a'r gwariant a nodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso, ym mhob ffordd berthnasol, at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

## Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISAs) (DU) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau dan y safonau hynny ymhellach yn yr adran cyfrifoldebau'r Archwiliwr am archwilio'r datganiadau ariannol ar fy nhystysgrif. Mae'r safonau hynny yn gofyn i mi a'm staff gydymffurfio â Safon Moesegol Diwygiedig 2016 y Cyngor Adrodd Ariannol. Rwyf yn annibynnol oddi ar Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad a'r datganiadau ariannol yn y Deyrnas Unedig. Mae fy staff a minnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y

dystiolaeth archwilio yr wyf wedi ei chael yn ddigonol ac yn briodol i roi sail ar gyfer fy marn.

## Casgliadau sy'n gysylltiedig â chwmni sy'n parhau

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd yng nghyswllt y materion canlynol y mae'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) yn ei gwneud hi'n ofynnol i mi adrodd arnynt i chi pan:

- mae defnydd Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu o gyfrifon cwmni sy'n parhau i baratoi'r datganiadau ariannol yn amhriodol; neu
- nad yw Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd perthnasol a adnabuwyd a all fwrw amheuaeth sylweddol am allu Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu i barhau i fabwysiadu'r sail cwmni sy'n parhau am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad y caiff y datganiadau ariannol eu hawdurdodi i'w cyhoeddi.

## Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu am y datganiadau ariannol

Fel yr eglurir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi barn gywir a theg.

## Cyfrifoldebau'r archwiliwr am yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb yw archwilio, ardystio ac adrodd yn ôl ar y datganiadau ariannol yn unol â *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*.

Mae archwiliad yn cynnwys cael tystiolaeth ynglŷn â'r symiau a datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd rhag camddatganiad perthnasol, p'un yr achoswyd hynny gan dwyll neu gamgymeriad. Mae sicrwydd rhesymol yn sicrwydd ar lefel uchel, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn ôl ISAs (DU) yn canfod camddatganiad perthnasol bob tro pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu gamgymeriad ac fe'u hystyrir yn berthnasol, os gallant, yn unigol neu ar y cyd, gael eu disgwyl i ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wnaed ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Fel rhan o archwiliad yn unol ag ISAs (DU), rwyf yn arfer barn broffesiynol ac yn cadw amheuaeth broffesiynol drwy gydol yr archwiliad. Rwyf hefyd yn:

- Dynodi ac asesu'r risg o gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol, boed drwy dwyll neu gamgymeriad, yn dylunio a chyflawni gweithdrefnau archwilio sy'n ymateb i'r risgiau hynny, ac yn cael tystiolaeth archwilio sy'n

ddigonol a phriodol i roi sail ar gyfer fy marn. Mae'r risg o beidio â darganfod camddatganiadau perthnasol sy'n deillio o dwyll yn uwch nag ar gyfer rhai yn deillio o gamgymeriad, gan y gall twyll olygu bod cydgynllwynio, ffugio, gadael allan yn fwriadol, cam-ddisgrifio, neu oresgyn dulliau rheoli mewnol.

- Cael dealltwriaeth o ddulliau rheoli mewnol sy'n berthnasol i'r archwiliad er mwyn dylunio gweithdrefnau archwilio sy'n addas dan yr amgylchiadau, ond nid ar gyfer y diben o fynegi barn ar effeithiolrwydd dulliau rheoli mewnol Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu.
- Gwerthuso pa mor addas yw'r polisïau cyfrifyddu a ddefnyddir a pha mor rhesymol yw'r amcangyfrifon cyfrifo a'r datgeliadau cysylltiedig a wnaed gan y rheolwyr.
- Gwerthuso cyflwyniad, strwythur a chynnwys y datganiadau ariannol, gan gynnwys y datgeliadau, ac a yw'r datganiadau ariannol yn cynrychioli'r trafodion sydd wrth wraidd iddynt a'r digwyddiadau mewn modd sy'n cyflawni cyflwyniad teg.
- Llunio casgliad ar ba mor briodol yw defnydd Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu o'r sail cwmni sy'n parhau o ran cyfrifyddu ac, ar sail y dystiolaeth a gafwyd wrth archwilio, a oes ansicrwydd perthnasol yn bodoli am y digwyddiadau neu amodau a all fwrw amheuaeth sylweddol am allu Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu i barhau fel cwmni. Os byddaf yn dod i'r casgliad bod ansicrwydd perthnasol yn bodoli, mae'n ofynnol i mi dynnu sylw yn fy adroddiad at y datgeliadau cysylltiedig yn y datganiadau ariannol neu, os bydd y datgeliadau hynny yn annigonol, addasu fy marn. Mae fy nghasgliadau yn seiliedig ar y dystiolaeth archwilio a gafwyd hyd at ddyddiad fy adroddiad. Serch hynny, gall digwyddiadau neu amodau yn y dyfodol beri i Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu beidio â pharhau fel cwmni sy'n parhau.

Rwyf yn cyfathrebu gyda'r rhai sydd â chyfrifoldeb am lywodraethu parthed, ymhlith materion eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau arwyddocaol yr archwiliad, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol yn y rheolaeth fewnol yr wyf yn eu dynodi yn ystod fy archwiliad.

Yn ychwanegol, mae'n ofynnol arnaf gael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod yr incwm a'r gwariant yr adroddwyd arnynt yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

## Gwybodaeth arall

Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth sydd yn yr adroddiad blynyddol, heblaw'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd a ddisgrifir yn yr adroddiad hwnnw fel rhai sydd wedi'u harchwilio, y datganiadau ariannol a'm hadroddiad archwiliwr ar hyn. Nid yw fy marn

am y datganiadau ariannol yn cynnwys gwybodaeth arall ac nid wyf yn mynegi unrhyw gasgliad ynglŷn â sicrwydd ar hynny. Yng nghyswllt fy archwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson mewn modd perthnasol â'r datganiadau ariannol neu fod fy ngwybodaeth a gafwyd yn yr archwiliad neu fel arall yn ymddangos fel petai wedi'i chamddehongli mewn modd perthnasol. Os, ar sail y gwaith yr wyf wedi'i wneud, y byddaf yn dod i'r casgliad bod cam-ddatgan perthnasol yn y wybodaeth arall yma, mae'n ofynnol i mi roi adroddiad am y ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yn y cyswllt hwn.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sydd i'w harchwilio wedi eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol dan *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002*
- yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu a'i hamgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi canfod unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Perfformiad nac yn yr Adroddiad Atebolrwydd; ac
- mae'r wybodaeth a roddwyd yn yr Adroddiad Perfformiad ac Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

## Materion yr wyf yn adrodd arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd yng nghyswllt y materion canlynol yr wyf yn adrodd arnynt i chi os, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol neu ni dderbyniwyd gwybodaeth ddigonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau nad ymwelwyd â nhw gan fy staff; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sydd i'w harchwilio yn gyson â'r cofnodion a'r dychweliadau cyfrifyddu; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau rwyf eu hangen ar gyfer fy archwiliad; neu
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EM.

## Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Gareth Davies**
**Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol**
**14 Gorffennaf 2020**
National Audit Office
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
London
SW1W 9SP

# Adran 3: Datganiadau ariannol


| Datganiad o wariant net cynhwysfawr am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 | Nodyn | 2019/20 | 2018/19 |
|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 |
| Refeniw o gontractau gyda chwsmeriaid | | 78 | 127 |
| **Cyfanswm incwm gweithredu** | | **78** | **127** |
| Costau staff | 4 | (50,938) | (48,165) |
| Prynu nwyddau a gwasanaethau | 4 | (18,236) | (20,747) |
| Dibrisiant a chostau amorteiddio | 4 | (3,896) | (3,649) |
| Colled ar waredu asedau anghyfredol | 4 | - | (856) |
| Treuliau/gwrthdroadau darparu ac arall anariannol | 4 | (904) | 790 |
| **Cyfanswm gwariant gweithredu** | | **(73,974)** | **(72,627)** |
| **Gwariant net am y flwyddyn** | | **(73,896)** | **(72,500)** |
| **Gwariant net cynhwysfawr arall** | | | |
| Eitemau na fydd yn cael eu hailddosbarthu i wariant gweithredu net | | | |
| (Colledion)/enillion actiwaraidd ar rwymedigaethau'r cynllun pensiwn | 3.1 | (180) | 42 |
| **Cyfanswm gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn** | | **(74,076)** | **(72,458)** |

Ni therfynwyd unrhyw weithrediadau, caffaeliadau na gwarediadau yn ystod y cyfnod.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 101 i 123 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

| Datganiad o sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2020 | Nodyn | 31 Mawrth 2020 | 31 Mawrth 2019 |
|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 5 | 7,017 | 7,360 |
| Asedau anniriaethol | 6 | 3,895 | 5,425 |
| **Cyfanswm asedau anghyfredol** | | **10,912** | **12,785** |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Derbyniadwyon masnach a derbyniadwyon eraill | 9 | 1,280 | 812 |
| Arian a chyfwerth ag arian | 8 | 7,050 | 6,684 |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | **8,330** | **7,496** |
| **Cyfanswm asedau** | | **19,242** | **20,281** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Darpariaethau | 11 | (841) | - |
| Taladwyon masnach a thaladwyon eraill | 10 | (7,081) | (7,659) |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol** | | **(7,922)** | **(7,659)** |
| **Cyfanswm asedau ar ôl tynnu rhwymedigaethau presennol** | | **11,320** | **12,622** |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | |
| Darpariaethau | 11 | (3,191) | (2,538) |
| Rhwymedigaethau pensiwn | 3.1 | (2,371) | (2,198) |
| Rhwymedigaethau eraill | 10 | (539) | (91) |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol** | | **(6,101)** | **(4,827)** |
| **Cyfanswm asedau ar ôl tynnu cyfanswm y rhwymedigaethau** | | **5,219** | **7,795** |
| **Ecwiti trethdalwyr a chronfeydd eraill wrth gefn** | | | |
| Cronfa wrth gefn gyffredinol | | 7,590 | 9,993 |
| Cronfa bensiwn wrth gefn | | (2,371) | (2,198) |
| **Cyfanswm ecwiti** | | **5,219** | **7,795** |



**Michael Lockwood**
Swyddog Cyfrifyddu
13 Gorffennaf 2020

Mae'r nodiadau ar dudalennau 101 i 123 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

| Datganiad o lif arian am y flwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2020 | Nodyn | 2019/20 | 2018/19 |
|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 |
| **Llif arian parod o weithgareddau gweithredol** | | | |
| **Gwariant net am y flwyddyn** | | (73,896) | (72,500) |
| Addasiad ar gyfer trafodion heb fod yn arian parod | 4 | 4,800 | 3,715 |
| Cynnydd mewn derbyniadwyon masnach a derbyniadwyon eraill | 9 | (468) | (47) |
| Gostyngiad mewn derbyniadwyon masnach a derbyniadwyon eraill | 10 | (513) | (6,950) |
| Cynnydd mewn rhwymedigaethau eraill | 10 | 448 | - |
| Buddiannau pensiwn a dalwyd | 3.1 | (70) | (68) |
| **All-lif arian net o weithgareddau gweithredol** | | **(69,699)** | **(75,850)** |
| **Llif arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, offer a chyfarpar | 5 | (1,218) | (1,705) |
| Prynu asedau anniriaethol | 6 | (152) | (1,366) |
| **All-lif arian net o weithgareddau buddsoddi** | | **(1,370)** | **(3,071)** |
| **Llif arian o weithgareddau ariannu** | | | |
| Grantiau gan y Swyddfa Gartref | 18 | 71,500 | 73,000 |
| Elfen gyfalaf taliadau o ran cytundebau consesiwn gwasanaeth SoFP | 10 | (65) | (97) |
| **Ariannu net** | | **71,435** | **72,903** |
| **Cynnydd (gostyngiad) net mewn arian a chyfatebol i arian yn y cyfnod** | 8 | **366** | **(6,018)** |
| **Arian a chyfatebol i arian ar ddechrau'r cyfnod** | 8 | **6,684** | **12,702** |
| **Arian a chyfatebol i arian ar ddiwedd y cyfnod** | | **7,050** | **6,684** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 101 i 123 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

| **Datganiad o newidiadau yn ecwiti'r trethdalwr am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020** | **Nodyn** | **Cronfa wrth gefn gyffredinol** | **Cronfa bensiwn wrth gefn** | **Cyfanswm cronfeydd wrth gefn** |
|---|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2018** | | **9,504** | **(2,251)** | **7,253** |
| **Newidiadau yn ecwiti trethdalwyr ar gyfer 2018/19** | | | | |
| Grant gan y Swyddfa Gartref ar gyfer gwariant refeniw | 18 | 69,929 | - | 69,929 |
| Grantiau gan y Swyddfa Gartref ar gyfer gwariant cyfalaf | 18 | 3,071 | - | 3,071 |
| Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn | | (11) | 11 | - |
| Gwariant net am y flwyddyn | | (72,500) | - | (72,500) |
| Enillion actiwaraidd mewn blwyddyn | | - | 42 | 42 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2019** | | **9,993** | **(2,198)** | **7,795** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Newidiadau yn ecwiti trethdalwyr ar gyfer 2019/20** | | | | |
| Grant gan y Swyddfa Gartref ar gyfer gwariant refeniw | 18 | 70,087 | - | 70,087 |
| Grant gan y Swyddfa Gartref ar gyfer gwariant cyfalaf | 18 | 1,413 | - | 1,413 |
| Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn | | (7) | 7 | - |
| Gwariant net am y flwyddyn | | (73,896) | - | (73,896) |
| Colled actiwaraidd yn y flwyddyn | | - | (180) | (180) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2020** | | **7,590** | **(2,371)** | **5,219** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 101 i 123 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

## Nodiadau i'r cyfrifon

### 1 Datganiad o bolisïau cyfrifyddu

Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FReM) 2019/20 a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM. Mae'r polisïau cyfrifyddu sydd yn y FReM yn cymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y cawsant eu diwygio neu eu dehongli i'r cyd-destun sector gyhoeddus. Pan fo'r FReM yn caniatáu dewis polisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu mwyaf priodol i amgylchiadau penodol yr IOPC er mwyn rhoi barn gywir a theg. Disgrifir y polisïau penodol a fabwysiedir gan yr IOPC isod. Maent wedi'u cymhwyso'n gyson wrth ddelio gydag eitemau a ystyrir yn berthnasol i'r cyfrifon.

Cyflwynir y datganiadau ariannol mewn Sterling a chaiff pob gwerth ei dalgrynnu i fyny i'r mil o bunnoedd agosaf (£'000).

### 1.1 Confensiynau cyfrifyddu

Paratowyd y cyfrifon hyn ar sail croniadau o dan y confensiwn cost hanesyddol, a ddiwygiwyd ar gyfer ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar ac asedau anniriaethol, ac eithrio pan ddefnyddir cost hanesyddol a ddibrisiwyd fel dirprwy ar gyfer gwerth cyfredol ar gyfer defnydd presennol ar gyfer asedau byrhoedlog neu werth isel.

### 1.2 Busnes gweithredol

Mae'r IOPC wedi gorfod addasu'r ffordd mae'n gweithio er mwyn bodloni heriau nad ydym wedi gweld eu tebyg o'r blaen yn sgil pandemig Covid-19. Ein blaenoriaeth yw cynnal ein prif swyddogaethau statudol yn ystod y pandemig fel y gellir cynnal hyder y cyhoedd mewn plismona. Gan ein bod yn rhagweld gostyngiad sylweddol yn y capasiti, gwnaethom gwtogi ein gweithgareddau i ganolbwyntio ar ein gwaith craidd, gan ymchwilio i'r achosion mwyaf difrifol - y rheiny sy'n ymwneud â marwolaethau, anaf difrifol a/neu honiadau o gamymddygiad difrifol - ac achosion eraill sy'n effeithio ar hyder y cyhoedd mewn plismona yn sylweddol. O ganlyniad, nid yw'r pandemig wedi cael effaith ar ein rôl statudol. Caiff gweithgareddau'r IOPC eu hariannu'n bennaf gan y Swyddfa Gartref. Mae Cymorth Grant ar gyfer 2020/21, gan gymryd i ystyriaeth y swm sy'n ofynnol i fodloni rhwymedigaethau'r IOPC sy'n ddyledus yn y flwyddyn, eisoes wedi'i gynnwys yn amcangyfrifon y Swyddfa Gartref ar gyfer y flwyddyn honno. Mae'r rhain wedi'u cymeradwyo gan y Senedd. Nid oes

rheswm dros gredu na cheir nawdd gan y Swyddfa Gartref a chymeradwyaeth gan y Senedd yn y dyfodol. Felly, penderfynwyd ei bod yn briodol gweithredu ar ffurf busnes gweithredol o ran paratoi'r datganiadau ariannol hyn.

### 1.3 Cymorth grant

Defnyddir y cymorth grant a gafwyd i ariannu gweithgareddau a gwariant sy'n cefnogi amcanion statudol ac amcanion eraill yr IOPC. Mae cymorth grant yn cael ei drin fel cyllid a'i gredydu i'r gronfa wrth gefn gyffredinol, oherwydd fe'i hystyrir yn gyfraniad gan barti rheoli.

### 1.4 Eiddo, offer a chyfarpar

Cydnabyddir eiddo, offer a chyfarpar yn y lle cyntaf fel cost ac wedi hynny ar werth presennol a defnydd cyfredol ar ôl tynnu dibrisiad ac amhariad.

Mae cost yn cynnwys faint o arian a delir i gaffael yr asedau ac yn cynnwys unrhyw gostau y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i roi'r ased ar gael i'w ddefnyddio yn ôl y bwriad. Y trothwy cyfalafu ar gyfer gwariant ar PPE yw £5,000.

Nid yw'r IOPC yn berchen ar unrhyw eiddo. Caiff yr holl offer a chyfarpar eu hadolygu'n flynyddol ar gyfer amhariad a chânt eu cario ar werth presennol a defnydd cyfredol. Mae'r IOPC wedi dewis mabwysiadu cost hanesyddol wedi'i dibrisio fel dirprwy ar gyfer gwerth presennol a defnydd cyfredol ar gyfer asedau PPE byrhoedlog neu werth isel.

Caiff gwariant ar osod ffitiadau mewn adeiladau a gaiff eu hariannu drwy brydlesi gweithredol ei gyfalafu fel ased diriaethol nad yw'n gyfredol os yw'r gwaith yn ychwanegu gwerth at yr adeilad. Gall y costau gosod ffitiadau mewn adeiladau gynnwys costau dodrefn ac offer newydd sydd yn unigol yn costio llai na £5,000 pan fydd y Swyddog Cyfrifyddu o'r farn ei fod yn fwy priodol cyfalafu'r costau. Caiff costau adnewyddu dodrefn ac offer y dyfodol eu hariannu o'r gyllideb adnoddau os yw'r costau'n is na'r trothwy cyfalafu ar adeg adnewyddu.

### 1.5 Asedau anniriaethol

Mesurir asedau anniriaethol pan gânt eu cydnabod gyntaf ar gost ac wedi hynny ar werth presennol ar eu defnydd cyfredol ar ôl tynnu amorteiddio ac amhariad.

Ni chyfalefir asedau anniriaethol mewnol, ac eithrio costau datblygu a gyfalafwyd, a chydnabyddir gwariant yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn y flwyddyn y digwyddodd y gwariant.

Cyfalefir gwariant ar asedau anniriaethol sy'n drwyddedau meddalwedd a'r costau cysylltiedig o'u gweithredu pan fydd y gost yn £5,000 neu'n fwy.

Ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol caiff yr asedau anniriaethol eu hasesu ar gyfer amhariad a chaiff y cyfnod a'r dull amorteiddio eu hadolygu hefyd. Mae'r IOPC wedi dewis mabwysiadu cost hanesyddol wedi'i hamorteiddio fel dirprwy ar gyfer gwerth presennol ar gyfer asedau anniriaethol byrhoedlog neu werth isel.

### 1.6 Dibrisiant ac amorteiddio

Rhoddir dibrisiant neu amorteiddiad ar yr holl asedau anghyfredol sy'n cael eu defnyddio ar sail llinell syth i ddileu'r gost neu brisiad dros oes ddefnyddiol yr ased fel a ganlyn:

| **Math yr ased** | **Oes ddefnyddiol** |
|---|---|
| Ffitiadau a dodrefn | Hyd y brydles neu oes ddefnyddiol a ragwelir |
| Cerbydau | 7 mlynedd |
| Technoleg gwybodaeth | 3 i 5 mlynedd |
| Asedau anniriaethol anghyfredol | 3 i 15 blynedd |
| Asedau consesiwn gwasanaeth | Hyd y contract neu'r oes ddefnyddiol a ragwelir |

Amcangyfrifir bod gan ein system rheoli achosion oes o 15 mlynedd. Mae gan asedau anniriaethol anghyfredol oes ddefnyddiol o ddeng mlynedd neu lai.

### 1.7 Consesiynau gwasanaeth

Cyfalefir asedau sy'n cael eu defnyddio ac sydd o dan reolaeth yr IOPC fel asedau anghyfredol yn ôl y ddarpariaeth o dan ddehongliad 12, Cytundebau Consesiwn Gwasanaeth, y Pwyllgor Rhyngwladol Dehongli Adrodd Ariannol a dehongliad 29, Cytundebau Consesiwn Gwasanaeth: Datgeliadau'r Pwyllgor Dehongli Safonau.

## 1.8 Pensiynau

a) Prif Gynllun Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Fel rheol, dylid darparu pensiynau yn unol â darpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a ddisgrifir yn llawnach yn yr adroddiad ar gydnabyddiaeth a staff. Mae datganiad cynllun ar wahân ar gyfer y PCSPS cyfan. Cyfrifir am gyfraniadau pensiwn y cyflogwr ar sail croniadau. Mae'r rhwymedigaethau yn aros gyda'r PCSPS ac nid yr IOPC.

b) Pensiynau cyffelyb

Yn achos rhai cyn-aelodau o Awdurdod Cwynion yr Heddlu, darperir pensiynau drwy drefniant Pensiwn Cyffelyb. Yn yr achosion hyn, cydnabyddir cost flynyddol y cyfraniad pensiwn yn y Datganiad Cynhwysfawr o Wariant Net. Caiff symiau sy'n gysylltiedig â newidiadau ym mhrisiad actiwaraidd rhwymedigaethau cynllun eu haddasu drwy'r Datganiad o Ecwiti Trethdalwyr. Mae'r rhwymedigaethau ar gyfer y cynllun cyffelyb yn aros gyda'r IOPC. Cydnabyddir y rhain yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol.

Mae'r datganiadau ariannol hyn yn cydymffurfio'n llawn ag IAS 19: Buddiannau Gweithwyr.

## 1.9 Costau staff

Yn unol â Buddiannau Gweithwyr IAS 19, mae'r IOPC yn cydnabod costau disgwyliedig buddiannau gweithwyr tymor byr ar ffurf absenoldebau digolledol, fel a ganlyn:

(a) yn achos absenoldebau digolledol cronnol, pan fo'r gweithwyr yn rhoi gwasanaeth sy'n cynyddu eu hawl i absenoldebau digolledol i'r dyfodol; ac

(b) yn achos absenoldebau cronnol nad ydynt yn ddigolledol, pan fo absenoldebau'n digwydd.

Seilir iawndal ar dâl gwyliau contractaidd yn unig ac nid yw'n cynnwys gwyliau hyblyg a gasglwyd.

## 1.10 Darpariaethau

Yn unol ag IAS 37, datgelir darpariaethau yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol ar gyfer ymrwymiadau cyfreithiol neu adeiladol sy'n bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd os yw swm y taliad i setlo'r ymrwymiad yn debygol ac y gellir ei amcangyfrif yn ddibynadwy. Mae'r swm a gydnabyddir mewn darpariaethau yn cymryd i ystyriaeth yr adnoddau sydd eu hangen i gynnwys ymrwymiadau taliadau i'r dyfodol.

Mae'r mesur wedi'i seilio ar swm y setliad gyda'r tebygolrwydd uchaf neu os yw'r hyn sy'n debygol yn gyfartal, yna'n defnyddio gwerth disgwyliedig symiau'r setliad. Nid yw'r llif arian disgwyliedig wedi cael disgownt gan na fyddai'r effaith yn berthnasol. I'r graddau y mae hawliadau ad-daliad yn bodoli o fewn ystyr IAS 37, maent yn cael eu cydnabod fel ased ar wahân os yw eu gwireddu mwy neu lai'n bendant.

## 1.11 Prydlesi

Caiff costau prydlesi gweithredol a ddelir gan yr IOPC eu codi ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles. Mae'r prydlesi gweithredol sylweddol ar gyfer adeiladau swyddfa pan nad oes opsiynau prynu ar gael.

Nid oes gan yr IOPC unrhyw brydlesi ariannol.

## 1.12 Treth ar werth

Mae'r IOPC wedi'i gofrestru ar gyfer TAW, ond dim ond TAW ar bryniannau pan fydd yr IOPC yn gwneud gweithgareddau anstatudol y gall ei hawlio yn ôl. Mae unrhyw dreth mewnbwn sy'n adferadwy yn cael ei gredydu ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

## 1.13 Treth gorfforaethol

Mae'r IOPC wedi'i gofrestru ar gyfer treth gorfforaethol fel rhan o grŵp treth gorfforaethol y Swyddfa Gartref.

## 1.14 Safonau newydd a fabwysiadwyd

Dim.

### 1.15 Safonau a gyhoeddwyd ond nad ydynt mewn grym eto

IFRS 16: Bydd *prydlesi* fel yr addaswyd a dehonglwyd gan y FReM, yn dod i rym ar 1 Ebrill 2021. Bydd y safon yn newid y ffordd mae'r IOPC yn cydnabod, mesur, cyflwyno a datgelu'r prydlesi sydd ganddo. Mae'r safon yn darparu model cyfrifyddu un deiliad prydles, sy'n gofyn i ddeiliaid prydlesi gydnabod yr asedau a rhwymedigaethau ar gyfer pob prydles oni bai bod tymor y brydles yn dymor byr (llai na 12 mis) neu fod gan yr ased sylfaenol werth isel. Nid yw'r effaith ar ddatganiadau ariannol 2021/22 wedi'i gwerthuso.

Ni fydd safonau newydd y mater neu ddiwygiadau eraill nad ydynt mewn grym eto yn effeithio ar yr IOPC.

### 1.16 Amcangyfrifon rheolwyr

Mae'r rheolwyr wedi gwneud amcangyfrifon cyfrifyddu perthnasol sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol adroddedig ar gyfer yr IOPC. Mae'r rhain yn cynnwys y gofynion ar gyfer darpariaethau i adfer eiddo'r swyddfa, a bywydau economaidd ein hasedau anghyfredol, gan gynnwys ein system rheoli achosion a'r feddalwedd gysylltiedig.

## 2 Datganiad o gostau gweithredu yn ôl segment gweithredol

Mae'r segmentau gweithredol yn seiliedig ar strwythur adrodd y bwrdd rheoli fel yr oedd ar 31 Mawrth 2020. Mae hyn yn rhoi'r cyfrifoldeb ariannol i'r uwch swyddog gweithredol sydd yn y man gorau i gymryd penderfyniadau gwariant a sicrhau bod gwerth am arian yn cael ei gyflawni.

Cafodd rhai swyddogaethau eu hail-strwythuro yn ystod y flwyddyn, ac felly mae ffigyrau'r flwyddyn flaenorol wedi'u hailddatgan.

| **Segment** | **2019/20** **Gwariant gros** £'000 | **2019/20** **Incwm** £'000 | **2019/20** **Gwariant net** £'000 |
|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Corfforaethol | 17,916 | (45) | 17,871 |
| Gweithrediadau | 32,677 | (33) | 32,644 |
| Grŵp Swyddfa Breifat | 1,207 | - | 1,207 |
| Gwasanaethau Cyfreithiol | 2,892 | - | 2,892 |
| Strategaeth ac Effaith | 9,324 | - | 9,324 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Pobl | 5,158 | - | 5,158 |
| Anariannol | 4,800 | - | 4,800 |
| **Cyfanswm** | **73,974** | **78** | **73,896** |

| Segment | Ail ddatganwyd 2018/19 Gwariant gros £'000 | Ail ddatganwyd 2018/19 Incwm £'000 | Ail ddatganwyd 2018/19 Gwariant net £'000 |
|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Corfforaethol | 19,804 | (17) | 19,787 |
| Gweithrediadau | 32,154 | (110) | 32,044 |
| Grŵp Swyddfa Breifat | 712 | - | 712 |
| Gwasanaethau Cyfreithiol | 2,964 | - | 2,964 |
| Strategaeth ac Effaith | 8,174 | - | 8,174 |
| Pobl | 5,104 | - | 5,104 |
| Anariannol | 3,715 | - | 3,715 |
| **Cyfanswm** | **72,627** | **(127)** | **72,500** |

## 3 Pensiynau

### 3.1 Cynllun pensiwn cyffelyb

Mae rhai comisiynwyr a staff blaenorol yr IPCC yn derbyn buddiannau pensiwn cyffelyb (BBA) â'r PCSPS.

Nid yw pensiynau BBA yn cael eu hariannu, gyda'r buddiannau'n cael eu talu fel y dônt yn daladwy ac maent yn cael eu gwarantu gan yr IOPC. Nid oes cronfa ac felly dim gwarged neu ddiffyg.

Mae rhwymedigaethau'r cynllun am wasanaeth wedi'u cyfrifo gan Adran Actwari'r Llywodraeth gan ddefnyddio'r tybiaethau ariannol canlynol:

| Tybiaethau | 2019/20 | 2018/19 |
|---|---|---|
| Cyfradd a ddefnyddir i ddisgowntio rhwymedigaethau'r cynllun | 1.80% | 2.90% |
| Cyfradd y dybiaeth chwyddiant CPI | 2.35% | 2.60% |
| Cyfradd y cynnydd mewn taliadau pensiynau a phensiynau gohiriedig | 2.35% | 2.40% |

Mae'r tybiaethau marwoldeb yn defnyddio'r tybiaethau prisio 2016 PCSPS gyda phrif ragamcaniadau poblogaeth y DU yn 2018 y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2016 ar gyfer y flwyddyn flaenorol), sy'n rhoi'r disgwyliadau oes canlynol ar ymddeoliad.

| **Pensiynwyr presennol** | **31 Mawrth 2020** | | **31 Mawrth 2019** | |
|---|---|---|---|---|
| | **Dynion** | **Merched** | **Dynion** | **Merched** |
| Yn 60 oed | 26.8 | 28.4 | 27.6 | 29.3 |
| Yn 65 oed | 21.9 | 23.5 | 22.7 | 24.3 |
| **Pensiynwyr y dyfodol** | | | | |
| Yn 60 oed | 28.5 | 30.2 | 29.6 | 31.2 |
| Yn 65 oed | 24.0 | 25.6 | 25.1 | 26.7 |

Mae'r actwari wedi ystyried goblygiadau posibl pandemig Covid-19 ar y cyfrifiadau actiwaraidd.

Mae'r rhagdybiaethau ar gyfer y gyfradd ddisgownt a chynnydd mewn pensiynau wedi'u manylu gan Drysorlys EM yn y PES (2019) 11 Diwygiedig, â'r dyddiad 6 Rhagfyr 2019, ac maent yr un fath yn y cyfrifon hyn. Mae'r rhagdybiaethau PES yn adlewyrchu amodau'r farchnad ar 30 Tachwedd 2019 ac yn nodweddiadol ni chânt eu diwygio ar unrhyw newidiadau rhwng mis Tachwedd a'r dyddiad cyfrifyddu.

Nid yw rhagamcanion marwoldeb y boblogaeth ar hyn o bryd yn gwneud unrhyw lwfans penodol mewn perthynas ag effaith Covid-19 neu unrhyw bandemig arall. Mae cyfraddau cychwynnol gwella marwoldeb yn seiliedig ar ragamcanion tueddiadau'r gorffennol ym marwoldeb y DU a bydd effeithiau unrhyw bandemig blaenorol eisoes wedi'u hadlewyrchu yn y tueddiadau hynny. Yn gyffredinol, fel arfer disgwylir i effeithiau pandemig ar gyfraddau marwoldeb fod yn rhai tymor byr, gyda'r cyfraddau yn dychwelyd yn ôl i'r arfer cyn y pandemig, ar ôl blwyddyn neu ddwy, oni bai bod y pandemig yn para dros sawl blwyddyn. Ystyrir ei bod yn rhy gynnar yn y pandemig i bennu a yw Covid-19 yn newid y safbwynt hirdymor o ddisgwyliad oes yn y DU, felly mae'r rhagdybiaethau marwoldeb cyfredol wedi'u cadw.

| Mae'r rhwymedigaethau sy'n gysylltiedig ag aelodau fel a ganlyn | 31 Mawrth 2020 | 31 Mawrth 2019 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| **Darpariaeth bensiwn** | | |
| Balans ar 1 Ebrill | 2,198 | 2,251 |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn darpariaeth | 173 | (53) |
| **Gwerth presennol rhwymedigaethau** | **2,371** | **2,198** |

| Symiau eraill i'w datgelu er mwyn deall y newid mewn darpariaeth | 31 Mawrth 2020 | 31 Mawrth 2019 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| **Rhwymedigaeth cynllun ar ddechrau'r flwyddyn** | **2,198** | **2,251** |
| **Symudiad yn y flwyddyn** | | |
| Cost llog | 63 | 57 |
| (Enillion)/ colledion actiwaraidd | 180 | (42) |
| Buddiannau a dalwyd | (70) | (68) |
| **Cynnydd/(gostyngiad) yn rhwymedigaeth y cynllun** | **173** | **(53)** |
| **Rhwymedigaeth cynllun ar ddiwedd y flwyddyn** | **2,371** | **2,198** |

| Costau i'w cydnabod yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr | 2019/20 | 2018/19 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Costau llog | 63 | 57 |
| **Cyfanswm costau** | **63** | **57** |

| Colledion/(enillion) actiwaraidd i'w cydnabod yn Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr | 2019/20 | 2018/19 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Colled/(enillion) profiad yn codi ar rwymedigaethau'r cynllun | (11) | 7 |
| Newid mewn tybiaethau sy'n sail i werth presennol rhwymedigaethau'r cynllun | 191 | (49) |
| **Cyfanswm net colled/(enillion) actiwaraidd ar Ecwiti Trethdalwyr** | **180** | **(42)** |

Nid oes costau ar gyfer cyflogeion a chyflogwyr yn daladwy yn 2019/20.

| Gwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun | 31 Mawrth 2020<br>£'000 | 31 Mawrth 2019<br>£'000 | 31 Mawrth 2018<br>£'000 | 31 Mawrth 2017<br>£'000 | 31 Mawrth 2016<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhwymedigaeth yng nghyswllt: Pensiynwyr wedi'u gohirio | 583 | 512 | 515 | 513 | 398 |
| Pensiynau presennol | 1,788 | 1,686 | 1,736 | 1,823 | 1,556 |
| **Cyfanswm gwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun** | **2,371** | **2,198** | **2,251** | **2,336** | **1,954** |
| Hanes profiad (enillion)/colledion | (11) | 7 | (7) | (17) | (40) |
| Canran o rwymedigaethau'r cynllun ar ddiwedd y flwyddyn | -0.5% | 0.3% | -0.3% | -0.7% | -2.0% |

| **Sensitifedd y rhwymedigaeth fuddiol ddiffiniedig (DBO) i newidiadau yn y tybiaethau actiwaraidd arwyddocaol** | | | |
|---|---|---|---|
| **Newid yn y dybiaeth** | | **Effaith ar y rhwymedigaethau buddiol diffiniedig**<br>% | <br>£'000 |
| Cyfradd rhwymedigaethau'r cynllun wedi'u disgowntio | + 0.5% y flwyddyn | -7% | (169) |
| Cyfradd cynnydd mewn CPI | + 0.5% y flwyddyn | 8% | 183 |
| Disgwyliad oes: cymerwn fod pob aelod flwyddyn yn ieuengach na'u gwir oedran | | 3% | 64 |

### 3.2 Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Mae'r PCSPS yn gynllun buddiant diffiniedig aml-gyflogwr nas ariennir, ond ni all yr IOPC nodi ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Cafwyd prisiad o'r cynllun gan actwari'r cynllun ar 31 Mawrth 2012. Mae manylion i'w gweld yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Blwydd-daliadau Sifil (www.civilservice-pensions.gov.uk).

Ar gyfer 2019/20, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £8,830 yn daladwy i'r PCSPS (2018/19 £6,601) ar un o bedair cyfradd yn yr amrediad 26.6% i 30.3% (2018/9 20% i 24.5%) o dâl pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog. Mae actiwari'r cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr, bob pedair blynedd fel arfer, yn dilyn prisio'r cynllun yn llawn.

Pennir cyfraddau'r cyfraniadau i dalu cost y buddiannau a gronnwyd yn ystod 2019/20 i'w talu pan fydd yr aelod yn ymddeol, ac nid y buddiannau a dalwyd yn ystod y cyfnod hwn i bensiynwyr presennol.

Gall gweithwyr ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, pensiwn cyfranddeiliaid gyda chyfraniad cyflogwr. Talwyd cyfraniadau cyflogwyr o £274k (2018/19 £251k) i un neu fwy o'r panel o dri darparwr pensiynau rhanddeiliaid penodedig. Mae cyfraniadau cyflogwr yn gysylltiedig ag oedran ac maent yn amrywio o 8% i 14.75% o gyflog pensiynadwy.

Mae cyflogwyr hefyd yn cyfateb cyfraniadau gweithwyr hyd at 3% o gyflog pensiynadwy. Yn ogystal, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £10k (2018/19 £9k), 0.5% o gyflog pensiynadwy, yn daladwy i'r PCSPS i dalu cost darparu buddiannau cyfandaliad o ran marwolaeth wrth weithio ac ymddeoliad o ganlyniad i salwch y gweithwyr hyn yn y dyfodol.

## 4 Gwariant

| | Nodyn | 2019/20<br>£'000 | 2018/19<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| **Costau staff** | | | |
| Cyflogau a thâl | | 38,298 | 37,872 |
| Cost nawdd cymdeithasol | | 3,825 | 3,672 |
| Cyfraniadau pensiwn | | 9,114 | 6,861 |
| Ar ôl tynnu: adenillion o secondiadau allanol | | (299) | (240) |
| **Cyfanswm costau net staff** | | **50,938** | **48,165** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Prynu nwyddau a gwasanaethau** | | | |
| TG | | 4,781 | 4,195 |
| Taliadau gwasanaeth consesiwn gwasanaeth | | 3,703 | 5,376 |
| Rhent llety | | 2,366 | 2,591 |
| Llety nad yw'n cael ei rentu | | 1,934 | 3,042 |
| Teithio a chynhaliaeth | | 1,564 | 1,664 |
| Hyfforddiant | | 649 | 946 |
| Fforensig | | 447 | 456 |

## 4 Gwariant

| | Nodyn | 2019/20<br>£'000 | 2018/19<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| Recriwtio | | 315 | 300 |
| Offer swyddfa | | 94 | 143 |
| Costau postio | | 59 | 61 |
| Ymchwil | | 131 | 71 |
| Gwasanaethau cyfreithiol | | 995 | 901 |
| Cyfarwyddyd i'r heddlu a'r cyhoedd | | 190 | 99 |
| Ffioedd proffesiynol | | 524 | 281 |
| Ffi archwiliad – allanol | | 52 | 50 |
| Taliadau llog consesiwn gwasanaeth | | 1 | 3 |
| Costau eraill | | 431 | 568 |
| **Cyfanswm pryniadau o eiddo a gwasanaethau** | | **18,236** | **20,747** |
| | | | |
| **Eitemau anariannol** | | | |
| Dibrisiant | 5 | 2,034 | 2,649 |
| Amorteiddiad | 6 | 1,862 | 1,000 |
| Gwariant net darpariaethau/(gwrthdroadau) | 11 | 841 | (848) |
| Colled ar waredu asedau anghyfredol | | - | 856 |
| Llogau cost pensiwn BBA | 3.1 | 63 | 57 |
| Arall anariannol | | - | 1 |
| **Cyfanswm eitemau anariannol** | | **4,800** | **3,715** |
| | | | |
| **Cyfanswm gwariant gweithredu** | | **73,974** | **72,627** |

Y ffi ar gyfer archwiliad allanol o'r Datganiad o Gyfrifon oedd £52,000 (2018/19 £50,000). Ni wnaeth yr archwilwyr allanol unrhyw waith nad oedd yn waith archwilio.

## 5 Eiddo, offer a chyfarpar

| | Taliadau ar gyfrif ac asedau sy'n cael eu hadeiladu | Technoleg gwybodaeth | Cerbydau | Ffitiadau a dodrefn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cost neu brisiad** | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2019** | **1,633** | **6,058** | **853** | **10,946** | **19,490** |
| Ailddosbarthiadau | (1,442) | 651 | - | 265 | (526) |
| Ychwanegiadau | 1,187 | 31 | - | 653[24] | 1,871 |
| Gwarediadau | - | (1,235) | - | (531) | (1,766) |
| **Ar 31 Mawrth 2020** | **1,378** | **5,505** | **853** | **11,333** | **19,069** |
| **Dibrisiant** | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2019** | **-** | **3,213** | **411** | **8,506** | **12,130** |
| Ailddosbarthiadau | - | (346) | - | - | (346) |
| Tâl am y flwyddyn | - | 1,306 | 111 | 617 | 2,034 |
| Gwarediadau | - | (1,235) | - | (531) | (1,766) |
| **Ar 31 Mawrth 2020** | **-** | **2,938** | **522** | **8,592** | **12,052** |
| | | | | | |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2020** | **1,378** | **2,567** | **331** | **2,741** | **7,017** |

| | Taliadau ar gyfrif ac asedau sy'n cael eu hadeiladu | Technoleg gwybodaeth | Cerbydau | Ffitiadau a dodrefn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cost neu brisiad** | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2018** | **2,494** | **6,253** | **853** | **14,024** | **23,624** |
| Ailddosbarthiadau | (1,647) | 1,647 | - | - | **-** |
| Ychwanegiadau | 1,634 | 71 | - | - | **1,705** |
| Gwarediadau | (848) | (1,913) | - | (3,078) | **(5,839)** |
| **Ar 31 Mawrth 2019** | **1,633** | **6,058** | **853** | **10,946** | **19,490** |

[24] Ychwanegiadau anariannol fel sy'n gysylltiedig â'r ased adferiad dadelfennu

| | Taliadau ar gyfrif ac asedau sy'n cael eu hadeiladu | Technoleg gwybodaeth | Cerbydau | Ffitiadau a dodrefn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Dibrisiant** | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2018** | **-** | **3,910** | **299** | **10,262** | **14,471** |
| Tâl am y flwyddyn | - | 1,215 | 112 | 1,322 | **2,649** |
| Gwarediadau | - | (1,912) | - | (3,078) | **(4,990)** |
| **Ar 31 Mawrth 2019** | **-** | **3,213** | **411** | **8,506** | **12,130** |
| | | | | | |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2019** | **1,633** | **2,845** | **442** | **2,440** | **7,360** |
| | | | | | |
| **Ariannu asedau** | | | | | |
| Ar gytundebau consesiwn gwasanaeth SoFP | - | 372 | - | - | 372 |

## 6 Asedau anniriaethol

| | Taliadau ar gyfrif ac asedau sy'n cael eu hadeiladu £'000 | Technoleg gwybodaeth £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad** | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2019** | **342** | **11,654** | **11,996** |
| Ailddosbarthiadau | (324) | 850 | 526 |
| Ychwanegiadau | 56 | 96 | 152 |
| Gwarediadau | - | (11) | (11) |
| **Ar 31 Mawrth 2020** | **74** | **12,589** | **12,663** |
| **Amorteiddiad** | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2019** | **-** | **6,571** | **6,571** |
| Ailddosbarthiadau | - | 346 | 346 |
| Tâl am y flwyddyn | - | 1,862 | 1,862 |
| Gwarediadau | - | (11) | (11) |
| **Ar 31 Mawrth 2020** | **-** | **8,768** | **8,768** |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2020** | **74** | **3,821** | **3,895** |

| | Taliadau ar gyfrif ac asedau sy'n cael eu hadeiladu £'000 | Technoleg gwybodaeth £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad** | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2018** | **236** | **10,631** | **10,867** |
| Ailddosbarthiadau | (236) | 236 | - |
| Ychwanegiadau | 342 | 1,024 | 1,366 |
| Gwarediadau | - | (237) | (237) |
| **Ar 31 Mawrth 2019** | **342** | **11,654** | **11,996** |
| **Amorteiddiad** | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2018** | **-** | **5,801** | **5,801** |
| Tâl am y flwyddyn | - | 1,000 | 1,000 |
| Gwarediadau | - | (230) | (230) |
| **Ar 31 Mawrth 2019** | **-** | **6,571** | **6,571** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2019** | **342** | **5,083** | **5,425** |

| **Ariannu asedau** | | | |
|---|---|---|---|
| Ar gytundebau consesiwn gwasanaeth SoFP | - | 1,453 | 1,453 |

## 7 Offerynnau ariannol

Nid yw'r IOPC yn dal unrhyw offerynnau ariannol cymhleth. Yr unig offerynnau ariannol sydd wedi'u cynnwys yn y cyfrifon yw arian a chyfatebol i arian, derbyniadwyon a thaladwyon sy'n cael eu mesur ar gost amorteiddio.

Mae adnoddau'r IOPC yn cael eu bodloni yn bennaf drwy gymorth grant gan y Swyddfa Gartref drwy'r broses gyflenwi ac o incwm o waith a wneir ar sail ad-dalu. Nid oes gan yr IOPC unrhyw bwerau i fenthyg arian nac i fuddsoddi cronfeydd dros ben ac eithrio'r asedau a rhwymedigaethau ariannol a gynhyrchir gan weithgareddau gweithredol o ddydd i ddydd. O ganlyniad nid yw'r IOPC yn agored i fawr ddim neu unrhyw risg credyd, hylifedd, arian tramor na chwyddiant.

## 8 Arian a chyfatebol i arian

| | **2019/20** | **2018/19** |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| **Balans cychwynnol** | **6,684** | **12,702** |
| Newid net mewn balansau arian yn ystod y flwyddyn | 366 | (6,018) |
| **Balans arian cau** | **7,050** | **6,684** |

Dim ond arian sy'n cael ei gadw ac mae ar gael ar unwaith o Wasanaeth Bancio'r Llywodraeth.

## 8.1 Cysoni rhwymedigaethau sy'n codi o weithgareddau cyllido

Mae rhwymedigaethau sy'n codi o weithgareddau cyllidol yn groniadau o'r cytundeb consesiwn gwasanaeth am asedau sy'n dod i ddefnydd cyn eu talu. Dangosir y rhain yn Nodyn 10. Ar 31 Mawrth 2020 roedd y rhain yn ddim ac yn £65,000 ym mis Mawrth 2019.

## 9 Derbyniadwyon masnach a derbyniadwyon eraill

| | 31 Mawrth 2020 £'000 | 31 Mawrth 2019 £'000 |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n dod yn ddyledus cyn pen blwyddyn** | | |
| Asedau contractau | 13 | 23 |
| Derbyniadwyon masnach | 37 | 29 |
| Trethi a nawdd cymdeithasol arall | - | 92 |
| Blaensymiau staff | 142 | 50 |
| Rhagdaliadau | 1,088 | 618 |
| **Cyfanswm sy'n dod yn ddyledus cyn pen blwyddyn** | **1,280** | **812** |

## 10 Taladwyon masnach a thaladwyon eraill

| | 31 Mawrth 2020 £'000 | 31 Mawrth 2019 £'000 |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn** | | |
| TAW | 15 | 11 |
| Trethi a nawdd cymdeithasol arall | 2,089 | 1,834 |
| Taladwyon masnach | 88 | - |
| Buddiannau staff | 1,331 | 985 |
| Taladwyon eraill | 1 | 2 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | 3,557 | 4,762 |
| Rhan gyfredol o groniadau cytundeb consesiwn gwasanaeth am asedau sy'n dod i ddefnydd cyn eu talu | - | 62 |
| Rhan gyfredol o elfen brydles ariannol briodoledig y cytundeb consesiwn gwasanaeth | - | 3 |
| **Cyfanswm sy'n dod yn ddyledus cyn pen blwyddyn** | **7,081** | **7,659** |
| | | |
| **Symiau sy'n dod yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn** | | |
| Taladwyon eraill, croniadau ac incwm gohiriedig | 539 | 91 |

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfanswm yn ddyledus ar ôl blwyddyn** | **539** | **91** |

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfanswm taladwyon masnach a thaladwyon eraill** | **7,620** | **7,750** |

## 11 Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

Mae'r IOPC yn cydnabod darpariaeth adfer ar gyfer pob eiddo ar brydles lle mae ganddo rwymedigaeth i sicrhau bod yr eiddo mewn cyflwr da ar ddiwedd y brydles. Mae'r ddarpariaeth yn seiliedig ar gostau amcangyfrifiedig adfer addasiadau a wnaed gan yr IOPC a rhwymedigaethau atgyweirio sy'n ofynnol yn ystod cyfnod y brydles. Amcan y gost adfer addasiadau a wnaed i'r adeiladau yw £3,777,000 (£2,538,000 ar gyfer 2018/19). Mae gwerth darpariaethau adferiad yn seiliedig ar asesiad arbenigol a gafwyd yn 2017/18.

Yn unol ag IAS 37 Darpariaethau, Rhwymedigaethau Wrth Gefn ac Asedau Wrth Gefn, cydnabuwyd costau adfer fel rhan o'r asedau dodrefnu a chânt eu dibrisio yn ystod y brydles.

Mae gweddill y ddarpariaeth arall ar gyfer hawl tâl.

| | Eiddo £'000 | Arall £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill 2019** | **2,538** | **-** | **2,538** |
| Treuliau darparu yn y flwyddyn | 586 | 255 | 841 |
| Darparu ar gyfer adferiad | 653 | - | 653 |
| **Cynnydd mewn darpariaethau** | **1,239** | **255** | **1,494** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2020** | **3,777** | **255** | **4,032** |
| **Cynrychiolir gan:** | | | |
| Elfen anghyfredol o'r ddarpariaeth | 3,191 | - | 3,191 |
| Elfen gyfredol o'r ddarpariaeth | 586 | 255 | 841 |
| **Dadansoddiad o amseriad disgwyliedig llifoedd gostyngol** | | | |
| Dim hwyrach na blwyddyn | 586 | 255 | 841 |
| Yn hwyrach na blwyddyn ond dim hwyrach na phum mlynedd | 1,677 | - | 1,677 |
| Hwyrach na phum mlynedd | 1,514 | - | 1,514 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2020** | **3,777** | **255** | **4,032** |

| | Eiddo | Arall | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Balans ar 1 Ebrill 2018** | **3,386** | **-** | **3,386** |
| Darparwyd yn y flwyddyn | - | - | - |
| Darpariaethau nad oedd eu hangen wedi'u hysgrifennu'n ôl | (848) | - | (848) |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn | - | - | - |
| Newid yn y raddfa ddisgownt | - | - | - |
| **Gostyngiad mewn darpariaethau** | **(848)** | **-** | **(848)** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2019** | **2,538** | **-** | **2,538** |
| **Cynrychiolir gan** | | | |
| Elfen anghyfredol o'r ddarpariaeth | 2,538 | - | 2,538 |

## 12 Ymrwymiadau dan brydlesau

**Prydlesau gweithredu**

Ar 31 Mawrth roedd gan yr IOPC y cyfanswm taliadau prydles gofynnol i'r dyfodol canlynol o dan brydlesi gweithredu nad ydynt yn brydlesi y gellir eu canslo ar gyfer pob un o'r cyfnodau canlynol:

| | 31 Mawrth 2020 | 31 Mawrth 2019 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| **Ymrwymiadau o dan brydlesi gweithredu yn cynnwys** | | |
| Adeiladau: | | |
| Dim hwyrach na blwyddyn | 2,489 | 1,942 |
| Yn hwyrach na blwyddyn ond dim hwyrach na phum mlynedd | 6,080 | 5,152 |
| Hwyrach na phum mlynedd | 7,694 | 6,361 |
| **Cyfanswm ymrwymiadau prydles weithredu** | **16,263** | **13,455** |

## 13 Ymrwymiadau o dan gytundebau consesiwn gwasanaeth

Daeth y cytundeb i ben fis Rhagfyr 2019, ac ar ôl hynny dechreuodd yr IOPC ar gyfnod o gynorthwyo terfyniad o ddwy flynedd, ac yn y cyfnod hwnnw byddwn yn gwahanu gwasanaethau TGCh i ddarparwyr masnachol eraill mewn camau, addasu'r bensaernïaeth dechnegol a rheolyddion diogelwch a throsglwyddo

asedau a gwasanaethau TGCh i ddarparwyr newydd. Bydd hyn hefyd yn ein galluogi i alinio strategaeth ddigidol y Llywodraeth drwy ddefnyddio mwy ar ddarpariaeth gwmwl, ffynhonnell agored a datblygu ystwyth.

Dan y contract, roedd gan SopraSteria Limited rwymedigaeth i adeiladu a chynnal asedau diriaethol ac anniriaethol gyda gwerth ar ddiwedd y contract o £7m (£7m ar 31 Mawrth 2019) at ddefnydd yr IOPC yn ogystal â darparu gwasanaethau gweithredu dros oes y contract am gost o £41m (£41m ar 31 Mawrth 2019). Y taliadau cyllid dros oes y contract oedd £0.6m (£0.6m ar 31 Mawrth 2019).

Roedd hefyd ymrwymiad ar SopraSteria Limited i adnewyddu asedau yn ystod oes y contract, yn bennaf ym mlynyddoedd pedwar a phump. Roedd gan yr asedau werth gweddilliol bychan iawn ar ddiwedd tymor y contract.

Cytunwyd ar y taliadau blynyddol i'w gwneud gan yr IOPC ar ddechrau'r contract ac roeddynt yn amodol ar hysbysiadau newid y contract. Ni chafwyd prin ddim ansicrwydd ynghylch llif arian. Roedd y contract yn darparu ar gyfer ailbrisio petai'r RPI-X yn mynd dros 6%.

Roedd yr asedau a gaffaelwyd o dan y contract dan reolaeth yr IOPC ac o dan IFRIC 12 roedd y contract yn gytundeb consesiwn gwasanaeth gyda'r IOPC fel rhoddwr a SopraSteria Limited fel y gweithredwr.

Oherwydd bod y contract wedi dod i ben fis Rhagfyr 2019, nid oes asedau consesiwn gwasanaeth, rhwymedigaeth nag ymrwymiadau ar ddiwedd y flwyddyn.

## 13.1 Ar y datganiad o sefyllfa ariannol (SoFP)

| **Mae cyfanswm yr ymrwymiadau o dan gytundebau consesiwn gwasanaeth ar y datganiad o sefyllfa ariannol ar gyfer y cyfnodau canlynol yn cynnwys** | **31 Mawrth 2020** | **31 Mawrth 2019** |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Dim hwyrach na blwyddyn | - | 66 |
| Ar ôl tynnu elfen llog | - | (1) |
| **Cyfanswm ymrwymiadau consesiwn gwasanaeth ar y Datganiad o Sefyllfa Ariannol** | | **65** |
| **cynrychiolir gan** | | |
| Cyfredol (wedi'u cynnwys yn taladwyon masnach a thaladwyon eraill) | - | 65 |
| **Cyfanswm ymrwymiadau consesiwn gwasanaeth ar y Datganiad o Sefyllfa Ariannol** | | **65** |

## 13.2 Codwyd ar y datganiad o wariant net cynhwysfawr

Roedd cyfanswm yr arian a godir yn y datganiad o wariant net cynhwysfawr ar gyfer elfen gwasanaeth y cytundeb consesiynau gwasanaeth yn y datganiad o sefyllfa ariannol yn £3.7m (2018/19 £5.4m).

| Mae'r taliadau y mae'r IOPC wedi'u hymrwymo iddynt ar 31 Mawrth, wedi'u dadansoddi yn ôl y cyfnod y mae'r ymrwymiad y dod i ben ynddo, fel a ganlyn | 31 Mawrth 2020 | 31 Mawrth 2019 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Dim hwyrach na blwyddyn | - | 3,923 |
| **Cyfanswm a godwyd ar SOCNE** | **-** | **3,923** |

## 14 Rhwymedigaethau wrth gefn a ddatgelwyd dan IAS 37

Mae gan yr IOPC rwymedigaethau wrth gefn o ran nifer o hawliadau cyfreithiol neu hawliadau posibl yn erbyn yr IOPC, na ellir rhagdybio'r canlyniad na'r amseriad yn bendant. Mae'r rhain yn cynnwys hawliadau am adolygiadau barnwrol a thribiwnlysoedd cyflogaeth. Darperir ar gyfer yr holl rwymedigaethau a ddisgwylir yn llawn yn y datganiadau ariannol.

Mae'r darpariaethau eiddo yn nodyn 11 ar sail costau adfer amcangyfrifiedig ac nid ydynt yn cynnwys colledion dilynol posibl. Setlir costau gadael stadau drwy drafod, ac ni ellir amcangyfrif canlyniad nac amseru hynny ag unrhyw sicrwydd a gall yr IOPC fod yn atebol am ragor o gostau.

## 15 Trafodion partïon cysylltiedig

Mae'r Swyddfa Gartref yn un o bartïon cysylltiedig yr IOPC. Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 darparodd y Swyddfa Gartref gymorth grant, fel y datgelwyd yn nodyn 18.

Mae cyrff y llywodraeth yn bartïon cysylltiedig. Dengys yr incwm gan y cyrff hyn yn yr Adroddiad Atebolrwydd. Mae'r symiau sy'n ddyledus gan y cyrff hyn i'r IOPC yn cael eu dosbarthu fel derbyniadwyon masnach a derbyniadwyon eraill ac yn cyfateb i £6k (£7k ym mis Mawrth 2019).

Mae'r PCSPS a Swyddfa'r Cabinet hefyd yn bartïon cysylltiedig. Gellir gweld rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r trafodion gyda'r cyrff hyn yn Nodyn 3.2.

Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 ni wnaeth unrhyw un o'r cyfarwyddwyr anweithredol, cyfarwyddwyr gweithredol na staff rheoli allweddol ymgymryd ag unrhyw drafodion perthnasol â'r IOPC.

Mae'r IOPC wedi mabwysiadu Cod Ymddygiad sy'n seiliedig ar God Ymarfer Swyddfa'r Cabinet ar gyfer Aelodau Byrddau Cyrff Cyhoeddus. Mae'r IOPC yn cynnal cofrestr o fuddiannau ar gyfer cyfarwyddwyr anweithredol a'r holl staff y mae'n ofynnol iddynt ddatgan buddiannau. Mae'r gofrestr o fuddiannau ar gyfer cyfarwyddwyr anweithredol a gweithredol ar gael i'r cyhoedd ac mae ar ein gwefan. Pan wneir unrhyw benderfyniadau a allai gael eu hystyried, yn rhesymol, yn rhai sy'n arwain at wrthdaro buddiannau, mae'n ofynnol i unigolion ddatgan y buddiant

perthnasol a, lle bo'n briodol, beidio â bod yn rhan o'r broses o wneud y penderfyniad. Mae gweithdrefnau'r IOPC hefyd yn sicrhau nad yw ymchwilwyr yn ymwneud ag ymchwiliadau y gallent fod â buddiant ynddynt.

## 16 Asedau trydydd parti

Weithiau bydd yr IOPC yn dal asedau trydydd parti i hwyluso ymchwiliadau pan fydd angen. Caiff y rhain eu cadw'n ddiogel ac fel arfer cânt eu dychwelwyd i'w perchennog cyfreithiol pan nad ydynt eu hangen bellach. Ni ellir gwneud amcangyfrifon dibynadwy o'u gwerth.

Nid yw asedau trydydd parti yn cael eu cynnwys yn y datganiadau ariannol oherwydd nad oes gan yr IOPC fuddiant buddiannol ynddynt. Ar 31 Mawrth 2020 nid oedd unrhyw asedau ariannol yn cael eu cadw (2018/219: £Dim).

## 17 Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd yn ôl

Cafodd yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon eu hawdurdodi i'w cyhoeddi gan y Swyddog Cyfrifyddu ar yr un diwrnod ag yr ardystiwyd y Cyfrifon gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

## 18 Cymorth grant

Ariennir yr IOPC gan gymorth grant a dderbynnir gan y Swyddfa Gartref.

| | **2019/20** | **2018/19** |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Derbyniwyd ar gyfer gwariant refeniw | 70,087 | 69,929 |
| Derbyniwyd ar gyfer gwariant cyfalaf | 1,413 | 3,071 |
| **Cyfanswm cymorth grant** | **71,500** | **73,000** |

## 19 Hillsborough

Mae'r Swyddfa Gartref wedi cytuno i roi cymorth grant ychwanegol pan fydd yr IOPC yn achosi gwariant ychwanegol o ganlyniad i'r ymchwiliad i'r hyn a ddilynodd trychineb Hillsborough.

Mae'r nodyn hwn yn dangos y gwariant a achoswyd yn ystod 2019/20 a 2018/19.

| | 2019/20 | 2018/19 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| **Costau staff** | | |
| Cyflogau a thâl | 2,702 | 2,706 |
| Cost nawdd cymdeithasol | 279 | 276 |
| Cyfraniadau pensiwn | 635 | 502 |
| Staff dros dro | 329 | 749 |
| **Cyfanswm costau staff** | **3,945** | **4,233** |
| **Gwariant arall** | | |
| Rhent llety | 500 | 579 |
| Llety nad yw'n cael ei rentu | 508 | 560 |
| TG | 671 | 815 |
| Gwasanaethau cyfreithiol | 48 | 45 |
| Costau eraill | 100 | 105 |
| Recriwtio | 24 | 71 |
| Offer swyddfa | 9 | 13 |
| Hyfforddiant | 31 | 11 |
| Teithio a chynhaliaeth | 107 | 87 |
| **Cyfanswm gwariant arall** | **1,998** | **2,286** |
| **Anariannol** | | |
| Dibrisiant | 199 | 326 |
| Colled ar waredu asedau | - | 7 |
| **Cyfanswm eitemau anariannol** | **199** | **333** |
| **Cyfanswm gwariant refeniw** | **6,142** | **6,852** |

ISBN 978-1-5286-1815-1

CCS0320331450 07/20

This document is also available in English.
*Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.*

CCS0320331450
978-1-5286-1815-1